Cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim

Adroddiad Ymgynghori

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

1. CRYNODEB GWEITHREDOL 3

2. CEFNDIR 3

3. Y BROSES YMGYNGHORI 4

4. DADANSODDI'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD 4

5. Y SYLWADAU A DDAETH I LAW 5

6. CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL 7

7. CRYNODEB O'R SYLWADAU CEFNOGOL A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL 36

8. DADANSODDI'R YMGYNGHORIAD Â DISGYBLION 47

9. YMATEB ESTYN 65

10. OPSIYNAU ERAILL 72

11. AILASESIAD AR ÔL YR YMGYNGHORIAD MEWN PERTHYNAS Â STATWS YSGOL WLEDIG 93

12. NEWIDIADAU SY'N DEILLIO O'R YMGYNGHORIAD 94

13. CASGLIAD 94

14. ARGYMHELLIAD 95

15. Y CAMAU NESAF 96

ATODIAD A – YMATEB ESTYN 98

ATODIAD B – ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL 102

ATODIAD C – ASESIAD O EFFAITH AR Y GYMRAEG 112

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ynglŷn â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim. Cafodd yr ymgynghoriad ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, staff, llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned.

Cafwyd cyfanswm o 260 o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol hwn. Yn gyffredinol, y duedd oedd teimlo'n gryf yn erbyn cau Ysgol Gynradd Meidrim, gyda nifer o ymatebwyr yn mynegi pryderon am yr effaith bosibl ar y gymuned, y Gymraeg, llesiant plant a'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Serch hynny, roedd cyfran lai o'r ymatebion yn mynegi cefnogaeth i'r cynnig, yn enwedig o ran effeithlonrwydd ariannol a chynaliadwyedd, ailddyrannu adnoddau i ysgolion mwy, ehangder addysgol a chyfleoedd mewn lleoliadau mwy, a derbyn y bydd mwy o deithio.

2. CEFNDIR

Paratowyd papur cynnig yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan nodi'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Gynradd Meidrim. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Nifer isel o ddisgyblion
- Nifer uchel o leoedd gwag.
- Amcanestyniadau isel o nifer y disgyblion yn y dyfodol
- Materion ynghylch cyllideb yr ysgol
- Cyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl
- Materion yn ymwneud ag ansawdd a safonau
- Problemau gyda chyflwyno'r cwricwlwm oherwydd nifer isel y disgyblion
- Heriau gyda'r ddarpariaeth addysg oherwydd bod nifer o grwpiau blwyddyn yn yr un dosbarthiadau
- Diffyg arweinyddiaeth sefydlog dros gyfnod o amser

Bu'r Cabinet yn ystyried y papur cynnig ar 17 Tachwedd 2025 a chytunodd i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynnig canlynol:

- **Cau Ysgol Gynradd Meidrim ar 31 Rhagfyr 2026 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog o 1 Ionawr 2027.**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a gynhaliwyd rhwng 16 Ionawr 2026 a 2 Mawrth 2026. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r broses ymgynghori, yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd ac yn dadansoddi'r materion allweddol a'r sylwadau a gyflwynwyd gan randdeiliaid.

3. Y BROSES YMGYNGHORI

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Rhoddodd y broses ymgynghori gyfle i ymgyngoreion rhagnodedig ddysgu am y cynnig a rhoi adborth.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar 16 Ionawr 2026. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei dosbarthu'n electronig i ymgyngoreion rhagnodedig a'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r cynnig dan sylw, y rhesymau dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Rhoddwyd gwybod i'r ymgyngoreion fod modd llenwi ffurflen ar-lein a ble y dylid anfon llythyrau ysgrifenedig neu ymatebion drwy e-bost.

Cynhaliwyd ymgynghoriad â disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim ar 9 Chwefror 2026 a chyflwynodd y Cyngor Ysgol ymateb ar-lein yn amlinellu eu barn. Roedd disgyblion o Ysgol Gynradd Meidrim hefyd yn gallu rhoi adborth unigol drwy arolwg ar-lein.

Cynhaliwyd ymgynghoriad â disgyblion Ysgol Griffith Jones ar 25 Chwefror 2026 a chyflwynodd y Cyngor Ysgol ymateb ar-lein yn amlinellu eu barn. Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori bwrpasol gyda Chyngor Ysgol Hafodwenog ar 26 Chwefror 2026.

4. DADANSODDI'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar 16 Ionawr 2026 a daeth i ben ar 2 Mawrth 2026.

Cafwyd cyfanswm o 260 o ymatebion mewn ymateb i'r cyfnod ymgynghori; roedd 247 o'r ymatebion yn mynegi pryderon am y cynnig ac 13 o'r ymatebion yn ei gefnogi.

Mae'r tabl isod yn nodi'r pryderon a ddaeth i law.

Y pryderon a ddaeth i law			
Arolwg ar-lein	E-bost	Llythyr	**Cyfanswm**
158	87	2	**247**

Mae'r tabl isod yn nodi'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law.

Y Sylwadau Cefnogol a ddaeth i law			
Arolwg ar-lein	E-bost	Llythyr	**Cyfanswm**
13			**13**

Yn ogystal â'r uchod, rhoddodd Estyn ymateb i'r ymgynghoriad a chasglwyd adborth gan ddisgyblion yr ysgol yr effeithir arni a'r ysgolion a gynigir.

5. Y SYLWADAU A DDAETH I LAW

Mae'r adroddiad ymgynghori yn crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law a oedd yn mynegi pryderon am y cynnig neu'n ei gefnogi, ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r sylwadau hyn.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, mynegodd 247 o ymatebion (94.9%) bryderon am y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim. Roedd y pryderon yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion manwl a chysylltiedig. Mae pob thema sy'n cael ei chrynhoi isod yn adlewyrchu nifer yr ymatebion penodol oedd yn sôn am y mater. Gall un ymateb gyfeirio at fwy nag un thema ac, felly, nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100%.

Er cyflawnder, mae'r ymatebion hyn wedi eu cynnwys hefyd yn yr adroddiad hwn a dyma themâu'r pryderon neu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law:

Pryderon

- **Thema 1 – Yr effaith ar gydlyniant cymunedol a chynaliadwyedd y pentref**
- **Thema 2 – Y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg**
- **Thema 3 – Llesiant, diogelwch emosiynol a sefydlogrwydd plant**
- **Thema 4 – Y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

- **Thema 5** – **Cludiant, teithio, hygyrchedd a'r effaith amgylcheddol**
- **Thema 6** – **Ansawdd addysgol ysgolion gwledig bach**
- **Thema 7** – **Y broses ymgynghori a phryderon gweithdrefnol**
- **Thema 8** – **Yr achos ariannol a gwerth am arian**
- **Thema 9** – **Opsiynau eraill yn lle cau'r ysgol**

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cefnogodd 13 o ymatebion (5.1%) y cynnig. Nododd yr ymatebion hyn nifer o themâu cyson o blaid cau'r ysgol.

Sylwadau Cefnogol

- **Thema 1 – Effeithlonrwydd ariannol a chynaliadwyedd**
- **Thema 2** – **Pwrpas ysgolion fel sefydliadau addysgol**
- **Thema 3** – **Ansawdd addysgol, ehangder y cwricwlwm, a phrofiad y disgyblion**
- **Thema 4** – **Capasiti arweinyddiaeth ac effeithiolrwydd llywodraethu**
- **Thema 5** – **Dewis y rhieni, nifer y plant o'r gymuned sy'n derbyn lleoedd a hyfywedd**

6. CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL

Mae'r tabl canlynol yn nodi themâu'r pryderon a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, i'r themâu hynny. Mae'r cyfrif ar gyfer pob thema yn adlewyrchu nifer yr ymatebion unigol sy'n sôn amdani:

Y Pryderon a Fynegwyd			
Rhif y Pwynt	**Y Pwynt a Godwyd**	**Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn**	**% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn**
1.	**Yr effaith ar gydlyniant cymunedol a chynaliadwyedd y pentref**	**221**	**85%**

Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn tynnu sylw'n gyson at rôl ganolog Ysgol Gynradd Meidrim wrth gynnal bywyd cymdeithasol a diwylliannol y pentref, a hynny ar draws y cenedlaethau. Disgrifiwyd yr ysgol dro ar ôl tro fel calon neu ganolbwynt y gymuned, gan adlewyrchu ei phwysigrwydd y tu hwnt i'w swyddogaeth addysgol statudol. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod yr ysgol yn ganolbwynt ar gyfer rhyngweithio dyddiol, profiadau a rennir a hunaniaeth gymunedol, gan ddod â phlant, rhieni, trigolion hŷn a sefydliadau lleol ynghyd.

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at rôl yr ysgol wrth hwyluso ymgysylltu â'r digwyddiadau cymunedol, gweithgareddau lleol a phartneriaethau â sefydliadau'r pentref. Drwy'r rhain, ystyriwyd bod Ysgol Gynradd Meidrim yn meithrin cysylltiadau cryf rhwng y cenedlaethau ac yn cefnogi cydlyniant cymdeithasol, yn enwedig mewn ardal wledig lle gall cyfleoedd i gysylltu fod yn brin fel arall. Roedd presenoldeb yr ysgol yn cael ei ystyried yn rhan annatod o gynnal ymdeimlad o berthyn a pharhad yn y pentref.

Roedd y pryder a fynegwyd amlaf am y cynnig yn ymwneud â hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor Meidrim fel cymuned wledig pe bai'r ysgol yn cau. Mynegodd ymatebwyr bryder y byddai colli'r ysgol yn gwanhau rhwydweithiau cymdeithasol, yn lleihau cyfleoedd ar gyfer cyswllt anffurfiol rhwng trigolion, ac yn lleihau bywyd cymunedol yn gyffredinol. Mynegwyd pryder am yr effaith bosibl ar

drigolion hŷn, ac roedd llawer yn ofni y byddai mwy o unigedd, yn enwedig i'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig neu fynediad cyfyngedig at drafnidiaeth.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at ganlyniadau demograffig tebygol cau'r ysgol. Barn gyffredin oedd y byddai diffyg ysgol leol yn gwneud y pentref yn llai deniadol i deuluoedd ifanc, gan arwain at niferoedd llai ar y gofrestr, llai o deuluoedd yn ymgartrefu yno a chynnydd mewn poblogaeth sy'n heneiddio. Ystyriwyd y byddai hyn, yn ei dro, yn ychwanegu at heriau ynghylch cynaliadwyedd cymunedol, cyfranogiad lleol a hyfywedd gwasanaethau a gweithgareddau eraill yn y pentref.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn ystyried Ysgol Gynradd Meidrim yn llawer mwy na sefydliad addysgol. Y canfyddiad gan lawer oedd ei bod yn rhan sylfaenol o'r pentref o ran hunaniaeth, rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant rhwng y cenedlaethau, a chredwyd y byddai ei chau yn peri risgiau sylweddol i wead cymdeithasol a chynaliadwyedd cymuned Meidrim yn y dyfodol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y rôl bwysig y gall ysgolion ei chwarae fel asedau cymunedol, yn enwedig o fewn pentrefi gwledig, ac yn cydnabod y teimladau cryf a fynegwyd ynghylch cyfraniad Ysgol Gynradd Meidrim at gydlyniant cymunedol. Gall ysgolion weithredu fel angorau cymunedol, gan gefnogi rhyngweithio cymdeithasol, hunaniaeth leol ac ymgysylltu rhwng y cenedlaethau. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r effaith bosibl ar y gymuned, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, wedi bod yn rhan ganolog ac annatod o'r ffordd y mae'r Awdurdod wedi ystyried y cynnig hwn. Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal a bydd yn cael ei ddiweddaru, lle bo angen, i adlewyrchu adborth i'r ymgynghoriad.

Mae gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gyfrifoldeb cyfreithiol am reoli'r defnydd o safle'r ysgol yn ystod oriau ysgol a'r tu allan iddynt. O dan Reoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008 a'r diwygiadau dilynol, rhaid i gyrff llywodraethu roi sylw i ba mor ddymunol fyddai trefnu bod y safle ar gael at ddefnydd cymunedol. O ganlyniad, mae llawer o ysgolion yn cefnogi eu cymunedau drwy gynnal gweithgareddau fel gofal plant, dysgu oedolion, darpariaeth ieuenctid a gwasanaethau'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, er bod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ystyried a hwyluso defnydd cymunedol rhesymol o safleoedd, nid oes unrhyw ofyniad statudol i ysgolion arwain, cynnal neu ategu datblygiad cymunedol ehangach. Mae'r ddyletswydd gyfreithiol yn ymwneud â galluogi mynediad yn hytrach na chyflawni datblygiad cymunedol ei hun.

Mae ysgolion hefyd yn ddarostyngedig i amrywiaeth eang o ddyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithredu Cwricwlwm i Gymru, cyfrifoldebau diogelu, monitro presenoldeb, cynhwysiant,

darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a threfniadau llywodraethu sy'n cydymffurfio â'r gofynion. Er bod y fframweithiau statudol hyn yn gosod rhwymedigaethau clir mewn perthynas â chyflwyno'r cwricwlwm, lles dysgwyr ac atebolrwydd sefydliadol, nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynnal neu arwain darpariaeth gymunedol ehangach.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon y gallai newidiadau i'r ddarpariaeth addysgol effeithio ar gydlyniant cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac yn cadarnhau bod y pryderon hyn wedi'u hystyried yn ofalus yng nghyd-destun ehangach ad-drefnu ysgolion gwledig. Fodd bynnag, ni ellir ystyried yr effaith ar y gymuned ar ei phen ei hun neu ei thrin fel yr unig sail dros benderfyniad. Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau addysg gynaliadwy o ansawdd uchel ar draws y sir ac felly mae'n rhaid iddo gymryd golwg gyfannol, gan ystyried ffactorau fel niferoedd disgyblion, nifer y lleoedd gwag, cynaliadwyedd arweinyddiaeth, safonau addysgol, hyfywedd ariannol a'r defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus. Er bod canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Ysgolion Bro yn annog cydweithio a'r potensial i ysgolion weithredu fel canolfannau cymunedol, nid yw'r canllawiau hyn yn statudol ac nid ydynt yn creu dyletswydd i gadw ysgol heb ystyried ansawdd addysgol, cynaliadwyedd neu werth am arian.

Mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Meidrim, mae'r ddogfennaeth ymgynghori a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn cydnabod cysylltiadau'r ysgol â sefydliadau lleol, gan gynnwys y Cylch Ti a Fi sy'n cyfarfod yn yr ysgol bob wythnos. Cydnabyddir y byddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar y trefniadau presennol hyn ac y byddai angen ystyried darpariaeth arall. Serch hynny, bydd cyfleusterau cymunedol eraill yn y pentref, fel yr Eglwys a'r Neuadd Ieuenctid, yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac ymgysylltu.

Lle bo'n bosibl ac yn unol â pholisi'r Cyngor, bydd yr Awdurdod yn ystyried opsiynau i liniaru'r effeithiau posibl ar y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys ystyried defnydd cymunedol yn y dyfodol neu roi pwrpas newydd i gyfleusterau, neu nodi trefniadau eraill i gefnogi gweithgareddau lleol. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu mewn modd adeiladol â rhanddeiliaid cymunedol i nodi sut y gellir parhau i ddiwallu anghenion cymunedol, wrth gydnabod na all defnydd cymunedol ar ei ben ei hun fod yn sail i'r penderfyniad terfynol ynghylch dyfodol yr ysgol.

Mae polisi cenedlaethol a lleol yn mynnu bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu mewn lleoliadau sy'n gynaliadwy, sy'n gallu cefnogi cynnydd ieithyddol cryf, ac sy'n cydymffurfio â Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir. Gall cyfuno'r ddarpariaeth gefnogi strwythurau staffio mwy gwydn, cyfleoedd ehangach o ran y cwricwlwm a chynyddu defnydd y Gymraeg ar draws ystod o gyd-destunau addysgol. Nid yw

gweithgarwch cymunedol a defnyddio'r Gymraeg yn dibynnu ar safle ysgol yn unig, a gall cyfleoedd i ymgysylltu barhau drwy grwpiau lleol, lleoliadau cymunedol, a gwaith partneriaeth.

Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu ac nad oes angen adeilad yr ysgol mwyach o ran gofynion addysgol yr Awdurdod Lleol, dull gweithredu cyffredinol y Cyngor yw ystyried yn gyntaf a oes angen y safle at unrhyw ddiben corfforaethol mewnol arall. Os na fydd unrhyw ofynion o'r fath yn cael eu nodi, mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn briodol ystyried y potensial i'r gymuned barhau i ddefnyddio'r adeilad. Gallai hyn gynnwys defnydd gan sefydliadau gwirfoddol neu elusennol neu fentrau cymdeithasol, yn amodol ar nodi angen lleol clir gyda thystiolaeth.

Byddai unrhyw ddefnydd o'r fath yn cael ei ystyried ar wahân i'r cynnig trefniadaeth ysgol ac yn unol â threfniadau rheoli asedau a llywodraethu sefydledig y Cyngor. Lle bo hynny'n briodol, byddai angen cynllun busnes i ddangos hyfywedd, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd hirdymor, gan gynnwys ei gyfraniad posibl at wydnwch cymdeithasol neu economaidd y gymuned wledig. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ar hyn o bryd ynglŷn â'r defnydd o'r safle yn y dyfodol.

At ei gilydd, er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad yr ysgol at fywyd cymunedol, rhaid iddo hefyd ystyried y fframwaith cynllunio addysgol ac ieithyddol ehangach wrth wneud penderfyniadau. Mae'r fframwaith hwn yn ceisio sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg hirdymor a chynaliadwy, darparu ansawdd addysgol cyson, a sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus, wrth barhau i gefnogi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ymgysylltu â'r gymuned y tu hwnt i safle'r ysgol. Ar y sail hon, mae'r Awdurdod o'r farn bod y cynnig yn ymateb cytbwys a chymesur, sy'n adlewyrchu ystyriaethau cymunedol a'i gyfrifoldebau statudol i ddysgwyr presennol a dysgwyr yn y dyfodol.

2.	**Y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg**	**177**	**68.1%**

Tynnodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr sylw at rôl Ysgol Gynradd Meidrim fel ysgol gwbl Gymraeg gan fynegi pryder cryf am effaith bosibl cau'r ysgol ar ddefnyddio a throsglwyddo'r Gymraeg. Ystyriwyd gan lawer bod yr ysgol yn darparu amgylchedd trochi ieithyddol sy'n cefnogi nid yn unig dysgu ffurfiol drwy'r cwricwlwm, ond hefyd y defnydd anffurfiol a chymdeithasol o'r Gymraeg sy'n digwydd yn naturiol wrth i ddisgyblion, staff a theuluoedd ryngweithio â'i gilydd o ddydd i ddydd. Pwysleisiodd yr ymatebwyr dro ar ôl tro fod y trochi hwn yn nodwedd ddiffiniol o'r ysgol ac yn ganolog i'w chyfraniad at fywyd ieithyddol y gymuned.

Nododd llawer o ymatebwyr fod Ysgol Gynradd Meidrim yn gweithredu mewn ardal Gymraeg ei hiaith neu ddwyieithog yn bennaf ac yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar rôl yr ysgol wrth gefnogi plant o aelwydydd di-Gymraeg a'r farn oedd bod trochi dyddiol yn hanfodol i feithrin hyder, rhuglder a defnydd iaith naturiol. Mynegodd yr ymatebwyr bryder y gallai colli amgylchedd cwbl Gymraeg wedi'i sefydlu'n lleol effeithio'n anghymesur ar y dysgwyr hyn a lleihau'r cyfleoedd i'r Gymraeg gael ei defnyddio'n gyson y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch effaith bosibl trosglwyddo i leoliadau dwy ffrwd neu ddwyieithog. Mynegodd rhai ymatebwyr y farn efallai na fydd lleoliadau o'r fath yn darparu'r un dyfnder o ran trochi ieithyddol neu ethos Cymraeg yn gyntaf ag ysgol gwbl Gymraeg. Teimlwyd y gallai darpariaeth Saesneg gyfochrog arwain at leihau defnydd y Gymraeg, yn enwedig mewn cyd-destunau cymdeithasol ac anffurfiol, a lleihau cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol gyda chyfoedion.

Yn ogystal, tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd Ysgol Gynradd Meidrim wrth gefnogi'r gwaith o drosglwyddo'r Gymraeg o genhedlaeth i genhedlaeth. Credwyd bod yr ysgol yn cyfrannu at barhad iaith drwy atgyfnerthu defnydd y Gymraeg ymhlith plant, annog defnydd o fewn teuluoedd, a chefnogi arferion iaith cymunedol ehangach. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryder y gallai cau'r ysgol wanhau'r cysylltiadau hyn rhwng cenedlaethau a thanseilio ymdrechion i gadw'r Gymraeg fel iaith bob dydd yn y pentref.

Mewn ymatebion yn ymwneud â'r ddarpariaeth Gymraeg, nododd rhai rhieni y gellid ystyried addysg ddewisol yn y cartref pe bai cau'r ysgol yn cyfyngu'n sylweddol ar fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o fewn pellter teithio rhesymol. Mynegodd ymatebwyr bryderon efallai na fydd ysgolion eraill sydd ar gael fod yn hygyrch yn realistig oherwydd pellter, cludiant neu gapasiti, ac y gallai hynny danseilio eu hymrwymiad i addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Yn y cyswllt hwn, cyflwynwyd addysg yn y cartref fel ffordd o warchod defnydd y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol lle roedd teuluoedd yn teimlo nad oedd modd cael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg addas yn lleol mwyach.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod Ysgol Gynradd Meidrim yn gwneud cyfraniad sylweddol at gynaliadwyedd y Gymraeg sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg statudol. Y farn oedd bod yr ysgol nid yn unig yn fan dysgu ond yn fecanwaith allweddol ar gyfer sefydlu'r Gymraeg o fewn gwead cymdeithasol y gymuned, gan gefnogi hyder ieithyddol a pharhad diwylliannol. Felly, ystyriwyd bod

y posibilrwydd o golli'r amgylchedd hwn yn peri risgiau i fywiogrwydd defnydd y Gymraeg yn lleol, yn enwedig mewn cyd-destunau anffurfiol a chymdeithasol a rhwng cenedlaethau.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y teimladau cryf a fynegwyd gan ymatebwyr ynglŷn â rôl Ysgol Gynradd Meidrim fel ysgol gwbl Gymraeg a phwysigrwydd ei chyfraniad at ddefnydd y Gymraeg yn yr ysgol ac yng nghymuned ehangach y pentref. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod yr ysgol, i lawer o deuluoedd, yn cael ei phrofi nid yn unig fel man addysg ffurfiol ond hefyd fel lle cymdeithasol a diwylliannol pwysig lle defnyddir y Gymraeg yn naturiol, yn hyderus ac ar draws cenedlaethau.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod yn llawn y gall amgylchedd cwbl Gymraeg ddarparu manteision ieithyddol sylweddol, yn enwedig wrth gefnogi disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg i ddatblygu rhuglder, hyder a defnydd iaith bob dydd drwy drochi parhaus. Felly, mae'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl y newid ar ddefnydd iaith anffurfiol, rhyngweithio cymdeithasol a throsglwyddo'r iaith o genhedlaeth i genhedlaeth yn cael eu deall ac wedi'u hystyried yn ofalus wrth ddatblygu'r cynnig.

Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i ymrwymo'n ddigamsyniol i hyrwyddo, diogelu a datblygu'r Gymraeg, yn unol â'i ddyletswyddau statudol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a fframweithiau polisi cenedlaethol gan gynnwys Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022–2032. Mae sicrhau bod dysgwyr yn gallu caffael, datblygu a defnyddio'r Gymraeg yn fwyfwy hyderus yn parhau i fod yn ystyriaeth ganolog ym mhob agwedd ar gynllunio a gwneud penderfyniadau ym maes addysg.

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, y byddai disgyblion o Ysgol Gynradd Meidrim yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg drwy ysgolion eraill a nodwyd. Mae'r ysgolion hyn yn ddarparwyr cyfrwng Cymraeg dynodedig neu mae ganddynt ffrwd Gymraeg ddynodedig, ac mae'n ofynnol iddynt ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â chategorïau iaith ysgolion, gofynion Cwricwlwm i Gymru a chynllunio strategol lleol. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr ysgolion hyn yn darparu addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel wrth gefnogi cynnydd ieithyddol parhaus disgyblion. Dyhead yr Awdurdod Lleol yw bod pob ysgol yn symud ymlaen ar hyd continwwm y Gymraeg yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai rhai disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgol gwbl Gymraeg sydd wedi'i sefydlu yn eu cymuned leol wynebu heriau ieithyddol, cymdeithasol ac emosiynol wrth

drosglwyddo. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r broses cynllunio trosglwyddo felly yn rhoi pwyslais penodol ar barhad ieithyddol, gan gynnwys cadw'r Gymraeg fel cyfrwng arferol addysgu, dysgu a rhyngweithio cymdeithasol. Bydd yr Awdurdod yn cydweithio â'r ysgolion derbyn i sicrhau bod trefniadau cymorth priodol ar waith, yn enwedig ar gyfer dysgwyr o aelwydydd di-Gymraeg, i gynnal hyder a defnydd bob dydd o'r Gymraeg yn ystod ac ar ôl trosglwyddo. Mae dewis y rhieni yn hawl statudol, ac mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gyda theuluoedd i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn unol â gofynion statudol, mae'r Awdurdod wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o broses y cynnig. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried effeithiau addysgol ac effeithiau ehangach ar y gymuned o ran y Gymraeg, gan gynnwys effeithiau posibl ar ddefnydd cymdeithasol a throsglwyddo iaith. Lle nodwyd risgiau posibl i ddefnydd y Gymraeg, mae mesurau lliniaru cymesur wedi'u cynnwys yn y broses gynllunio, gan gynnwys cymorth trosglwyddo cryfach, ymgysylltu parhaus â theuluoedd, a hyrwyddo ethos a diwylliant Cymraeg yn barhaus yn yr ysgolion derbyn.

Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y cyfraniad cadarnhaol a wneir gan Ysgol Gynradd Meidrim at ddefnydd dyddiol y Gymraeg yn y pentref, rhaid iddo hefyd ystyried cynaliadwyedd hirdymor addysg cyfrwng Cymraeg ar draws yr ardal ehangach. Mae fframweithiau polisi cenedlaethol a lleol yn rhoi pwyslais cynyddol ar sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn wydn, o ansawdd uchel ac yn gynaliadwy dros amser. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod yn ceisio sicrhau'r cynaliadwyedd hwn drwy rwydwaith o ysgolion Cymraeg cryf yn hytrach na dibynnu ar un safle, wrth gynnal hygyrchedd a pharhad y ddarpariaeth.

Mae tystiolaeth gan Estyn ac adolygiadau thematig cenedlaethol yn dangos yn gyson bod deilliannau cryf o ran y Gymraeg yn fwyaf cysylltiedig ag addysgu o ansawdd uchel, ethos Cymraeg clir, arweinyddiaeth gref, a chynllunio effeithiol ar gyfer trochi a chynnydd ieithyddol. Gellir sicrhau'r ffactorau hyn ar draws gwahanol safleoedd ysgol lle mae bwriad strategol clir a gweithrediad cadarn. O dan Gwricwlwm i Gymru, mae'r cyfrifoldeb am ddatblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr wedi'i sefydlu ar draws addysgu, diwylliant ysgol ac ymgysylltu â'r gymuned, gan gefnogi defnydd iaith trosglwyddadwy a chynaliadwy nad yw'n dibynnu ar un lleoliad ffisegol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a bydd yn parhau i gydweithio ag ysgolion, teuluoedd a phartneriaid i annog cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau, gan gynnwys drwy weithgareddau allgyrsiol, sefydliadau cymunedol a gwaith partneriaeth. Bydd ymgysylltu â theuluoedd yn parhau i fod yn elfen allweddol o'r dull hwn.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynglŷn â mynediad parhaus at addysg cyfrwng Cymraeg ac awydd teuluoedd i gadw darpariaeth Gymraeg i'w plant. Mae sicrhau cynaliadwyedd ac ansawdd addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth allweddol, ac mae'r Awdurdod wedi asesu argaeledd, hygyrchedd a chapasiti ysgolion Cymraeg eraill fel rhan o'r broses ystyried. Er bod rhai ymatebwyr wedi mynegi pryder y gallai llai o fynediad lleol beri i deuluoedd ystyried addysg ddewisol yn y cartref, mae'r Awdurdod yn fodlon bod darpariaeth Gymraeg o ansawdd uchel yn parhau i fod ar gael yn yr ardal a bod lleoliadau eraill yn gallu cefnogi disgyblion i barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddiogelu a chryfhau addysg cyfrwng Cymraeg a defnydd y Gymraeg. Er bod newidiadau i'r ddarpariaeth yn cael eu hystyried, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn hygyrch, bod trefniadau trosglwyddo yn gadarn ac yn canolbwyntio ar y dysgwyr, a bod yr effeithiau posibl ar ddefnydd y Gymraeg yn cael eu monitro a'u rheoli'n ofalus yn unol â dyletswyddau statudol, disgwyliadau polisi cenedlaethol a'r nod hirdymor o sicrhau bod y Gymraeg yn iaith sy'n fywiog ac yn ffynnu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

3.	**Llesiant, diogelwch emosiynol a sefydlogrwydd plant**	**159**	**61.2%**

Mynegodd nifer sylweddol o ymatebwyr bryder am yr effaith emosiynol a seicolegol ac o ran llesiant y gallai cau'r ysgol ei chael ar ddisgyblion. Thema gyson ar draws yr ymatebion oedd pryder sy'n gysylltiedig â tharfu a newid, yn enwedig y posibilrwydd o adael amgylchedd cyfarwydd lle mae plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith bod ansicrwydd ynghylch cau'r ysgol a symud i ysgol arall yn achosi gofid i lawer o ddisgyblion ac y gallai danseilio eu llesiant emosiynol.

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd perthnasoedd cyfarwydd â staff a chyfoedion, gan nodi bod y rhain yn ganolog i ymdeimlad y disgyblion o berthyn, o ddiogelwch ac o ymddiriedaeth. Mynegwyd pryderon y gallai colli oedolion y maent yn ymddiried ynddynt a ffrindiau sefydledig fod yn annifyr i blant ac y gallai gael effaith negyddol ar eu hyder, eu sefydlogrwydd emosiynol a'u parodrwydd i ddysgu. Nododd sawl ymateb fod rhieni wedi sylwi ar bryder a gofid emosiynol plant, yn ogystal â chyfeirio at ofnau, ymddygiadau neu bryderon a fynegwyd gan y plant eu hunain.

Nodwyd bod addasu i amgylchedd ysgol fwy hefyd yn bryder allweddol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y gallai lleoliadau mwy deimlo'n ormod i rai disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n cael budd o

amgylchedd llai, mwy meithringar lle mae anghenion unigol yn cael eu hadnabod yn dda. Roedd y pryderon yn canolbwyntio ar bwysau cymdeithasol, delio â mannau ac arferion anghyfarwydd, a'r posibilrwydd o golli cymuned ysgol glos.

Rhoddwyd pwyslais ar ddisgyblion iau a'r rhai sydd wedi cyrraedd cyfnodau pontio allweddol, gan gredu bod y rhain yn arbennig o agored i darfu. Nododd yr ymatebwyr y gallai disgyblion sy'n agosáu at gyfnodau pontio eisoes fod yn wynebu ansicrwydd, ac y gallai newid ychwanegol gynyddu pryder, effeithio ar wydnwch emosiynol ac amharu ar eu hymdeimlad o sefydlogrwydd. I'r disgyblion hyn, roedd parhad, rhagweladwyedd a chymorth emosiynol yn cael eu hystyried yn hanfodol.

Roedd sawl ymateb yn adlewyrchu barn y plant eu hunain, gan dynnu sylw at ofnau ynghylch diogelwch, cael eu derbyn, a cholli ymdeimlad o berthyn. Mae'r cyfraniadau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd ysgolion nid yn unig fel lleoedd dysgu, ond hefyd fel amgylchedd sy'n darparu diogelwch emosiynol, cysondeb a pherthnasoedd dibynadwy.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai cau Ysgol Gynradd Meidrim gael effaith negyddol ar lesiant a diogelwch emosiynol plant a'u hymdeimlad o sefydlogrwydd, i'r graddau y gellid ystyried addysg ddewisol yn y cartref. Dywedodd rhieni nad oedd addysg yn y cartref yn opsiwn a ffefrir, ond yn opsiwn posibl ar ôl i bopeth arall fethu pe bai angen i'w plant symud i amgylchedd ysgol mwy neu bellach i ffwrdd. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar bryder, bregusrwydd emosiynol ac effaith tarfu ar blant ifanc a thynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd perthnasoedd cyfarwydd, arferion a lleoliad meithringar. Mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu ofnau y gallai colli amgylchedd ysgol bach a chefnogol arwain at ofid neu ymddieithrio rhag addysg i rai dysgwyr.

Yn gyffredinol, pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylid ystyried anghenion emosiynol a llesiant y disgyblion wrth ystyried cau'r ysgol, yn enwedig y rhai a allai gael trafferth ymdopi â newid. Mae'r pryderon a fynegwyd yn dangos cred gref bod cynnal sefydlogrwydd, meithrin ymdeimlad o berthyn a diogelu llesiant emosiynol plant yn ystyriaethau hanfodol ochr yn ochr â ffactorau addysgol a threfniadaethol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch llesiant plant ac yn cydnabod bod sefydlogrwydd, cynefindra a pharhad gofal yn sylfaenol i brofiadau addysgol cadarnhaol. Mae cefnogi llesiant dysgwyr yn flaenoriaeth ganolog i'r Awdurdod ac mae wedi'i sefydlu yn egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, sy'n rhoi pwyslais cryf ar iechyd emosiynol, hyder a gwydnwch. Mae'r ystyriaethau hyn wedi llywio ymagwedd yr Awdurdod drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynnig hwn.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall cyfnodau o ansicrwydd a newid fod yn heriol i blant ac y gall prosesau trosglwyddo, os nad ydynt yn cael eu rheoli'n ofalus, gyfrannu at bryder neu ofid emosiynol. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai cynllun trosglwyddo cynhwysfawr a strwythuredig sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn rhan greiddiol o'r broses weithredu, gyda'r nod o leihau tarfu a chefnogi anghenion emosiynol a bugeiliol y disgyblion.

Bydd gwaith cynllunio trosglwyddo yn cael ei wneud mewn partneriaeth agos â'r ysgolion derbyn, rhieni a gofalwyr a, lle bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill. Bydd trefniadau yn blaenoriaethu parhad gofal ac yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion a theuluoedd ddod yn gyfarwydd â'r lleoliad newydd, megis ymweliadau â'r ysgol, cyfleoedd i gwrdd â staff a chyfathrebu clir ac amserol drwy gydol y cyfnod trosglwyddo. Lle bo hynny'n briodol, gellid ystyried dulliau trosglwyddo graddol neu fesul cam i helpu disgyblion i ymgartrefu'n hyderus ac yn ddiogel.

Byddai pob disgybl yn cael ei gefnogi drwy ddull trosglwyddo unigol. Byddai hyn yn cynnwys defnyddio Proffil Un Dudalen sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn ac ar gyfer y plentyn a'r ffordd orau o'i gefnogi. Byddai gwybodaeth berthnasol yn ymwneud â dysgu, cryfderau, anghenion a llesiant disgyblion yn cael ei rhannu gyda staff yr ysgol dderbyn i sicrhau bod y cymorth yn parhau. Byddai meithrin perthnasoedd cadarnhaol, llawn ymddiriedaeth rhwng disgyblion a staff yn ffocws allweddol drwy gydol y broses drosglwyddo, gan helpu i feithrin ymdeimlad o ddiogelwch, o berthyn ac o ddiogelwch emosiynol.

Byddai sylw arbennig yn cael ei roi i ddisgyblion sydd o bosib yn ei chael hi’n fwy anodd ymdopi â newid, gan gynnwys dysgwyr iau a'r rhai sydd angen cymorth emosiynol neu fugeiliol ychwanegol. Lle bo angen, byddai cymorth ychwanegol neu gymorth wedi'i deilwra yn cael ei roi ar waith, ochr yn ochr â gwaith monitro parhaus i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda a bod unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi a'u datrys yn brydlon.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai ymatebwyr ynghylch effaith bosibl y newid a gynigir ar lesiant, diogelwch emosiynol a sefydlogrwydd plant. Mae pwysigrwydd lleihau tarfu, cefnogi gwydnwch emosiynol a sicrhau parhad addysg i ddysgwyr agored i niwed wedi cael ei ystyried yn ofalus drwy gydol y broses. Wrth asesu'r cynigion, mae'r Awdurdod wedi ystyried y gofyniad statudol i flaenoriaethu llesiant dysgwyr ac wedi gwerthuso gallu ysgolion eraill i ddarparu cymorth bugeiliol priodol, cynllunio trosglwyddo ac amgylchedd dysgu meithringar. Wrth roi newid ar waith, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio gydag ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau partner i gefnogi disgyblion drwy drefniadau trosglwyddo wedi'u cynllunio'n dda sy'n ceisio lleihau pryder a hyrwyddo ymgysylltu'n gadarnhaol â dysgu.

I gloi, mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau ei ymrwymiad cryf i lesiant disgyblion ac i sicrhau, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bod plant yn cael eu cefnogi cyn, yn ystod ac ar ôl unrhyw gyfnod trosglwyddo. Drwy gynllunio'n ofalus, gwaith partneriaeth a ffocws clir ar ofal bugeiliol, nod yr Awdurdod yw diogelu llesiant disgyblion a sicrhau eu bod yn parhau i deimlo'n hyderus, yn ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu hamgylchedd addysgol.

4.	**Y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**	**140**	**53.8%**

Tynnodd nifer sylweddol o wrthwynebwyr sylw at y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'i phersonoli sydd ar waith ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Meidrim, gan fynegi pryder am effaith bosibl cau'r ysgol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed. Rhoddodd yr ymatebwyr enghreifftiau penodol o gymorth wedi'i deilwra ar gyfer dysgwyr byddar, disgyblion niwrowahanol, a disgyblion ag anghenion meddygol cymhleth neu barhaus, gan bwysleisio bod y ddarpariaeth hon yn cyd-fynd yn agos ag amgylchiadau ac anghenion unigol.

Roedd pryder allweddol a fynegwyd ar draws yr ymatebion yn ymwneud â pharhad Cynlluniau Datblygu Unigol. Mynegodd ymatebwyr bryder y gallai tarfu effeithio ar gysondeb ac effeithiolrwydd y cymorth, yn enwedig lle mae Cynlluniau Datblygu Unigol yn dibynnu ar wybodaeth fanwl am y plentyn, arferion sefydledig, a pherthnasoedd hirsefydlog rhwng disgyblion, staff a theuluoedd. Roedd pryderon y gallai newid lleoliad achosi oedi o ran adolygiadau, effeithio ar weithredu, neu arwain at golli dealltwriaeth gynnil o anghenion unigol.

Roedd llawer o'r ymatebion hefyd yn canolbwyntio ar addasrwydd yr amgylcheddau dysgu, gan nodi bod nodweddion ffisegol a synhwyraidd Ysgol Gynradd Meidrim yn cael eu hystyried yn addas i ddisgyblion ag anghenion penodol. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar ystyriaethau acwstig ar gyfer dysgwyr byddar, yn ogystal â phwysigrwydd amgylcheddau rhagweladwy, ysgogiad isel i ddisgyblion niwrowahanol. Cwestiynodd gwrthwynebwyr a allai lleoliadau ysgol mwy efelychu hyn yn realistig neu ddarparu'r un lefel o addasiad amgylcheddol.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw ymhellach at y canfyddiad bod darpariaeth ADY yn Ysgol Gynradd Meidrim yn seiliedig i raddau helaeth ar berthynas, ac yn seiliedig ar gysondeb o ran staffio, cynefindra ac ymddiriedaeth. Mynegwyd pryderon y gallai ysgolion mwy wynebu heriau wrth gynnal yr un lefel o barhad staffio neu sylw unigol, gan effeithio o bosib ar ddisgyblion sy'n dibynnu'n helaeth ar berthnasoedd sefydlog ar gyfer rheoleiddio emosiynol, cyfathrebu ac ymgysylltu â dysgu.

Mynegwyd pryderon am addysg ddewisol yn y cartref hefyd mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd rhai rhieni plant ag ADY, gan gynnwys anghenion cymdeithasol, emosiynol neu gysylltiedig â gorbryder, yn poeni efallai na fyddai lleoliadau eraill yn gallu darparu'r un lefel o gymorth a dealltwriaeth unigol ag Ysgol Gynradd Meidrim. Nododd yr ymatebwyr fod ethos meithringar yr ysgol, a'r ffaith ei bod yn fach ac yn gyfarwydd ag anghenion eu plentyn yn ffactorau hanfodol o ran gallu eu plant i ymgysylltu ag addysg. Yn y cyswllt hwn, nododd rhieni, os na ellid sicrhau cymorth priodol mewn lleoliad arall, y gellid ystyried addysg ddewisol yn y cartref i ddiogelu llesiant eu plentyn ac atal ymddieithrio pellach.

Yn gyffredinol, mynegodd gwrthwynebwyr bryder ynghylch a ellid sicrhau darpariaeth ADY gyfatebol yn ymarferol mewn lleoliadau mwy, hyd yn oed pan nad yw'r dyletswyddau statudol wedi newid. Roedd y pryderon hyn yn adlewyrchu barn ehangach nad yw effeithiolrwydd cymorth ADY yn dibynnu ar ddogfennaeth neu brosesau ffurfiol yn unig, ond hefyd ar yr amgylchedd, perthnasoedd, a dealltwriaeth ddofn o ddysgwyr unigol. O ganlyniad, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i theilwra'n unigryw ac roeddent yn bryderus am y risgiau posibl i barhad, ansawdd a deilliannau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yn llawn ei ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r cyfrifoldebau cyfreithiol hyn yn berthnasol waeth beth yw unrhyw gynigion trefniadaeth ysgolion ac ni fyddent yn cael eu lleihau na'u newid o ganlyniad i'r cynnig. Felly, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn gyfreithiol gyfrifol am sicrhau Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) briodol ar gyfer yr holl ddysgwyr y nodwyd bod ganddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, mae'r Awdurdod yn cadarnhau y byddai disgyblion ag ADY yn parhau i dderbyn y ddarpariaeth a nodir yn eu Cynlluniau Datblygu Unigol yn ddi-dor. Byddai Cynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu hadolygu cyn unrhyw broses drosglwyddo i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn briodol, yn effeithiol ac yn ymatebol i anghenion pob dysgwr. Ni fyddai'r hawl yn llai, a byddai'r holl brosesau ac amserlenni statudol yn parhau i gael eu bodloni'n llawn.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd parhad, cysondeb ac amgylcheddau dysgu wedi'u haddasu'n briodol i ddisgyblion ag ADY. Felly byddai gwaith cynllunio trosglwyddo yn cael ei wneud

drwy gydweithrediad agos rhwng yr ysgolion derbyn, gwasanaeth ADY yr Awdurdod, timau cymorth arbenigol, rhieni a gofalwyr, a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol lle bo hynny'n briodol. Byddai'r dull cydgysylltiedig hwn yn sicrhau bod trefniadau staffio, amgylcheddau dysgu a strategaethau cymorth ar waith yn llawn o'r adeg drosglwyddo. Byddai'r ysgolion derbyn yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion disgyblion a'r ddarpariaeth a nodir yn eu Cynlluniau Datblygu Unigol, gan sicrhau addasiadau rhesymol ymlaen llaw a gwaith monitro parhaus ar ôl trosglwyddo.

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru yn nodi egwyddorion clir ym Mhennod 3, gan gadarnhau bod gan bob dysgwr hawl i fynediad teg at gymorth priodol, addysgu o ansawdd uchel a darpariaeth gynhwysol, waeth beth fo math neu faint yr ysgol y mae'n ei mynychu. Mae Pennod 15 yn cadarnhau ymhellach fod yn rhaid rhoi trefniadau cadarn ar gyfer nodi anghenion, cynllunio darpariaeth a chefnogi dysgwyr ar waith yn gyson ar draws pob ysgol a gynhelir.

Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y gellid diwallu anghenion unrhyw ddisgybl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn briodol yn yr ysgolion derbyn a gynigir, neu mewn ysgolion cyfagos eraill, drwy fframweithiau ADY sefydledig, addasiadau rhesymol a mynediad at wasanaethau cymorth priodol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y gall anghenion dysgu ychwanegol fod yn rhai dros dro, yn rhai sy'n dod i'r amlwg neu'n rhai heb ddiagnosis, a bod gwybodaeth rhieni a barn broffesiynol yn ystyriaethau pwysig ochr yn ochr â data ffurfiol. Pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu, a phan fo teuluoedd yn dymuno edrych ar sut y gellid rheoli proses drosglwyddo â chymorth i ysgol arall, byddai'r Awdurdod yn hwyluso trafodaeth a chynllunio unigol drwy fecanweithiau cymorth priodol. Felly, mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai rhai disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd elwa ar agweddau ar amgylchedd ysgol llai, megis mannau dysgu tawelach, staffio cyson a chymorth personol iawn, ac mae'n cydnabod y gallai proses drosglwyddo i leoliad gwahanol fod yn heriol os na chaiff ei chynllunio a'i chefnogi'n ofalus.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn a gynigir systemau sefydledig ac effeithiol ar waith i gefnogi dysgwyr ag ADY, fel y dangoswyd drwy ganfyddiadau arolygiadau diweddar Estyn. Cafodd Ysgol Griffith Jones ei harolygu ddiwethaf ym mis Mawrth 2020 a nododd Estyn fod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwriadus, wedi'i chefnogi drwy gynlluniau unigol effeithiol a chydweithrediad cryf ag asiantaethau allanol, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd. Cafodd Ysgol Hafodwenog ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2019 a chanfu Estyn fod gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol addas â thargedau clir, a gefnogir gan waith effeithiol gydag asiantaethau arbenigol a gofal bugeiliol cynhwysfawr.

Yn ehangach, cydnabyddir mai addysgu o ansawdd uchel yw'r ffactor pwysicaf wrth wella deilliannau i ddysgwyr ag ADY. Mae gwaith thematig Estyn yn pwysleisio'n gyson bod darpariaeth ADY effeithiol yn seiliedig ar addysgu cynhwysol, wedi'i gynllunio'n dda, sy'n ymateb i anghenion unigol ac yn cael ei gefnogi gan systemau ysgol gyfan cadarn. Pan fo arweinyddiaeth ac ymarfer addysgu yn cyd-fynd yn dda, gall dysgwyr ag ADY wneud cynnydd priodol waeth beth yw maint yr ysgol.

Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan benderfyniad Tribiwnlys Addysg Cymru dyddiedig 1 Ebrill 2021, a gadarnhaodd nad yw maint dosbarth ar ei ben ei hun yn pennu ansawdd yr addysgu, y dysgu na'r ddarpariaeth. Mae ymarfer cynhwysol yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei nodweddu gan addysgu a dysgu o ansawdd uchel, gan gynnwys gwahaniaethu effeithiol, ymyriadau wedi'u targedu a strategaethau priodol i alluogi dysgwyr i gael mynediad at y cwricwlwm a gwneud cynnydd. Y ffactorau allweddol wrth sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr ag ADY felly yw ansawdd y ddarpariaeth a'r cymorth, yn hytrach na maint ffisegol ysgol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod rhieni plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi mynegi pryderon penodol ynghylch parhad cymorth ac addasrwydd lleoliadau eraill. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac i sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn parhau i dderbyn cymorth priodol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gan ysgolion eraill fynediad at arbenigedd ADY, gwasanaethau arbenigol a chymorth gan yr awdurdod lleol i ddiwallu anghenion disgyblion, a byddai gwaith cynllunio trosglwyddo yn cynnwys rhannu gwybodaeth fanwl i gefnogi parhad. Er bod rhai ymatebwyr wedi nodi y gellid ystyried addysg ddewisol yn y cartref os na fydd pryderon ynghylch darpariaeth ADY yn cael sylw, mae'r Awdurdod yn hyderus y gellir rhoi trefniadau cymorth priodol ar waith i ddiwallu anghenion dysgwyr mewn lleoliadau a gynhelir.

At ei gilydd, mae'r Awdurdod Lleol yn ailddatgan ei ymrwymiad cadarn i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai gwaith cynllunio trosglwyddo cadarn, gwaith partneriaeth cryf a gwaith monitro effeithiol yn sicrhau parhad y ddarpariaeth ADY, amgylchedd dysgu priodol a chydymffurfiaeth lawn â gofynion cyfreithiol, gan ddiogelu anghenion a llesiant yr holl ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

5.	**Cludiant, teithio, hygyrchedd a'r effaith amgylcheddol**	**140**	**53.8%**

Mynegodd nifer sylweddol o wrthwynebwyr bryderon am effaith bosibl pellteroedd teithio ac amseroedd teithio hirach pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Mynegodd ymatebwyr bryder am y ffaith y byddai plant iau yn gorfod teithio pellteroedd hirach i'r ysgol, gan ddibynnu'n aml ar gludiant wedi'i drefnu yn hytrach na gallu cerdded neu ddefnyddio dulliau teithio llesol yn y gymuned leol. Roedd y pryderon hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas ag addasrwydd teithio estynedig i ddisgyblion oedran cynradd.

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at gynyddu'r ddibyniaeth ar gludiant ysgol, gan nodi y gallai teithiau hirach gael effaith gronnol ar lesiant disgyblion, yn enwedig i blant iau a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu ystyriaethau iechyd. Awgrymwyd y gallai amseroedd teithio estynedig gyfrannu at flinder, pryder a llai o barodrwydd i ddysgu, yn enwedig os bydd y teithiau'n digwydd yn gynnar neu'n hwyr yn y dydd.

Mynegwyd pryderon hefyd am ddiogelwch ffyrdd, mewn perthynas â mwy o symudiadau traffig a'r llwybrau y gallai fod angen i ddisgyblion deithio arnynt. Cwestiynodd ymatebwyr ddiogelwch y ffyrdd a ddefnyddir ar gyfer cludiant ysgol, yn enwedig yn ystod yr oriau prysur, gan fynegi pryder am dagfeydd, gweledegd, ac addasrwydd y seilwaith ar gyfer mwy o gerbydau. Hefyd, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at golli cyfleoedd teithio llesol, fel cerdded neu feicio i'r ysgol, a ystyriwyd yn fuddiol i iechyd corfforol, annibyniaeth a datblygiad cymdeithasol plant.

Roedd effaith mwy o deithio ar yr amgylchedd yn destun pryder arall. Nododd ymatebwyr y gallai teithiau hirach a mwy o ddibyniaeth ar drafnidiaeth fodur arwain at gynyddu allyriadau a bod yn llai cyson ag amcanion cynaliadwyedd a hinsawdd. Roedd rhai gwrthwynebwyr yn teimlo nad yw hyn yn annog ymddygiad amgylcheddol gyfrifol mewn cymunedau lleol.

Nododd ymatebwyr hefyd yr effaith ehangach ar fywyd teuluol, yn enwedig mewn perthynas â threfniadau gofal plant, arferion dyddiol a chyflogaeth rhieni. Credwyd bod amseroedd teithio hirach ac amserlenni cludiant sefydlog yn cyfyngu o bosib ar hyblygrwydd i rieni a gofalwyr, gan effeithio ar eu gallu i reoli ymrwymiadau gwaith a chyfrifoldebau gofal plant. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai'r pwysau hwn effeithio'n anghymesur ar deuluoedd sydd ag opsiynau cyfyngedig o ran cludiant neu gyflogaeth lai hyblyg.

Mae pryder pellach a godwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â chapasiti ysgolion sy'n derbyn i ddarparu ar gyfer disgyblion presennol a'r galw posibl yn y dyfodol sy'n deillio o ddatblygiadau tai cynlluniedig a pharhaus yn ardaloedd Meidrim a San Clêr. Cwestiynodd ymatebwyr sut y cyfrifwyd

am dwf poblogaeth yn y dyfodol o fewn rhagamcanion disgyblion ac a oes digon o gapasiti parhaol yn Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog i amsugno disgyblion ychwanegol dros y tymor hir. Awgrymwyd y gallai cynyddu'r ddarpariaeth tai arwain at gynnydd yn y boblogaeth oedran ysgol, gan roi pwysau ar y lleoedd sydd ar gael, yn enwedig lle mae ysgolion eisoes yn gweithredu'n agosach at eu capasiti. Yn y cyd-destun hwn, mynegwyd pryderon y gallai cynllunio ymlaen llaw annigonol arwain at orlenwi neu'r angen am lety dros dro, fel ystafelloedd dosbarth cludadwy, i ddiwallu'r galw. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai canlyniadau o'r fath danseilio manteision canfyddedig cydgrynhoi'r ddarpariaeth a gallai ailgyflwyno heriau capasiti mewn ffurfiau eraill. Ar y cyfan, mae'r safbwyntiau hyn yn adlewyrchu pryder ehangach ynghylch y cydlyniad rhwng cynllunio addysg a datblygu tai lleol, a'r angen i sicrhau bod cynigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu cefnogi gan ragolygon cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o alw yn y dyfodol.

Ar y cyfan, pwysleisiodd gwrthwynebwyr effaith gronnus teithio cynyddol, gan nodi, er y gall ffactorau unigol fel hyd y daith, dibyniaeth ar drafnidiaeth neu ystyriaethau amgylcheddol ymddangos yn hylaw ar eu pen eu hunain, gyda'i gilydd gallent roi straen ychwanegol ar ddisgyblion a theuluoedd. Tynnwyd sylw at y pryderon hyn yn arbennig mewn perthynas â phlant mwy agored i niwed, y gwelwyd bod gofynion teithio cynyddol yn her ychwanegol a allai effeithio ar lesiant, iechyd a gweithrediad o ddydd i ddydd.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a godwyd mewn perthynas â phellter teithio, trefniadau trafnidiaeth, diogelwch ffyrdd a'r effaith amgylcheddol bosibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall teithio a hygyrchedd gael goblygiadau ehangach i ddisgyblion, teuluoedd ac arferion dyddiol, ac felly mae'r materion hyn wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o'r asesiad statudol a gynhaliwyd yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â Pholisi Trafnidiaeth Ysgol Cyngor Sir Caerfyrddin. Byddai cymhwysedd yn cael ei asesu'n gyson ac yn deg, a byddai'r Awdurdod yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau y gall disgyblion cymwys gael mynediad at eu haddysg yn ddiogel ac yn rhesymol.

Mae llwybrau teithio ac amseroedd teithio wedi'u hadolygu ymlaen llaw i sicrhau bod trefniadau trafnidiaeth yn ddiogel, yn gymesur ac yn briodol, gan ystyried oedran ac amgylchiadau unigol disgyblion. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddiogelwch ffyrdd, addasrwydd trefniadau codi a

gollwng, a hyd cyffredinol a phractisrwydd teithiau, yn enwedig i ddysgwyr iau waeth pa ysgol y maent yn dewis ei mynychu.

Nid yw Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i lleoli o fewn Ardal Adeiledig ddynodedig (ABD) fel y'i rhagnodir gan Lywodraeth Cymru ac felly nid oes ganddi unrhyw lwybrau teithio llesol wedi'u nodi o fewn y Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Ar ben hynny, hyd y gŵyr yr Awdurdod, nid oes gan yr ysgol Gynllun Teithio Ysgol Llesol a fyddai'n darparu gwybodaeth fanwl am ddull teithio, tuedd i newid moddol neu gysylltiadau â chyrchfannau allweddol o fewn y pentref neu ganolfannau addysg cyfagos.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ystyried effeithiau amgylcheddol fel rhan o'i fframwaith gwneud penderfyniadau ehangach. Caiff ystyriaethau amgylcheddol eu hasesu ochr yn ochr â ffactorau strategol eraill, gan gynnwys cynaliadwyedd, hygyrchedd a defnydd effeithlon o adnoddau cyhoeddus. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso'r rhain â dyletswydd statudol yr Awdurdod i sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy, effeithiol ac o ansawdd uchel ledled y sir.

Byddai cau ysgol sy'n gweithredu islaw ei chapasiti yn dileu'r angen i gynhesu a chynnal adeilad a ddefnyddir yn aneffeithlon, gan arwain at ostyngiad sylweddol mewn allyriadau sy'n gysylltiedig ag ystâd yr ysgol. Er y byddai cludiant ysgol a rennir yn cynhyrchu rhai allyriadau ychwanegol, disgwylir i'r rhain fod yn gymharol gyfyngedig. Ar draws blwyddyn academaidd, byddai'r allyriadau a gynhyrchir gan gerbyd a rennir sy'n gweithredu llwybr byr yn sylweddol is na'r rhai sy'n gysylltiedig â chadw adeilad ysgol heb ei ddefnyddio'n ddigonol ar waith.

Mae'r ysgolion sy'n derbyn, Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog, yn gweithredu ar sail fwy cynaliadwy, gan ddarparu ar gyfer niferoedd mwy o ddisgyblion o fewn adeiladau a gynlluniwyd i gefnogi defnydd ynni mwy effeithlon. Mae cydgrynhoi darpariaeth o fewn y lleoliadau hyn yn gwella effeithlonrwydd ynni cyffredinol ac mae'n gyson â disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer rheoli ystâd yr ysgol yn gynaliadwy.

Mae datganiad Cyngor Sir Caerfyrddin o Argyfwng Hinsawdd yn 2019, ochr yn ochr ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio ystâd y sector cyhoeddus, yn atgyfnerthu pwysigrwydd lleihau defnydd diangen o ynni. Mae lleihau allyriadau o adeiladau aneffeithlon yn elfen allweddol o'r dull hwn.

Cofnododd Ysgol Gynradd Meidrim, a adeiladwyd tua 1900 ac a gynhesu gan ddefnyddio system olew, ôl troed carbon o 11.37 tunnell o CO_2e yn 2024/25, gyda defnydd ynni meincnodedig o 172.6 kWh/m². Mae'r metrig hwn yn darparu sail normal ar gyfer cymharu ar draws safleoedd o wahanol feintiau a defnydd gweithredol.

Yn yr un modd, cofnododd Ysgol Hafodwenog, a adeiladwyd ym 1971 ac a gynhesu gan nwy petrolewm hylif (LPG), ôl troed carbon uwch o 21.2 tunnell o CO_2e yn yr un cyfnod, gyda defnydd ynni cymharol o 172.9 kWh/m².

Mewn cyferbyniad, mae gan Ysgol Griffiths Jones, a adeiladwyd ym 1963 ac a gynhesu gan nwy naturiol, arwynebedd mewnol gros sylweddol fwy (3,676 m²) o'i gymharu ag Ysgol Gynradd Meidrim (268 m²) ac Ysgol Hafodwenog (566 m²). Er gwaethaf hyn, cofnododd allyriadau o 70.41 tunnell o CO_2e yn 2024/25, ochr yn ochr â defnydd ynni sylweddol is o 98.6 kWh/m²—ychydig dros hanner yr ysgolion eraill.

Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at yr allyriadau anghymesur o uchel sy'n gysylltiedig â chynnal adeiladau ysgol llai, llai effeithlon o ran ynni, yn enwedig lle mae lefelau meddiannaeth yn isel.

Wrth ystyried cludiant disgyblion i ddarpariaeth amgen, byddai bws a rennir sy'n ymgymryd â thaith ddychwelyd 13 milltir rhwng Ysgol Gynradd Meidrim ac Ysgol Hafodwenog, Trelech, dros 190 diwrnod addysgu yn cynhyrchu tua 2.5 tCO_2e y flwyddyn, yn seiliedig ar ffactorau allyriadau a ddeilliwyd o DEFRA (tua 13 kg CO_2e fesul taith).

Fel arall, byddai bws a rennir sy'n gweithredu taith ddychwelyd fyrrach 6 milltir rhwng Ysgol Gynradd Meidrim ac Ysgol Griffiths Jones, San Clêr, dros yr un cyfnod yn cynhyrchu tua 1.1 tCO_2e y flwyddyn (tua 6 kg CO_2e fesul taith).

Er nad yw'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig â theithiau lleoli cerbydau, mae cyfanswm yr allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn parhau i fod yn sylweddol is na'r rhai sy'n gysylltiedig â gweithrediad parhaus Ysgol Gynradd Meidrim.

Cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin Argyfwng Hinsawdd ar 20 Chwefror 2019, gan atgyfnerthu ei ymrwymiad i leihau allyriadau ar draws ystâd y sector cyhoeddus a chyd-fynd â'r ystyriaethau amgylcheddol a nodir yn y cynnig hwn.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch capasiti ysgolion sy'n derbyn i ddarparu ar gyfer disgyblion presennol a'r galw posibl yn y dyfodol sy'n deillio o ddatblygiadau tai arfaethedig a pharhaus yn ardaloedd Meidrim a San Clêr. Mae rhagamcanion disgyblion a ddefnyddiwyd i lywio'r cynnig yn ymgorffori ystod o ffynonellau data, gan gynnwys cyfraddau geni hanesyddol, patrymau mudo a datblygiadau tai hysbys, yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Caiff y rhagamcanion hyn eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gywir ac yn ymatebol i amgylchiadau lleol sy'n newid.

Mae'r ysgolion sy'n derbyn arfaethedig wedi'u hasesu o ran capasiti presennol a galw rhagamcanedig yn y dyfodol ac fe'u hystyrir yn abl i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n deillio o'r cynnig hwn, ochr yn ochr â thwf poblogaeth disgwyliedig yn yr ardal. Lle bo angen, mae'r Awdurdod yn cadw'r gallu i reoli capasiti trwy brosesau sefydledig, gan gynnwys ail gyflunio llety mewnol neu gynllunio strategol darpariaeth ychwanegol. Fodd bynnag, nid oes disgwyliad ar hyn o bryd y byddai'r cynnig yn arwain at orlenwi neu ddibyniaeth ar lety dros dro.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd alinio darpariaeth addysg â thwf tai ac yn parhau i gydweithio â chydweithwyr cynllunio i sicrhau bod patrymau datblygu sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hadlewyrchu wrth gynllunio lleoedd ysgol. Mae hyn yn rhan o ddyletswydd statudol barhaus yr Awdurdod i sicrhau bod digon o leoedd ysgol addas ar gael ledled y sir, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau bod goblygiadau trafnidiaeth, hygyrchedd, capasiti ac amgylcheddol wedi'u hasesu'n llawn fel rhan o'r cynnig. Lle mae angen trafnidiaeth, byddai trefniadau'n cael eu gwneud yn unol â Pholisi Trafnidiaeth Ysgol y Cyngor a'u hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel ac yn rhesymol. Er bod ystyriaethau amgylcheddol a chapasiti yn rhan bwysig o'r cyd-destun polisi ehangach, rhaid eu cydbwyso ochr yn ochr â chyfrifoldeb yr Awdurdod i sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy i bob dysgwr, gyda phob ffactor yn cael ei ystyried yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

6.	**Ansawdd addysgol ysgolion gwledig bach**	**127**	**48.8%**

Dadl rhai ymatebwyr oedd bod ysgolion gwledig bach yn darparu profiad addysgol unigryw o ansawdd uchel, yn enwedig drwy ddosbarthiadau bach, perthnasoedd cryf ac arferion cynhwysol. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn fod carfannau llai yn sicrhau mwy o sylw unigol, gwell dealltwriaeth o anghenion disgyblion, a chymorth mwy ymatebol, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddysgu a llesiant disgyblion yn eu barn nhw.

Tynnodd nifer o ymatebion sylw at y manteision canfyddedig sy'n gysylltiedig ag addysgu oedran cymysg, sy'n gyffredin mewn ysgolion gwledig bach. Mynegodd yr ymatebwyr y farn y gall dosbarthiadau oedran cymysg feithrin cymorth gan gyfoedion, cydweithio a datblygiad cymdeithasol, gan alluogi disgyblion iau i ddysgu gan gyfoedion hŷn yn ogystal â chaniatáu i ddisgyblion hŷn atgyfnerthu dysgu drwy rolau mentora. Credwyd gan rai bod grwpiau oedran cymysg hefyd yn cynnig mwy o hyblygrwydd ar gyfer gwahaniaethu a dulliau dysgu wedi'i bersonoli.

Hefyd pwysleisiodd yr ymatebwyr y berthynas gref rhwng disgyblion a staff, gan nodi y gall cymunedau ysgol llai gefnogi amgylchedd meithringar a chynhwysol. Awgrymwyd y gallai disgyblion mewn ysgolion llai gael budd o deimlo eu bod yn cael eu hadnabod yn dda a'u gwerthfawrogi, lle mae'r ffaith bod pawb yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol fel perfformiadau, chwaraeon a chyfleoedd arweinyddiaeth yn cyfrannu at hyder ac ymdeimlad o berthyn.

Yn ogystal, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at welliannau diweddar a nodwyd drwy weithgarwch gan Estyn, gan nodi eu bod yn gweld cynnydd cadarnhaol mewn safonau ac ymarfer addysgol yn yr ysgol. Cyfeiriwyd at y gwelliannau hyn fel tystiolaeth y gall ysgolion gwledig bach fod yn effeithiol ac ymateb yn adeiladol i brosesau arolygu, her broffesiynol a blaenoriaethau gwella ysgol.

Yn gyffredinol, dadl yr ymatebwyr sydd o'r farn hon oedd y gall nodweddion ysgolion gwledig bach—gan gynnwys maint, addysgu oedran cymysg a pherthnasoedd agos—gefnogi profiad addysgol o ansawdd uchel. Awgrymwyd y dylid cydnabod y nodweddion hyn fel cryfderau a'u hystyried yn ofalus yng nghyswllt trafodaethau am ddarpariaeth addysgol a threfniadaeth ysgolion.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall ysgolion bach gynnig amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol, gan gynnwys manteision posibl dosbarthiadau bach, perthnasoedd cryf a, lle bo hynny'n briodol, addysgu oedran cymysg effeithiol. Gall lleoliadau o'r fath hyrwyddo cynhwysiant, ymgysylltu â disgyblion a phrofiadau dysgu wedi'i bersonoli, ac mae'r cryfderau hyn yn cael eu cydnabod yn llawn.

Fodd bynnag, wrth asesu ansawdd addysg, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymryd golwg system gyfan a hirdymor. Nid yw ansawdd addysgol yn cael ei bennu gan brofiad cyfredol yn yr ystafell ddosbarth yn unig, ond hefyd gan allu ysgol i gynnal safonau uchel dros amser. Mae hyn yn cynnwys capasiti arweinyddiaeth, gwydnwch staffio, ehangder y cwricwlwm, mynediad at gymorth proffesiynol a hyfywedd hirdymor yn gyffredinol. Mae'r ffactorau hyn yn arbennig o berthnasol mewn ysgolion llai, lle gall strwythurau staffio cyfyngedig beri heriau mewn perthynas â llwyth gwaith arweinwyr, absenoldeb staff, cynllunio olyniaeth a chyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys.

Felly, wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ystyried cryfderau canfyddedig ysgolion bach ochr yn ochr â chanlyniadau arolygu, niferoedd presennol y disgyblion ac amcanestyniadau o nifer y disgyblion, ac asesiadau ehangach o gynaliadwyedd a hyfywedd. Er bod gweithgarwch arolygu diweddar a gwelliannau a nodwyd yn cael eu cydnabod, rhaid i'r Awdurdod hefyd ystyried a ellir

cynnal cynnydd o'r fath yng nghyswllt niferoedd isel o ddisgyblion neu ostyngiad yn nifer y disgyblion a phwysau cynyddol ar gapasiti arweinyddiaeth a staffio.

Nod dull gweithredu'r Awdurdod yw sicrhau addysg o ansawdd uchel i bob dysgwr dros y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad at gwricwlwm eang, rhyngweithio priodol â chyfoedion, trefniadau arweinyddiaeth gwydn a defnyddio adnoddau'n gynaliadwy. Mae'r cynnig yn adlewyrchu barn yr Awdurdod, yn seiliedig ar asesiad cyfannol, ynghylch sut y gellir cyflawni'r amcanion hyn yn fwyaf effeithiol ar draws y system addysg.

Mae'r Awdurdod o'r farn bod dylanwad ansawdd arweinyddiaeth, addysgu ac adnoddau ar effeithiolrwydd ysgolion yn fwy na dylanwad maint absoliwt. Mae Estyn yn nodi'n gyson mai arweinyddiaeth gref ac addysgu o ansawdd uchel yw'r ffactorau pwysicaf wrth sicrhau a chynnal deilliannau gwell i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae gwaith thematig Estyn yn pwysleisio ymhellach fod arweinyddiaeth effeithiol yn darparu cyfeiriad strategol clir, yn cryfhau ymarfer addysgu ac yn creu'r amodau lle gall dysgwyr ffynnu, gan gydnabod yn eang, ar wahân i addysgu yn yr ystafell ddosbarth, mai arweinyddiaeth yw'r ffactor pwysicaf sy'n effeithio ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r Awdurdod felly yn hyderus y bydd y trefniadau arweinyddiaeth yn yr ysgolion derbyn a gynigir yn cefnogi sefydlogrwydd a safonau parhaus i ddysgwyr sy'n trosglwyddo i'r ysgol fel rhan o'r cynnig. Mae'n fodlon bod gan yr ysgolion derbyn y gallu i gynnal a datblygu addysgu effeithiol ac ymarfer cynhwysol ymhellach, a gefnogir gan arweinyddiaeth gref, systemau cyson a strwythurau sefydliadol tebyg sy'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer parhad dysgu, llesiant a chymorth i bob disgybl.

Yn yr un modd, mae deilliannau o ran y Gymraeg yn cael eu sicrhau drwy addysgu o ansawdd uchel, cynnydd ieithyddol cyson a darpariaeth cyfrwng Cymraeg gynaliadwy a gellir cynnal pob un o'r rhain a, lle bo'n briodol, eu cryfhau drwy'r trefniadau a gynigir.

Ar y sail hon, er bod yr Awdurdod yn cydnabod yr agweddau cadarnhaol sy'n aml yn gysylltiedig ag ysgolion gwledig bach, mae'r rhain wedi'u cydbwyso'n ofalus yn erbyn ystyriaethau cynaliadwyedd, capasiti arweinyddiaeth ac ansawdd addysgol hirdymor. Mae'r cynnig yn adlewyrchu cyfrifoldeb yr Awdurdod i gynllunio darpariaeth sydd nid yn unig yn effeithiol ar hyn o bryd, ond hefyd yn hyfyw, yn wydn ac yn gallu diwallu anghenion yn y dyfodol. Ar y sail hon, er bod canfyddiadau rhieni ynghylch manteision ysgolion bach yn cael eu cydnabod, nid yw'r Awdurdod o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at safonau addysgol is nac ansawdd is o ran profiadau'r dysgwyr ac mae'n dal i

fod yn hyderus y byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn amgylchedd dysgu cefnogol wedi'i ategu gan arweinyddiaeth effeithiol ac addysgu o ansawdd uchel.

7.	**Y broses ymgynghori a phryderon gweithdrefnol**	**109**	**41.9%**

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon am y broses ymgynghori, gan gwestiynu ei chynnwys a ffordd y cafodd ei chynnal. Un o themâu rheolaidd yr ymatebion oedd cywirdeb a dibynadwyedd canfyddedig y wybodaeth a gyflwynwyd yn y dogfennau ymgynghori. Mynegodd rhai ymatebwyr y farn bod elfennau o'r dogfennau yn cynnwys gwybodaeth anghywir, nad oeddent yn ddigon eglur, neu nad oeddent yn adlewyrchu cyd-destun neu amgylchiadau'r ysgol yn llawn, gan arwain at bryderon ynghylch a oedd rhanddeiliaid wedi cael sail gyflawn a chytbwys i ymateb iddi.

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cwestiynu'r defnydd a'r dehongliad o'r dystiolaeth arolygu, yn enwedig y pwyslais a roddwyd ar ganfyddiadau Estyn yn y cynnig. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu bod y canlyniadau arolygu naill ai'n cael eu gorbwysleisio neu eu dehongli'n ddetholus, tra bod eraill yn teimlo nad oedd gwelliannau mwy diweddar neu ffactorau cyd-destunol wedi'u cydnabod yn ddigonol. Oherwydd y pryderon hyn cwestiynodd rhai ymatebwyr a oedd tystiolaeth arolygu wedi'i chymhwyso'n gyson ac yn gymesur yn yr asesiad cyffredinol.

Roedd amseriad y cynnig yn destun pryder arall. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yr ymgynghoriad wedi'i gyflwyno ar adeg amhriodol, gan gyfyngu o bosib ar y cyfle i welliannau diweddar ddod i rym neu i dystiolaeth lawn gael ei rhoi. Awgrymwyd bod yr amseriad wedi creu ansicrwydd i ddisgyblion, teuluoedd a staff ac y gallai fod wedi effeithio ar allu rhanddeiliaid i gymryd rhan yn ystyrlon yn y broses.

Roedd pryder pellach yn ymwneud â ph'un a oedd yr holl opsiynau rhesymol a hyfyw eraill yn lle'r cynnig wedi'u hystyried a'u cyflwyno'n ddigonol. Cwestiynodd rhai ymatebwyr a oedd opsiynau heblaw cau neu ad-drefnu wedi cael pwyslais neu ystyriaeth ddigonol, ac a oedd yr ymgynghoriad wir yn agored i ystyried opsiynau eraill. Arweiniodd hyn at ganfyddiadau ymhlith rhai ymatebwyr bod penderfyniad wedi cael ei wneud ynghylch y cynnig ymlaen llaw o bosib.

Cyfeiriodd sawl ymateb yn benodol at gydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gwestiynu a oedd yr ymgynghoriad yn bodloni ei ofynion yn llawn. Mynegwyd pryderon am ddigonolrwydd y wybodaeth a ddarparwyd, yr asesiad o'r opsiynau eraill, ac a oedd y broses yn cyd-fynd â'r egwyddorion tryloywder, tegwch ac ymgysylltu ystyrlon a nodir yn y Cod.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr oedd yn mynegi'r farn hon yn cyfleu rhywfaint o ddiffyg hyder yn y broses ymgynghori, gan dynnu sylw at bryderon am gywirdeb, tystiolaeth, amseriad a chydymffurfiaeth weithdrefnol. Mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu cred y dylai prosesau ymgynghori nid yn unig fodloni gofynion statudol ond hefyd sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu'n llawn, yn hyderus yn y wybodaeth a gyflwynir, ac yn sicr bod eu barn wir yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Cynlluniwyd y broses ymgynghori i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth drwy alluogi rhanddeiliaid i ddeall y cynnig ac i fynegi eu barn. Mae'r Awdurdod o'r farn bod y broses wedi cadw at egwyddorion tegwch, tryloywder ac ymgysylltu ystyrlon y Cod.

Mae'r holl ymatebion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'u hystyried yn ofalus. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ymgyngoreion wedi mynegi ystod eang o safbwyntiau, gan gynnwys gwrthwynebiadau a phryderon. Mae adborth o'r ymgynghoriad wedi bod yn rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth ac wedi cael ei ystyried ochr yn ochr ag asesiadau statudol, cyngor proffesiynol a gwybodaeth berthnasol arall wrth werthuso'r cynnig.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod nad oes angen unfrydedd ar gyfer proses ymgynghori ac na fydd pob un sy'n cymryd rhan yn cytuno â'r cynnig na'i ganlyniadau posibl. Pwrpas yr ymgynghoriad yw casglu sylwadau fel y gall y rhain lywio penderfyniadau, yn hytrach na phenderfynu ar y canlyniad terfynol. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod rhanddeiliaid wedi cael cyfleoedd priodol i ymgysylltu â'r broses ac i godi materion i'w hystyried.

Wrth ffurfio'i safbwynt, aseswyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ochr yn ochr â chyfrifoldebau statudol ehangach yr Awdurdod, gan gynnwys cynnal safonau addysgol, sicrhau cynaliadwyedd, ymateb i niferoedd disgyblion a sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau cyhoeddus. Ar y sail hon, mae'r Awdurdod o'r farn bod y broses ymgynghori wedi'i chynnal yn briodol a bod gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) wedi'u bodloni.

Nodir hefyd nad yw'r drafodaeth lunio (Cam 0) yn un o ofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mabwysiadwyd y cam hwn gan yr Awdurdod Lleol fel elfen ychwanegol o'i ymagwedd ddemocrataidd, gan ddarparu cyfle i ymgysylltu'n gynnar, trafod a rhannu gwybodaeth i helpu i lunio cynigion yn gynnar. Dylid nodi nad oedd unrhyw opsiynau wedi'u cyflwyno gan yr ysgol mewn

ymateb i'r drafodaeth lunio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod nifer o gynigion wedi cael eu cyflwyno a'u hystyried fel rhan o'r gwaith o werthuso'r ymgynghoriad. Hefyd, mae rhagor o opsiynau eraill a sylwadau a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol wedi cael eu hystyried a'u hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

Mae data CYBLD yn darparu set ddata gyson, gynhwysfawr a safonedig ar draws pob ysgol yng Nghymru. Mae CYBLD yn cael ei gasglu'n flynyddol o bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan sicrhau cipolwg unffurf a chyfredol o niferoedd disgyblion, demograffeg a nodweddion ysgolion. Mae'r cysondeb hwn yn golygu bod modd dadansoddi tueddiadau a gwneud cymariaethau cywir ar draws ysgolion ac awdurdod lleol. Mae Llywodraeth Cymru ac Estyn yn defnyddio data CYBLD fel llinell sylfaen ar gyfer dyrannu cyllid, monitro perfformiad, a chynllunio strategol. Mae defnyddio'r un set ddata mewn adroddiadau awdurdod lleol yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â fframweithiau polisi cenedlaethol ac yn osgoi anghysondebau. Mae CYBLD yn ffynhonnell ddata swyddogol sy'n destun prosesau dilysu trylwyr. Mae defnyddio CYBLD mewn adroddiadau ffurfiol yn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd, yn enwedig wrth gyfiawnhau penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion, cyllid, neu ddeilliannau addysgol. Mae cyfeirio at un ffynhonnell ddata gydnabyddedig, fel CYBLD, yn creu eglurder ac yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid, ysgolion, rhieni, arolygwyr a llunwyr polisi yn gweithio o'r un sylfaen dystiolaeth.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r Awdurdod wedi cynnal yr asesiadau effaith gofynnol, gan gynnwys rhai o ran y Gymraeg, y Gymuned, Teithio a Chydraddoldeb. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn defnyddio dull Asesiad Effaith Integredig, sy'n dwyn ynghyd ystyriaethau sy'n deillio o amrywiaeth o fframweithiau deddfwriaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, deddfwriaeth cydraddoldeb, gofynion o ran y Gymraeg, ystyriaethau economaidd-gymdeithasol, hawliau plant a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn ddogfen waith a luniwyd fel rhan o broses y cynnig ac mae'n cael ei adolygu a'i fireinio wrth i ragor o dystiolaeth ddod ar gael. Paratowyd Asesiad Effaith Integredig cychwynnol ar ddechrau'r broses ac mae wedi'i ddiweddaru ers hynny i adlewyrchu data newydd, tystiolaeth broffesiynol ac adborth a ddaeth i law yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol.

Mae'r holl waith dadansoddi wedi'i wneud gan swyddogion o bob rhan o'r Awdurdod, gan gynnig amrywiaeth eang o brofiad ac arbenigedd. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr asesiadau effaith yn darparu gwerthusiad teg, cymesur a chytbwys o'r cynnig, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael yn ystod pob cam o'r broses.

O ran yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, mae'r gwerthusiad yn ystyried y cryfderau o ran y Gymraeg ym mhob ysgol sy'n gysylltiedig â'r cynnig, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, deilliannau iaith, cynaliadwyedd, a'r gallu i gyflawni amcanion addysg cyfrwng Cymraeg hirdymor. Mae'r asesiad hefyd yn ystyried cyfleoedd trochi o ran diwylliant a threftadaeth ym mhob lleoliad, gan alluogi gwerthusiad cytbwys a chymharol o Ysgol Gynradd Meidrim, Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog.

Mae'r fethodoleg asesu yn rhoi pwyslais ar ansawdd a pharhad addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth mai darpariaeth strwythuredig, addysgeg gref a chynnydd ieithyddol cyson yw'r sbardunau pwysicaf o ran caffael y Gymraeg. Er bod gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd yn y lleoliad yn cael eu cydnabod, mae'r asesiad yn canolbwyntio ar ofynion ieithyddol statudol, cyflwyno'r cwricwlwm a'r llwybrau cynnydd sy'n helpu dysgwyr i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus a chymwys.

8.	**Yr achos ariannol a gwerth am arian**	**94**	**36.2%**

Cwestiynodd rhai ymatebwyr a oedd yr arbedion ariannol a ragwelir sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn ddigonol i gyfiawnhau cau'r ysgol. Thema reolaidd yn yr ymatebion hyn oedd amheuaeth ynghylch a oedd yr arbedion disgwyliedig yn adlewyrchu'n gywir yr ystod lawn o gostau a fyddai'n deillio o'r cynnig. Yn benodol, tynnodd ymatebwyr sylw at bryderon y gallai arbedion posibl gael eu gwrthbwyso gan gostau cludiant uwch a gwariant sy'n gysylltiedig ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan leihau neu ddileu'r budd ariannol cyffredinol.

Mynegodd sawl ymatebydd bryder nad oedd y modelu ariannol yn cyfleu costau parhaus cludiant o'r cartref i'r ysgol yn llawn, yn enwedig i ddisgyblion iau a'r rhai ag anghenion ychwanegol a allai fod angen trefniadau cludiant arbenigol neu unigol. Awgrymwyd y gallai pellteroedd teithio hirach a dibyniaeth ar gludiant arwain at gostau hirdymor uwch, nad ydynt efallai wedi cael eu hystyried yn ddigonol yn yr achos ariannol.

Mynegwyd pryderon hefyd am yr effaith bosibl ar gostau darpariaeth ADY. Nododd yr ymatebwyr y gallai newid lleoliad olygu bod angen rhagor o gymorth, addasiadau amgylcheddol, staffio, neu drefniadau trosglwyddo ar gyfer disgyblion ag anghenion a nodwyd. Roedd rhai yn cwestiynu a oedd y pwysau posibl hyn wedi'u cynnwys yn llawn yn yr amcanestyniadau ariannol, yn enwedig lle mae'r ddarpariaeth ar hyn o bryd wedi'i sefydlu'n lleol ac yn bersonol iawn.

Yn ogystal, cwestiynodd ymatebwyr y rhagdybiaethau sy'n sail i'r amcanestyniadau ariannol, gan gynnwys y sail a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r arbedion ac i ba raddau y cafodd newidynnau fel y galw am gludiant, anghenion ADY ac amrywiadau costau yn y dyfodol eu profi neu eu hasesu o ran straen. Mynegodd rhai bryder y gallai arbedion a ragwelir ddibynnu ar ragdybiaethau optimistaidd ac efallai na fyddent yn adlewyrchu'n ddigonol gymhlethdodau'r byd go iawn neu gostau cronnol sy'n deillio o weithredu'r cynnig.

Yn gyffredinol, mynegodd ymatebwyr oedd yn nodi'r materion hyn ansicrwydd ynghylch a oedd buddion ariannol cau'r ysgol yn ddigon cadarn a thryloyw i gyfiawnhau'r cynnig. Roedd y pryderon hyn yn adlewyrchu awydd am eglurder ynghylch sut roedd arbedion wedi'u cyfrifo, a oedd yr holl gostau cysylltiedig wedi'u hystyried yn llawn, a sut y byddai risgiau ariannol yn cael eu rheoli dros amser.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynglŷn â'r achos ariannol a gyflwynwyd i gefnogi'r cynnig ac yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder, cysondeb a chadernid mewn asesiadau ariannol, yn enwedig lle gall cynigion trefniadaeth ysgolion olygu goblygiadau i ddisgyblion, teuluoedd a chymunedau.

Cynhelir asesiadau ariannol gan ddefnyddio dull cyson a systematig ar draws yr holl gynigion trefniadaeth ysgolion. Mae'r asesiadau hyn yn ystyried ystod lawn o gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol, gan gynnwys staffio, safleoedd a chynnal a chadw, cludiant, a phwysau posibl sy'n gysylltiedig â darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bwriad y dull hwn yw sicrhau bod yr holl ffactorau ariannol perthnasol yn cael eu hystyried fel rhan o werthusiad cynhwysfawr a chytbwys, yn hytrach na chanolbwyntio ar elfennau cost unigol ar wahân.

Yn ogystal â sefyllfa bresennol y gyllideb, mae'r Awdurdod yn rhoi pwyslais sylweddol ar gynaliadwyedd a hyfywedd hirdymor. Mae hyn yn cynnwys ystyried y pwysau parhaus ar y gyllideb, nifer y lleoedd gwag, amcanestyniadau o niferoedd y disgyblion a'r defnydd effeithlon o adnoddau cyhoeddus. Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod cyllid addysg yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, yn deg ac yn gynaliadwy ar draws y sir, a bod penderfyniadau ariannol yn cefnogi gwydnwch hirdymor y system addysg gyfan.

Nid yw ystyriaethau ariannol yn cael sylw ar eu pennau eu hunain. Maent yn rhan o sylfaen dystiolaeth ehangach sy'n cynnwys ansawdd addysgol, digonolrwydd disgyblion, capasiti

arweinyddiaeth a hyfywedd hirdymor. Felly, mae penderfyniadau yn cael eu llywio gan asesiad cyfannol o angen a chynaliadwyedd, yn hytrach na chan arbedion a ragwelir yn unig.

Mae'r gyllideb gyffredinol a ddirprwywyd i ysgolion yr Awdurdod o dan bwysau sylweddol. Mae setliadau cyllido cenedlaethol a lleol heriol, ynghyd â gostyngiad cyson yn nifer y disgyblion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi golygu bod yr ystad ysgolion cynradd bresennol, sy'n cynnwys 94 o ysgolion, y mae gan lawer ohonynt garfannau disgyblion bach iawn, yn fwyfwy anghynaladwy. Mae gan nifer sylweddol o ysgolion ddiffyg neu rhagwelir y bydd ganddynt ddiffyg yn ystod y ddwy flynedd ariannol nesaf ac mae'r gyllideb ysgolion gyffredinol yn rhagweld gorwariant yn ystod y flwyddyn o £8.9m ar gyfer 2026/27. Mae hyn yn peri risg sylweddol i gyfanswm cyllideb y Cyngor.

Mae hefyd nifer sylweddol o leoedd gwag ar draws y rhwydwaith ysgolion. Gan fod cyllid ysgolion yn cael ei reoli i raddau helaeth gan niferoedd disgyblion, mae cynnal a chadw ystad sy'n fwy na'r angen demograffig yn rhoi straen ychwanegol ar gyllidebau sydd eisoes wedi'u cyfyngu. Felly mae lleihau'r ôl troed cyffredinol i lefel lle mae nifer llai o ysgolion yn gallu gweithredu'n effeithlon a rheoli cyllidebau yn gynaliadwy bellach yn flaenoriaeth gorfforaethol. Mae hyn wedi'i gadarnhau gan waith craffu allanol, gan gynnwys Estyn (2023), a dynnodd sylw at oedi wrth wneud penderfyniadau a'r effaith ar gynnydd o ran ad-drefnu'r ystad addysg, a'r Asesiad Perfformiad gan Banel (2025) a gomisiynwyd drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Argymhellodd hyn weithredu Rhaglen Moderneiddio Addysg yr Awdurdod i fynd i'r afael â gormod o leoedd gwag a gwneud y gorau o ôl troed cyffredinol yr ystad ysgolion, lleihau diffygion mewn cyllidebau ysgolion a llywio penderfyniadau buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol.

O ran Ysgol Gynradd Meidrim, rhagwelir y bydd gan yr ysgol ddiffyg o £61k ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26, ynghyd â gorwariant cyfredol o tua £41k yn ystod y flwyddyn. Byddai cyfuno disgyblion yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, neu unrhyw ysgol gynradd arall yn unol â dewis y rhieni, yn cryfhau sefyllfaoedd ariannol yr ysgolion hynny drwy gynyddu maint y garfan, gwella dyraniadau cyllid ar sail disgyblion a chefnogi mwy o gynaliadwyedd ariannol hirdymor.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am adeilad ysgol diangen yn ei ystad. Os na nodir defnydd corfforaethol neu gymunedol, ac yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid, byddai'r safle yn cael ei roi ar y farchnad agored. Gallai hyn gynhyrchu derbyniad cyfalaf amcangyfrifedig o oddeutu £150,000, y gellid ei ailfuddsoddi yn unol â blaenoriaethau corfforaethol.

I gloi, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch rhagdybiaethau ac amcanestyniadau ariannol. Fodd bynnag, mae'n fodlon bod asesiadau ariannol wedi'u cynnal yn

drylwyr, yn gyson ac yn unol â phrosesau sefydledig, a'u bod yn llywio'n briodol y gwerthusiad ehangach o effeithlonrwydd, digonolrwydd a hyfywedd addysgol hirdymor sy'n sail i'r cynnig.

9.	**Opsiynau eraill yn lle cau'r ysgol**	**76**	**29.2%**

Cynigiodd nifer o ymatebwyr ddulliau eraill y dylid eu hystyried yn eu barn nhw fel ffordd bosibl o gynnal y ddarpariaeth a mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, yn hytrach na mynd ati'n uniongyrchol i'w chau. Roedd yr awgrymiadau hyn yn adlewyrchu awydd i gadw presenoldeb ysgol leol ac i ystyried atebion hyblyg neu gynyddol wedi'u teilwra i'r cyd-destun gwledig.

Un opsiwn a awgrymwyd yn aml oedd trefniadau rhannu arweinyddiaeth neu ffedereiddio. Dadl yr ymatebwyr oedd y gallai modelau o'r fath leihau pwysau arweinyddiaeth a rheolaeth drwy rannu rolau uwch-arweinwyr neu bennaeth ar draws mwy nag un ysgol, gan ganiatáu i ysgolion gadw eu hunaniaethau unigol. Awgrymwyd y gallai rhannu arweinyddiaeth ddarparu mwy o wydnwch, cymorth proffesiynol ac arbedion effeithlonrwydd heb gael gwared ar y ddarpariaeth leol.

Cynigiodd rhai ymatebwyr ddarpariaeth blynyddoedd cynnar well i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor. Awgrymwyd y gallai ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar neu'r cynnig gofal plant ddenu mwy o deuluoedd i'r ardal, cefnogi cyflogaeth rhieni, a chynyddu nifer y disgyblion dros amser, gan gryfhau hyfywedd yr ysgol.

Awgrymodd eraill ddatblygu'r ysgol fel hwb cymunedol, gan wneud mwy o ddefnydd o'r adeilad ar gyfer gweithgareddau cymunedol, gwasanaethau neu bartneriaethau y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y gallai mwy o ddefnydd cymunedol gryfhau rôl yr ysgol yn y pentref, cynyddu nifer yr ymwelwyr ac ymgysylltu, ac o bosibl cyfrannu at gynaliadwyedd ariannol drwy rannu defnydd neu fentrau ar y cyd.

Cynigiodd nifer o ymatebion hefyd y syniad o gynllun cynaliadwyedd am gyfnod penodol. Fel rhan o'r dull hwn, awgrymodd ymatebwyr y gellid rhoi cyfnod diffiniedig i'r ysgol ar gyfer rhoi cymorth wedi'i dargedu, trefniadau arweinyddiaeth diwygiedig neu fuddsoddiad ychwanegol ar waith, gan fonitro cynnydd yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt. Roedd hyn yn cael ei ystyried fel ffordd o ganiatáu amser i welliannau diweddar neu fentrau newydd ddod i rym cyn i benderfyniadau di-droi'n-ôl gael eu gwneud.

Yn gyffredinol, mynegodd ymatebwyr oedd yn cynnig yr opsiynau eraill hyn y farn mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid cau'r ysgol, a bod opsiynau fel ffedereiddio, rhannu arweinyddiaeth, darpariaeth blynyddoedd cynnar well, modelau hwb cymunedol neu fesurau cynaliadwyedd am

gyfnod penodol yn haeddu ystyriaeth lawnach. Mae'r awgrymiadau hyn yn adlewyrchu cred y gallai hyblygrwydd strwythurol ac atebion cymunedol o bosibl fynd i'r afael â heriau gan gadw darpariaeth addysgol a chymunedol leol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yr ystod o opsiynau eraill a awgrymwyd gan ymatebwyr ac yn cadarnhau bod y rhain wedi'u hystyried o ddifrif wrth ddatblygu'r cynnig. Mae'n cydnabod bod yr awgrymiadau hyn wedi'u cyflwyno gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd gan gadw'r ddarpariaeth leol.

Cafodd pob opsiwn arall ei werthuso'n fanwl yn erbyn meini prawf cyson, gan gynnwys nifer presennol y disgyblion ac amcanestyniadau o nifer y disgyblion, nifer y lleoedd gwag, cynaliadwyedd arweinyddiaeth, safonau addysgol a hyfywedd ariannol. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar a allai dulliau eraill fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol yn realistig ac yn gynaliadwy dros y tymor hir.

Er bod yr Awdurdod yn cydnabod bod rhai o'r opsiynau eraill wedi nodi manteision posibl, daeth i'r casgliad, o'u hasesu ar y cyd ac yn erbyn y sylfaen dystiolaeth lawn, nad oeddent yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion sylfaenol a nodwyd. Yn benodol, roedd pryderon yn parhau ynghylch gallu'r opsiynau eraill i sicrhau trefniadau arweinyddiaeth gwydn, cynnal ansawdd addysgol cyson, sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau a sicrhau hyfywedd hirdymor yng nghyswllt niferoedd isel o ddisgyblion neu ostyngiad yn nifer y disgyblion a gormod o leoedd gwag.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymryd golwg system gyfan a strategol ar ddarpariaeth addysg a sicrhau bod penderfyniadau'n cefnogi canlyniadau cynaliadwy ac effeithiol ar draws y sir gyfan. Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl opsiynau rhesymol eraill ochr yn ochr ag asesiadau statudol, cyngor proffesiynol ac ymatebion i'r ymgynghoriad, daeth yr Awdurdod i'r casgliad mai'r cynnig yw'r opsiwn mwyaf priodol a hyfyw ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd addysgol hirdymor.

At ei gilydd, er bod opsiynau eraill wedi'u hystyried mewn modd priodol a thrylwyr, mae'r Awdurdod o'r farn bod y cynnig yn mynd i'r afael yn fwyaf effeithiol â'r heriau cyfunol o ran nifer y disgyblion, nifer y lleoedd gwag, cynaliadwyedd arweinyddiaeth, ansawdd addysgol a hyfywedd ariannol.

Mae rhagor o fanylion am yr opsiynau eraill a nodwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys y dadansoddiad o'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) a gynhaliwyd ar gyfer pob un, wedi'u nodi yn Adran 8 o'r adroddiad hwn.

7. CRYNODEB O'R SYLWADAU CEFNOGOL A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL

Mae'r tabl isod yn nodi themâu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r themâu hynny:

Sylwadau Cefnogol			
Rhif y Pwynt	**Y Pwynt a Godwyd**	**Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn**	**% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn**
1.	**Effeithlonrwydd ariannol a chynaliadwyedd**	**4**	**1.54%**

Mynegodd nifer o ymatebwyr gefnogaeth i'r cynnig ar sail yr angen i sicrhau defnydd effeithlon a chyfrifol o adnoddau cyhoeddus. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn, o ystyried cyllid addysg cyfyngedig a phwysau cynyddol ar draws y system ysgolion, ei bod yn bwysig bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau'r budd addysgol cyffredinol mwyaf.

Tynnodd ymatebwyr cefnogol sylw at bryderon am gynaliadwyedd ariannol hirdymor ysgolion bach iawn, yn enwedig lle mae llawer o leoedd gwag. Y ddadl oedd y gall cynnal ysgolion â niferoedd isel o ddisgyblion arwain at gostau anghymesur o uchel fesul disgybl, gan gyfyngu ar y gallu i fuddsoddi'n effeithiol ar draws y rhwydwaith addysg ehangach. O'r safbwynt hwn, roedd ymatebwyr yn credu ei bod yn fwyfwy anodd parhau i weithredu ysgolion bach iawn yn y tymor hir heb ddargyfeirio adnoddau o flaenoriaethau eraill.

Awgrymodd sawl ymatebydd y byddai ailddyrannu adnoddau i ysgolion sydd â mwy o gapasiti yn caniatáu i gyllid gael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol. Y ddadl oedd y gallai ysgolion mwy o faint neu fwy hyfyw fod mewn sefyllfa well i elwa ar arbedion maint, cefnogi arlwy cwricwlwm ehangach, a sicrhau staffio a chapasiti arweinyddiaeth yn fwy cynaliadwy. Yn y cyswllt hwn, credwyd bod ailddosbarthu adnoddau yn ddull pragmatig o sicrhau gwerth am arian a chefnogi darpariaeth addysgol gyson.

Yn gyffredinol, pwysleisiodd ymatebwyr oedd o'r farn hon bwysigrwydd cydbwyso ystyriaethau lleol â'r cyfrifoldeb ehangach i reoli arian cyhoeddus yn effeithlon. Mynegwyd y gred bod penderfyniadau anodd weithiau yn angenrheidiol i ddiogelu cynaliadwyedd hirdymor y system addysg gyfan, a bod

blaenoriaethu defnydd effeithlon o adnoddau yn hanfodol i gynnal ansawdd addysgol a gwydnwch ar draws y rhwydwaith ysgolion.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y farn a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch pwysigrwydd cynaliadwyedd ariannol a'r defnydd effeithlon o adnoddau cyhoeddus mewn trefniadaeth ysgolion. Mae'r ystyriaethau hyn wrth wraidd cyfrifoldebau statudol yr Awdurdod ac maent yn sylfaenol i gynllunio addysg yn effeithiol ac yn gyfrifol.

Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ystyried cynaliadwyedd hirdymor y rhwydwaith ysgolion cyfan yn ofalus. Mae hyn wedi cynnwys asesu a yw'r trefniadau presennol yn gwneud defnydd cymesur ac effeithiol o gyllid cyhoeddus cyfyngedig, yn enwedig lle mae ysgolion yn gweithredu â niferoedd isel iawn o ddisgyblion a llawer o leoedd gwag. Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n cefnogi strwythurau staffio gwydn, ehangder y cwricwlwm ac ansawdd addysgol parhaus ledled y sir.

Nod y cynnig yw mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy alluogi adnoddau i gael eu rheoli'n fwy strategol, lleihau aneffeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â lleoedd gwag a chefnogi ôl troed ysgol mwy cynaliadwy. Bwriad y dull hwn yw diogelu safonau addysgol wrth sicrhau nad yw cyllid cyhoeddus yn cael ei ymrwymo'n anghymesur i ddarpariaeth sy'n fwyfwy anodd ei chynnal dros y tymor hir.

Mae'r gyllideb ysgolion gyffredinol o dan bwysau sylweddol. Mae setliadau cyllido cenedlaethol a lleol heriol, ynghyd â gostyngiad yn nifer y disgyblion, wedi golygu bod yr ôl troed presennol o 94 o ysgolion cynradd, y mae gan lawer ohonynt niferoedd isel iawn o ddisgyblion, yn fwyfwy anghynaladwy. Mae eisoes gan nifer sylweddol o ysgolion ddiffyg neu rhagwelir y bydd ganddynt ddiffyg yn ystod y ddwy flynedd ariannol nesaf ac mae'r gyllideb ysgolion yn rhagweld diffyg o £9.2 miliwn erbyn Mawrth 2026. Gan fod cyllid ysgolion yn seiliedig ar ddisgyblion i raddau helaeth, mae mynd i'r afael â lleoedd gwag a chefnogi nifer llai o ysgolion sy'n gynaliadwy yn ariannol bellach yn flaenoriaeth gorfforaethol.

Mae hyn wedi'i gadarnhau drwy waith craffu allanol. Yn 2023, nododd Estyn fod oedi wrth wneud penderfyniadau wedi cyfyngu ar gynnydd o ran ad-drefnu a moderneiddio'r ddarpariaeth addysg. Yn yr un modd, argymhellodd yr Asesiad Perfformiad gan Banel weithredu Rhaglen Moderneiddio Addysg yr Awdurdod i fynd i'r afael â gormod o leoedd gwag a gwneud y gorau o ôl troed cyffredinol yr ystad ysgolion, lleihau diffygion mewn cyllidebau ysgolion a llywio penderfyniadau buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol.

O ran Ysgol Gynradd Meidrim, rhagwelir y bydd gan yr ysgol ddiffyg o £61k ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26, ynghyd â gorwariant cyfredol o tua £41k yn ystod y flwyddyn. Byddai cyfuno disgyblion yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog yn cryfhau sefyllfaoedd ariannol yr ysgolion hynny drwy gynyddu maint y garfan, gwella dyraniadau cyllid ar sail disgyblion a chefnogi mwy o gynaliadwyedd ariannol hirdymor.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am adeilad ysgol diangen. Yn amodol ar unrhyw ddiddordeb corfforaethol neu gymunedol a nodir, ac yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid, gallai'r safle gael ei roi ar y farchnad agored a disgwylir iddo gynhyrchu derbyniad cyfalaf o oddeutu £150,000.

At ei gilydd, mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau bod cynaliadwyedd ariannol a defnydd effeithlon o adnoddau cyhoeddus yn sbardunau allweddol o ran cynllunio trefniadaeth ysgolion. Mae'r cynnig yn adlewyrchu cyfrifoldeb yr Awdurdod i reoli arian cyhoeddus yn ddarbodus wrth gefnogi system addysg gynaliadwy a gwydn o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion presennol ac anghenion yn y dyfodol ledled y sir.

2.	**Pwrpas ysgolion fel sefydliadau addysgol**	**2**	**0.77%**

Thema gref a chyson ar draws yr ymatebion cefnogol oedd gwahaniaeth clir rhwng pwrpas addysgol ysgolion a swyddogaethau cymunedol ehangach. Dywedodd llawer o ymatebwyr yn glir mai prif rôl ysgol yw darparu addysg, nid cynnal cymunedau, gwarchod adeiladau, neu gyflawni amcanion cymdeithasol neu ddiwylliannol ehangach.

Rhybuddiodd ymgyngoreion cefnogol rhag cyfuno penderfyniadau addysgol â chadwraeth gymunedol. Mynegwyd y farn bod cadw ysgol ar agor i gynnal bywyd y pentref yn bennaf yn peryglu blaenoriaethu teimlad oedolion dros hawl addysgol plant. O'r safbwynt hwn, dadl yr ymatebwyr oedd bod yn rhaid i bolisi addysg fod yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn hytrach nag ar deimladau.

Heriodd sawl ymatebydd yn uniongyrchol y syniad bod yn rhaid i bob pentref gadw ysgol. Y ddadl oedd nad yw'r disgwyliad hwn bellach yn adlewyrchu patrymau modern o ran anheddu, cyflogaeth, trafnidiaeth a dewis y rhieni. Yn eu barn nhw, mae mynnu cadw pob ysgol fach waeth beth fo'i hyfywedd yn rhoi baich afresymol ar y system addysg.

Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod ysgolion yn aml yn cyfrannu at hunaniaeth leol ond yn honni bod y cyfraniad hwn yn llai pwysig nag ansawdd addysgol. Y ddadl oedd na ellir cyfiawnhau ysgol

nad yw bellach yn gallu bodloni disgwyliadau addysgol cyfoes yn rhesymol ar sail ei gwerth symbolaidd i'r gymuned yn unig.

Yn y cyswllt hwn, mynegwyd bod cau'r ysgol yn gydnabyddiaeth o rôl addysgol yr ysgol yn hytrach na gwrthod y gymuned. Pwysleisiodd yr ymatebwyr nad yw cymunedau yn ddibynnol ar ysgolion yn unig ac efallai y byddant yn dod o hyd i ffyrdd eraill o gynnal cydlyniant cymdeithasol y tu allan i'r system addysg.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y farn a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch y manteision posibl sy'n gysylltiedig ag ysgolion mwy, gan gynnwys arbedion maint, mwy o gapasiti staffio, ac arweinyddiaeth gryfach. Mae'n cydnabod y gall y ffactorau hyn gyfrannu mewn modd cadarnhaol at sefydlogrwydd trefniadaethol, hyblygrwydd gweithredol, a chynaliadwyedd hirdymor, yn enwedig o fewn amgylchedd ariannol a gweithlu sy'n fwyfwy heriol. Mae ystyriaethau o'r fath yn berthnasol wrth asesu'r ffordd orau o sicrhau addysg gyson o ansawdd uchel i ddysgwyr.

Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi rhoi ystyriaeth ofalus i gapasiti staffio a chynaliadwyedd arweinyddiaeth, gan gynnwys gallu ysgolion i reoli absenoldeb staff, ymateb i heriau recriwtio, a chynllunio'n effeithiol ar gyfer olyniaeth. Mae ysgolion mwy yn aml mewn sefyllfa well i rannu cyfrifoldebau arwain ar draws sylfaen staff ehangach, cynnal strwythurau rheoli cadarn, a darparu cymorth proffesiynol gan gymheiriaid i dimau addysgu ac arwain. Gall y ffactorau hyn gefnogi parhad, lleihau bregusrwydd, a chryfhau gallu ysgol i wella'n barhaus dros amser.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried y manteision trefniadaethol sy'n gysylltiedig ag arbedion maint. Mae'r rhain yn cynnwys y defnydd mwy effeithlon o staff ac adnoddau ariannol, cyfleoedd i rannu arbenigedd ar draws timau, a mwy o allu i ymdopi â phwysau gweithredol tymor byr a chanolig. Mae arbedion effeithlonrwydd o'r fath yn arbennig o berthnasol wrth ystyried hyfywedd hirdymor a sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei gyfeirio mewn modd sy'n sicrhau'r budd addysgol mwyaf i ddysgwyr ar draws y rhwydwaith ysgolion ehangach.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod o'r farn nad yw effeithiolrwydd ysgolion yn cael ei bennu gan faint yn unig. Mae tystiolaeth gan Estyn yn nodi'n gyson mai arweinyddiaeth o ansawdd uchel ac addysgu effeithiol yn yr ystafell ddosbarth yw'r ffactorau pwysicaf sy'n dylanwadu ar ddeilliannau dysgwyr mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Er y gall maint trefniadaethol gefnogi gwydnwch a chynaliadwyedd, ansawdd yr arweinyddiaeth, ymarfer addysgu, ac adnoddau sy'n pennu llwyddiant addysgol yn y pen draw.

Mae gwaith thematig Estyn yn nodi ymhellach fod arweinyddiaeth gref yn darparu'r cyfeiriad strategol angenrheidiol i ysgogi gwelliant, cryfhau addysgu a dysgu, a sefydlu amgylchedd dysgu cadarnhaol a chynhwysol. Ar wahân i addysgu yn yr ystafell ddosbarth, cydnabyddir gan lawer mai arweinyddiaeth yw'r ffactor pwysicaf sy'n effeithio ar ddeilliannau disgyblion. Yn y cyswllt hwn, mae'r Awdurdod yn hyderus y bydd trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu yn yr ysgolion derbyn yn cefnogi sefydlogrwydd, parhad a safonau parhaus i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o ganlyniad i'r cynnig.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn gapasiti digonol i gynnal a datblygu'n ymhellach addysgu effeithiol, ymarfer cynhwysol, a chymorth priodol i bob dysgwr. Mae eu strwythurau arweinyddiaeth sefydledig, systemau cyson, a threfniadau trefniadaethol tebyg yn darparu sylfaen ddiogel i sicrhau parhad dysgu, llesiant disgyblion, a chynnydd effeithiol.

Yn yr un modd, mae addysg cyfrwng Cymraeg a deilliannau o ran y Gymraeg yn cael eu hategu gan addysgu o ansawdd uchel, cynnydd ieithyddol cyson, a darpariaeth gynaliadwy. Mae'r Awdurdod yn fodlon y gellir cynnal yr elfennau hyn a, lle bo hynny'n briodol, eu cryfhau drwy'r trefniadau a gynigir, gan sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg cryf mewn amgylchedd addysgol cefnogol a hyfyw.

I grynhoi, mae'r Awdurdod yn cydnabod y manteision trefniadaethol a nodwyd gan ymatebwyr, gan gynnwys gwell capasiti staffio, gwydnwch arweinyddiaeth, ac arbedion maint. Mae'r ffactorau hyn wedi llywio'r asesiad cyffredinol o'r cynnig ochr yn ochr â niferoedd disgyblion, nifer y lleoedd gwag, safonau addysgol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a chynaliadwyedd ariannol. At ei gilydd, mae'r ystyriaethau hyn yn rhan o ddull strategol yr Awdurdod o sicrhau darpariaeth addysg hirdymor a chynaliadwy o ansawdd uchel ledled y sir.

3.	**Ansawdd addysgol, ehangder y cwricwlwm, a phrofiad y disgyblion**	**4**	**1.54%**

Tynnodd yr ymatebion cefnogol sylw at bryderon am y cyfyngiadau addysgol sy'n wynebu ysgolion bach iawn. Nododd ymatebwyr fod niferoedd isel o ddisgyblion yn cyfyngu ar allu ysgol i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys ac ar gyfleoedd ar gyfer addysgu arbenigol, gweithgareddau cyfoethogi, a chynnydd.

Un o'r pryderon penodol a fynegwyd oedd yr angen i ddysgu ystod oedran eang o fewn un dosbarth. Dadl yr ymatebwyr oedd, er y gall dysgu oedran cymysg fod yn effeithiol mewn rhai lleoliadau, bod

yr ystod oedran fawr sy'n ofynnol mewn ysgol o'r maint hwn yn gosod gofynion gormodol ar staff ac yn gwneud gwahaniaethu parhaus yn eithriadol o anodd.

Awgrymodd y rhai oedd yn cefnogi'r cynnig fod y cyfyngiadau strwythurol hyn yn effeithio ar brofiad dysgu disgyblion, er gwaethaf ymrwymiad staff addysgu. Mynegwyd pryder efallai na fydd plant yn derbyn yr un ehangder o ran her, cymorth neu amrywiaeth ag y byddent mewn ysgol fwy â sawl dosbarth a disgyblion o'r un oedran.

Cymharodd sawl ymatebydd Ysgol Gynradd Meidrim ag ysgolion cyfagos, gan nodi bod darpariaeth arall yn cynnig gwell cyfleusterau, amgylchedd dysgu mwy cadarn, a gwell cyfleoedd addysgol. O'r safbwynt hwn, ystyriwyd bod cau'r ysgol yn galluogi disgyblion i gael mynediad at brofiadau dysgu cyfoethocach a mwy priodol yn ddatblygiadol.

Yn gyffredinol, nododd ymatebwyr fod ansawdd addysgol yn rhan ganolog o'u cefnogaeth i gau'r ysgol. Y ddadl oedd bod cynnal strwythur ysgol sydd yn y bôn yn cyfyngu ar y gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm ac ar brofiad dysgwyr yn peryglu deilliannau addysgol hirdymor disgyblion.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y farn a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch manteision posibl ysgolion mwy o ran cynnig cyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol ehangach, gan gynnwys mynediad at staff arbenigol, gweithgareddau cyfoethogi ac amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu. Mae'r ystyriaethau hyn wedi bod yn rhan bwysig o asesiad yr Awdurdod wrth ddatblygu'r cynnig ac yn cyd-fynd â dyletswydd yr Awdurdod i sicrhau darpariaeth addysgol o ansawdd uchel i bob dysgwr.

Fel rhan o'r broses werthuso, mae'r Awdurdod wedi asesu'n ofalus allu'r ysgolion derbyn a gynigir i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys yn unol â gofynion statudol a disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru. Mae'r asesiad hwn wedi cynnwys ystyried ehangder y cwricwlwm, arbenigedd staff, capasiti arweinyddiaeth a gallu pob ysgol i gynnal cynnydd ar draws pob grŵp blwyddyn. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn systemau priodol ar waith i sicrhau parhad, cydlyniant a chynnydd mewn dysgu.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried i ba raddau y mae'r ysgolion derbyn yn gallu cynnig cyfleoedd cyfoethogi a mynediad at ddarpariaeth ychwanegol sy'n cefnogi datblygiad ehangach disgyblion. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol, mynediad at gyfleusterau arbenigol, a staff sydd ag arbenigedd proffesiynol neu arbenigedd mewn pwnc penodol. Mae'r elfennau hyn yn cyfrannu at brofiad addysgol diddorol ac amrywiol sy'n cefnogi cyrhaeddiad academaidd, creadigrwydd, datblygiad personol a pharodrwydd ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Wrth adolygu'r materion hyn, mae'r Awdurdod wedi arddel safbwynt ysgol gyfan a system gyfan, gan gydnabod pwysigrwydd darpariaeth addysgol sydd nid yn unig yn effeithiol yn y tymor byr ond hefyd yn gynaliadwy ac yn wydn dros amser. Felly, mae gallu'r ysgolion derbyn i gynnal cwricwlwm eang a chyfleoedd dysgu amrywiol wedi'i ystyried ochr yn ochr â niferoedd disgyblion, gwydnwch staffio, cynaliadwyedd arweinyddiaeth a hyfywedd hirdymor.

Mae'r Awdurdod yn nodi bod dylanwad ansawdd arweinyddiaeth, addysgu ac adnoddau ar effeithiolrwydd ysgolion yn fwy na dylanwad maint absoliwt. Mae tystiolaeth o arolygiadau Estyn yn nodi'n gyson mai arweinyddiaeth gref ac addysgu o ansawdd uchel yw'r ffactorau pwysicaf wrth sicrhau a chynnal deilliannau gwell i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn wedi bod yn ganolog wrth i'r Awdurdod ystyried y cynnig.

Yn y cyswllt hwn, mae'n bwysig nodi bod yr ysgolion derbyn eu hunain yn ysgolion cymharol fach, a bod ganddynt strwythurau dosbarthiadau a dulliau addysgu sy'n debyg i'r rhai y mae'r disgyblion yn gyfarwydd â nhw ar hyn o bryd. Mae'r amgylcheddau dysgu a gynigir yn parhau i fod yn gyfarwydd, yn gefnogol ac yn briodol i'w hoedran. Hefyd, mae trefniadau arweinyddiaeth eisoes wedi'u rhannu ar draws yr ysgolion, gan sicrhau y bydd y weledigaeth, y disgwyliadau, a'r dull addysgegol yn parhau. Ar hyn o bryd bernir bod gan y ddwy ysgol safonau boddhaol, sy'n dangos bod anghenion addysgol dysgwyr yn cael eu diwallu'n briodol ym mhob lleoliad.

Mae gwaith thematig Estyn yn tynnu sylw at y ffaith bod arweinyddiaeth effeithiol yn sail i wella ysgolion drwy ddarparu cyfeiriad strategol clir, cryfhau ymarfer addysgu, a chreu'r amgylchedd lle gall dysgwyr ffynnu. Ar wahân i addysgu yn yr ystafell ddosbarth, cydnabyddir gan lawer mai arweinyddiaeth yw’r ffactor pwysicaf sy’n dylanwadu ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r Awdurdod felly yn hyderus y bydd parhad trefniadau arweinyddiaeth yn cefnogi sefydlogrwydd, cysondeb a safonau parhaus i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o ganlyniad i'r cynnig.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn y gallu i gynnal a datblygu addysgu effeithiol ac ymarfer cynhwysol ymhellach. Mae arweinyddiaeth a rennir, systemau cyson a strwythurau trefniadaethol tebyg yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau parhad dysgu, llesiant disgyblion a chymorth priodol i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn yr un modd, mae addysg cyfrwng Cymraeg a deilliannau o ran y Gymraeg yn cael eu sicrhau drwy addysgu o ansawdd uchel, cynnydd ieithyddol cyson, a darpariaeth gynaliadwy. Mae'r Awdurdod yn hyderus y gellir cynnal y gwaith o ddatblygu sgiliau Cymraeg a, lle bo hynny'n briodol,

ei gryfhau drwy'r trefniadau a gynigir. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan staffio sefydlog, cynllunio cwricwlwm cydlynol a chyfleoedd ystyrlon i ddefnyddio'r iaith.

Mae tystiolaeth arolygu ledled Cymru hefyd yn dangos nad yw darpariaeth llesiant o ansawdd uchel yn dibynnu ar leoliad ffisegol penodol ond yn hytrach ar ymarferwyr medrus, perthnasoedd cyson, a dyluniad cwricwlwm pwrpasol. Mae Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog yn dangos cryfderau yn y meysydd hyn, gan gefnogi llesiant emosiynol disgyblion ochr yn ochr â'u dysgu academaidd.

Yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru, mae'r Awdurdod yn hyderus bod Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog mewn sefyllfa dda i gynnal, hyrwyddo a gwella llesiant disgyblion. Mae hyn yn cynnwys parhad mewn cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, dysgu creadigol a dysgu drwy brofiad, a mynediad at staff sy'n gallu darparu cymorth cyson cyn, yn ystod ac ar ôl trosglwyddo.

Ar y sail hon, er bod yr Awdurdod yn cydnabod barn rhieni ynghylch y manteision canfyddedig sy'n gysylltiedig ag ysgolion bach, nid yw o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at safonau addysgol is nac ansawdd is o ran profiadau'r dysgwyr. Mae'r Awdurdod yn hyderus y byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn amgylcheddau dysgu cefnogol tebyg, wedi'u hategu gan arweinyddiaeth effeithiol, addysgu o ansawdd uchel, darpariaeth llesiant gref a chwricwlwm eang a chytbwys sy'n cyfoethogi.

4.	**Capasiti arweinyddiaeth ac effeithiolrwydd llywodraethu**	**2**	**0.77%**

Roedd capasiti arweinyddiaeth yn thema arall yn yr ymatebion cefnogol. Tynnodd cyfranwyr sylw at y ffaith bod penaethiaid mewn ysgolion bach iawn yn aml yn gorfod addysgu am gyfran sylweddol o'r wythnos, gan adael amser cyfyngedig ar gyfer arweinyddiaeth strategol, cynllunio gwella'r ysgol, datblygiad staff, a goruchwylio diogelu.

Dadl yr ymatebwyr oedd bod y gofynion sy'n cael eu gosod ar arweinwyr ysgolion modern yn sylweddol ac yn parhau i gynyddu. Honnwyd bod amser arweinyddiaeth yn hanfodol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, atebolrwydd, cyfrifoldebau llesiant, ac ymgysylltu ag asiantaethau allanol, ac na ellir bodloni'r gofynion hyn yn ddigonol ochr yn ochr ag ymrwymiadau addysgu helaeth.

Mynegwyd pryderon hefyd am effeithiolrwydd llywodraethu dros gyfnod estynedig. Cwestiynodd rhai ymatebwyr pa gamau yr oedd cyrff llywodraethu wedi'u cymryd dros y degawd diwethaf i fynd i'r afael â'r niferoedd llai ar y gofrestr a hyrwyddo'r ysgol i deuluoedd lleol. Ystyriwyd bod niferoedd isel parhaus o ddisgyblion yn dystiolaeth nad oedd ymyriadau blaenorol wedi bod yn llwyddiannus.

Pwysleisiodd ymgynghoreion cefnogol nad yw gostyngiad hirdymor yn adlewyrchu ymdrechion staff unigol ond yn hytrach cyfyngiadau strwythurol sy'n rhan naturiol o ysgolion bach iawn. Y ddadl oedd nad yw modelau llywodraethu a oedd yn effeithiol o bosib yn y gorffennol bellach yn ddigonol yn y dirwedd addysgol bresennol.

O'r safbwynt hwn, credwyd bod cau ysgol yn ganlyniad heriau cronnol yn hytrach na methiant sydyn. Awgrymodd ymatebwyr fod cydnabod y cyfyngiadau hyn yn rhan o drefniadau llywodraethu cyfrifol a chynllunio hirdymor.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y farn a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch yr heriau sy'n gysylltiedig â chapasiti arweinyddiaeth a llywodraethu mewn ysgolion bach iawn. Tynnodd ymgyngoreion sylw at bryderon am allu timau arwain ysgolion i gydbwyso ymrwymiadau addysgu â chyfrifoldebau strategol, gan gynnwys gwella'r ysgol, goruchwylio diogelu, ac ymgysylltu â phrosesau atebolrwydd. Mae'r materion hyn wedi'u hystyried yn ofalus wrth i'r Awdurdod werthuso'r cynnig.

Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ystyried cymhlethdod cynyddol rolau arwain ysgolion yn y dirwedd addysg bresennol. Mae disgwyliadau sy'n gysylltiedig â Chwricwlwm i Gymru, llesiant, anghenion dysgu ychwanegol, diogelu a pharodrwydd am arolygiad i gyd yn gosod gofynion sylweddol ar arweinwyr ysgolion. Mewn ysgolion bach iawn, lle mae'n ofynnol yn aml i benaethiaid addysgu am gyfran sylweddol o'r wythnos, gall capasiti arweinyddiaeth gael ei gyfyngu, gan gynyddu bregusrwydd trefniadaethol a chyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad strategol parhaus.

Felly, mae'r Awdurdod wedi ystyried manteision gwydnwch arweinyddiaeth, gan gynnwys y gallu i rannu cyfrifoldebau arwain ar draws sylfaen staff ehangach ac i ddarparu her a chymorth proffesiynol mewn timau arwain. Gall trefniadau arweinyddiaeth a rennir neu gydweithredol gryfhau'r broses o wneud penderfyniadau, cefnogi dysgu proffesiynol, a lleihau dibyniaeth ar ddeiliaid un swydd. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at fwy o barhad a sefydlogrwydd gweithredol, yn enwedig yng nghyswllt absenoldeb staff, heriau recriwtio, neu gynllunio olyniaeth. Mae wedi dod yn fwyfwy anodd recriwtio penaethiaid i ysgolion llai a threfniadau rhannu pennaeth.

Mewn perthynas â llywodraethu, mae'r Awdurdod yn cydnabod barn ymatebwyr bod gostyngiad hirdymor yn nifer y disgyblion yn codi cwestiynau am effeithiolrwydd ymyriadau strategol blaenorol. Mae cyrff llywodraethu yn chwarae rôl allweddol wrth osod cyfeiriad strategol, herio perfformiad ysgol, a sicrhau cynaliadwyedd. Pan fo nifer y disgyblion yn gostwng dros gyfnod hir, mae'n briodol

adolygu a yw ffactorau strwythurol neu drefniadaethol wedi cyfyngu ar allu'r corff llywodraethu i sicrhau newid, yn hytrach na phriodoli cyfrifoldeb i lywodraethwyr neu staff unigol.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu yn yr ysgolion derbyn yn darparu digon o gapasiti, gwydnwch ac atebolrwydd i gefnogi disgyblion sy'n trosglwyddo o ganlyniad i'r cynnig. Mae'r trefniadau rhannu arweinyddiaeth presennol yn hyrwyddo parhad o ran gweledigaeth, disgwyliadau ac ymarfer, ac mae strwythurau llywodraethu yn darparu goruchwyliaeth sy'n gymesur â maint a chymhlethdod yr ysgol. At ei gilydd, mae'r trefniadau hyn yn cefnogi sefydlogrwydd, rheolaeth effeithiol a safonau addysgol parhaus.

5.	**Dewis y rhieni, nifer y plant o'r gymuned sy'n derbyn lleoedd a hyfywedd**	**1**	**0.38%**

Roedd dewis y rhieni yn cael sylw mewn ymatebion cefnogol, wrth i ymatebwyr gwestiynu cyfran y plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Meidrim sy'n mynychu'r ysgol mewn gwirionedd. Y ddadl oedd bod patrymau cofrestru yn rhoi arwydd clir o hyder rhieni ac ansawdd addysgol canfyddedig.

Dywedodd yr ymatebwyr cefnogol, os yw teuluoedd yn y gymuned leol yn dewis ysgolion eraill yn gyson, y dylid parchu'r penderfyniad hwn fel mynegiant dilys o farn rhieni. Yn eu barn nhw, mae'r niferoedd isel parhaus sy'n derbyn y lleoedd yn tanseilio dadleuon bod yr ysgol yn hanfodol neu'n cael ei chefnogi'n gryf yn lleol.

Holwyd pam y dylai'r sir ehangach barhau i roi cymhorthdal i ysgol nad yw teuluoedd lleol eu hunain yn dewis ei defnyddio, yn enwedig pan fo ysgolion eraill ar gael o fewn pellter rhesymol.

Dadl yr ymatebwyr hefyd oedd bod dewis y rhieni yn adlewyrchu ystyriaethau ynghylch y dyfodol, megis mynediad at grwpiau cyfoedion, cyfleusterau, sefydlogrwydd a deilliannau addysgol. Pan fydd y ffactorau hyn yn arwain teuluoedd i fannau eraill, roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai hyn lywio penderfyniadau ad-drefnu.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr cefnogol yn ystyried cau'r ysgol yn ganlyniad i batrymau ymddygiad rhieni sydd wedi'u hen sefydlu, yn hytrach nag achos niferoedd is ar y gofrestr. O'r safbwynt hwn, ystyriwyd bod y cynnig yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r galw gwirioneddol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y farn a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch dewis y rhieni ac ymgysylltu â'r gymuned, yn enwedig cyfran y plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Meidrim nad ydynt yn mynychu'r ysgol. Cydnabyddir y gall patrymau dewis y rhieni roi dealltwriaeth ynghylch canfyddiadau o ansawdd addysgol, darpariaeth a hyfywedd hirdymor. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod dewis y rhieni yn ffactor pwysig mewn system addysg fodern ac mae wedi cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad.

Wrth werthuso'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ystyried niferoedd disgyblion a thueddiadau cofrestru dros amser ochr yn ochr â'r galw a ragwelir yn y dyfodol. Mae'r niferoedd isel cyson ar y gofrestr, yn enwedig lle nad yw'n gysylltiedig ag amrywiadau demograffig tymor byr, yn dangos heriau hyfywedd sylfaenol. Pan fydd teuluoedd yn dewis darpariaeth arall yn gyson, gall hyn adlewyrchu ystyriaethau fel ehangder y cwricwlwm, maint grŵp cyfoedion, sefydlogrwydd arweinyddiaeth neu gynaliadwyedd yn y dyfodol, yn hytrach nag agosrwydd yn unig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pryderon ymatebwyr ynghylch tegwch a defnyddio adnoddau cyhoeddus. Mae parhau i weithredu ysgolion sydd â niferoedd isel iawn ar y gofrestr yn golygu bod angen lefel o gymhorthdal nad yw'n adlewyrchu o bosib y nifer gwirioneddol o'r gymuned sy'n derbyn y lleoedd. Yn y cyswllt hwn, mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i ystyried a yw cynnal darpariaeth o'r fath yn gwneud defnydd teg a chymesur o gyllid, yn enwedig pan fo ysgolion eraill ar gael o fewn pellter rhesymol a bod ganddynt y capasiti i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol.

Ar yr un pryd, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod amrywiaeth eang o ffactorau yn dylanwadu ar ddewis y rhieni, gan gynnwys dewis personol, amgylchiadau teuluol a chanfyddiadau o'r ddarpariaeth. Nid yw'r cynnig yn ceisio beirniadu penderfyniadau unigol gan rieni, ond yn hytrach ymateb i batrymau sydd wedi'u hen sefydlu o ran y galw, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor ac ansawdd addysgol ar draws y rhwydwaith ysgolion.

Ar y sail hon, er bod yr Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd ysgolion lleol i gymunedau, mae o'r farn bod niferoedd isel parhaus sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch yn ffactor arwyddocaol wrth asesu hyfywedd parhaus. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod y cynnig yn adlewyrchu patrymau cyfredol a phatrymau a ragwelir o ran y galw gan ddisgyblion ac yn ceisio gofalu bod y ddarpariaeth addysgol yn cyd-fynd â'r nifer gwirioneddol o'r gymuned sy'n derbyn y lleoedd, gan sicrhau bod dysgwyr yn parhau i gael mynediad at addysg o ansawdd uchel mewn lleoliadau hyfyw a chynaliadwy.

8. DADANSODDI'R YMGYNGHORIAD Â DISGYBLION

Ymgynghorwyd â disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim, Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog mewn sesiwn bwrpasol gydag aelodau o'r Cyngor Ysgol. Mae themâu allweddol yr ymatebion i bob ymgynghoriad â disgyblion wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

Ysgol Gynradd Meidrim

Rhif y Pwynt	**Y Pwynt a Godwyd**
Ymgynghori â Disgyblion – Ysgol Gynradd Meidrim	
1.	**Ymlyniad Emosiynol at Ysgol Gynradd Meidrim**
Roedd y disgyblion yn disgrifio Ysgol Gynradd Meidrim yn gyson fel man lle maent yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn emosiynol ddiogel. Cyfeiriodd llawer at y ffaith bod yr ysgol “fel teulu”, gan bwysleisio'r berthynas agos rhwng disgyblion a staff a'r ymdeimlad o ofal a pherthyn maent yn ei gael bob dydd. Roedd y posibilrwydd o gau'r ysgol yn ennyn ymatebion emosiynol cryf, gan gynnwys tristwch, ofn a gofid. Nododd sawl disgybl fod dysgu am y cynnig wedi achosi cryn bryder, a disgrifiodd rhai ymatebion corfforol neu emosiynol i straen. Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn tynnu sylw at y rôl ganolog y mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ei chwarae o ran llesiant emosiynol disgyblion a'u hymdeimlad o sefydlogrwydd.	
Ymateb yr Awdurdod Lleol Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ac yn parchu'r ymlyniad emosiynol cryf y mae disgyblion wedi'i fynegi tuag at Ysgol Gynradd Meidrim. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod disgyblion yn gweld yr ysgol fel amgylchedd diogel, gofalgar a meithringar lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu hadnabod, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, ac mae'n deall bod y posibilrwydd o gau'r ysgol wedi achosi gofid a phryder i lawer. Mae disgrifiadau'r disgyblion o'r ysgol “fel teulu” wedi'u nodi'n ofalus, ac mae'r Awdurdod yn derbyn bod amgylcheddau o'r fath yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi llesiant emosiynol disgyblion a'u hymdeimlad o berthyn. Mae'r farn hon wedi'i hystyried yn llawn fel rhan o'r asesiad llesiant sy'n gysylltiedig â'r cynnig ac wedi llywio ymagwedd yr Awdurdod at gynllunio trosglwyddo a chymorth bugeiliol.	

2.	Pryder am symud i ysgol fwy

Un o brif themâu'r ymatebion oedd pryder am symud i amgylchedd ysgol mwy. Mynegodd disgyblion bryderon am ddosbarthiadau mwy, mwy o sŵn a'r posibilrwydd o deimlo wedi'u llethu neu nad ydynt yn cael sylw. Dywedodd llawer eu bod yn gwerthfawrogi amgylchedd digyffro, rhagweladwy a thawelach Ysgol Gynradd Meidrim ac yn ofni na fyddai hyn yn wir mewn lleoliad mwy. Roedd y pryder hwn yn arbennig o gryf i ddisgyblion sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â newid neu sy'n dibynnu ar arferion cyfarwydd. Mynegodd sawl disgybl hŷn bryder am orfod symud ysgol yn agos at ddiwedd addysg gynradd, gan deimlo y byddai hynny'n achosi tarfu a'i bod yn annheg yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn cydnabod pryderon disgyblion am symud i amgylchedd ysgol mwy, gan gynnwys pryderon am sŵn, maint y dosbarth, amgylchedd anghyfarwydd a theimlo wedi'u llethu. Mae'n derbyn y gall lleoliadau ysgol llai ddarparu amgylchedd tawelach a mwy rhagweladwy sy'n arbennig o fuddiol i rai disgyblion. Wrth asesu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ystyried a yw'r ysgolion derbyn yn gallu cefnogi disgyblion sy'n symud o ysgol fach. Mae'n fodlon bod gan yr ysgolion derbyn systemau, staffio a threfniadau bugeiliol priodol ar waith i roi cymorth a sicrwydd, ac y byddai unrhyw broses drosglwyddo yn cael ei chynllunio'n ofalus i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cefnogi'n emosiynol ac yn addysgol.

3.	Pwysigrwydd dosbarthiadau bach a chymorth unigol

Siaradodd disgyblion yn fanwl am fanteision dosbarthiadau bach a'r cymorth personol maent yn ei dderbyn yn Ysgol Gynradd Meidrim. Disgrifiwyd sut mae staff yn eu deall fel unigolion, yn gwybod sut maent yn dysgu orau ac yn addasu addysgu yn unol â hynny. Roedd y thema hon yn arbennig o amlwg mewn ymatebion gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, cyflyrau meddygol neu sensitifrwydd synhwyraidd. Mynegodd y disgyblion hyn bryder na fyddai ysgol fwy yn gallu darparu'r un lefel o ddealltwriaeth, cymorth ac addasiad unigol ag y maent yn ei derbyn ar hyn o bryd. Dywedwyd bod oedolion cyfarwydd a chymorth cyson yn hanfodol i'w gallu i ddysgu a theimlo'n hyderus.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pwys y mae disgyblion yn ei roi ar ddosbarthiadau bach a chymorth wedi'i bersonoli, yn enwedig gallu staff i ddeall anghenion dysgu unigol ac addasu eu dull gweithredu yn unol â hynny. Cydnabyddir bod hyn yn arbennig o bwysig i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, cyflyrau meddygol neu sensitifrwydd synhwyraidd. Mae'r Awdurdod yn cadarnhau bod ganddo gyfrifoldeb statudol o hyd i sicrhau cymorth priodol i bob dysgwr ac na fyddai'r cyfrifoldeb hwn yn newid pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Byddai anghenion cymorth unigol yn cael eu cynllunio ymlaen llaw drwy gynllunio trosglwyddo, rhannu gwybodaeth fanwl a monitro parhaus i sicrhau parhad y ddarpariaeth ac addasiadau rhesymol priodol.

4.	**Perthynas â Ffrindiau a Staff**

Roedd y posibilrwydd o golli perthynas â ffrindiau a staff yn bryder mawr. Siaradodd y disgyblion am bwysigrwydd eu perthynas â'u ffrindiau, gan gynnwys perthnasoedd oedran cymysg y maent yn eu gwerthfawrogi ac yn teimlo y byddai'n anodd eu hefelychu mewn mannau eraill. Roedd llawer yn poeni am gael eu gwahanu oddi wrth frodyr a chwiorydd, cefndryd neu ffrindiau agos. Mynegodd disgyblion hefyd ymlyniad cryf at athrawon a staff cymorth y maent yn ymddiried ynddynt ac sy'n deall eu hanghenion. Roedd ofn pendant y byddai gorfod ail-greu'r perthnasoedd hyn mewn lleoliad newydd yn heriol yn emosiynol ac yn gallu effeithio ar eu hyder a'u llesiant.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gwerth sylweddol y mae disgyblion yn ei roi ar eu perthynas â ffrindiau ac aelodau staff y maent yn ymddiried ynddynt ac yn deall pryderon am golli'r perthnasoedd hyn. Mae'n derbyn bod eu perthynas â ffrindiau, perthnasoedd oedran cymysg a bod yn gyfarwydd ag oedolion yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at lesiant a hyder disgyblion. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, lle bo hynny'n bosibl byddai trefniadau trosglwyddo yn ceisio cadw grwpiau cyfeillgarwch a darparu cyfleoedd i ddisgyblion feithrin perthynas â staff newydd yn raddol. Byddai ymweliadau ymgyfarwyddo, cyfarfodydd â chymorth a phroses drosglwyddo raddol yn cael eu defnyddio i helpu disgyblion i addasu a datblygu perthnasoedd newydd mewn ffordd gefnogol.

5.	**Teimladau o ddiogelwch a phryderon am fwlio**

Dywedodd llawer o ddisgyblion yn benodol eu bod yn teimlo'n ddiogel yn Ysgol Gynradd Meidrim ac nad yw bwlio yn broblem yn yr ysgol. Mewn cyferbyniad, mynegodd nifer o ddisgyblion ofn y gallai bwlio ddigwydd mewn ysgol fwy, lle efallai nad yw staff yn adnabod disgyblion cystal a lle gallai perthnasoedd fod yn llai personol. Roedd y pryderon hyn yn aml yn gysylltiedig ag ymdeimlad y disgyblion o ddiogelwch emosiynol a'u gallu i ymgysylltu'n gadarnhaol â dysgu. I rai disgyblion, roedd ofn bwlio yn rheswm canolog dros beidio â bod eisiau symud ysgol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod wedi nodi datganiadau clir y disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn Ysgol Gynradd Meidrim a'u pryderon y gallai bwlio ddigwydd mewn ysgolion mwy. Mae'n cydnabod pwysigrwydd canfyddiadau disgyblion o ddiogelwch yn ogystal â'r trefniadau diogelu ffurfiol sydd ar waith. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn weithdrefnau diogelu, polisïau ymddygiad a systemau gwrth-fwlio cryf ar waith, fel y nodir yn y canlyniadau arolygu. Serch hynny, mae'r Awdurdod yn cydnabod pryderon disgyblion ac yn cadarnhau y byddai diogelu, gofal bugeiliol a monitro llesiant yn flaenoriaethau allweddol drwy gydol unrhyw broses drosglwyddo i sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi.

6.	**Y Gymraeg, diwylliant a hunaniaeth gymunedol**

Mynegodd y disgyblion yn glir bwysigrwydd Ysgol Gynradd Meidrim o ran cefnogi'r Gymraeg a chryfhau eu hymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol. Dywedodd llawer eu bod yn falch o fod yn Gymry a defnyddio'r Gymraeg bob dydd, gan nodi bod yr ysgol yn chwarae rhan allweddol wrth gadw'r Gymraeg yn fyw yn y gymuned. Siaradodd disgyblion o gartrefi Saesneg yn gadarnhaol am ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus a datblygu cysylltiad cryf â diwylliant a hanes Cymru drwy'r ysgol. Roedd yr ysgol hefyd yn cael ei hystyried yn ganolog i fywyd y pentref, a mynegodd y disgyblion bryder y byddai cau'r ysgol yn gwanhau cysylltiadau a thraddodiadau cymunedol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn cydnabod barn gref y disgyblion am bwysigrwydd Ysgol Gynradd Meidrim o ran cefnogi'r Gymraeg, diwylliant Cymru a bywyd y gymuned leol. Mae'n cydnabod balchder y disgyblion mewn defnyddio'r Gymraeg a'r rôl y mae'r ysgol yn ei chwarae wrth feithrin hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol. Mae'r Awdurdod yn ailddatgan ei ymrwymiad i addysg cyfrwng Cymraeg

ac yn cadarnhau y byddai disgyblion yn parhau i gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n cefnogi cynnydd ieithyddol, dealltwriaeth ddiwylliannol a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus, yn unol â'r polisi cenedlaethol a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod rôl gymunedol ehangach yr ysgol ac wedi ystyried y ffactorau hyn drwy'r Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned ac ar y Gymraeg.

7.	Effaith newid, trosglwyddo ac ansicrwydd

Roedd ansicrwydd a'r posibilrwydd o newid yn brif ffynonellau pryder i lawer o ddisgyblion. Dywedodd sawl un fod ymdopi â newid yn arbennig o anodd iddynt gan fynegi pryder am beidio â gwybod beth fyddai'n digwydd nesaf. I rai disgyblion, roedd yr ansicrwydd hwn yn effeithio ar eu llesiant emosiynol yn sylweddol. Nododd nifer o ddisgyblion y byddai'n well ganddynt gael addysg yn y cartref yn hytrach na symud i ysgol gynradd arall, yn enwedig y rhai sy'n agosáu at ddiwedd Blwyddyn 6. Mae'r ymatebion hyn yn tynnu sylw at y pwys y mae'r disgyblion yn ei roi ar sefydlogrwydd a rhagweladwyedd yn eu hamgylchedd addysgol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall ansicrwydd a newid fod yn arbennig o heriol i blant a bod y posibilrwydd o symud ysgol wedi achosi pryder i rai disgyblion. Mae'n derbyn bod sefydlogrwydd ac arferion yn ffactorau pwysig o ran llesiant emosiynol disgyblion, yn enwedig i'r rhai sy'n agosáu at ddiwedd addysg gynradd neu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â newid. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Awdurdod yn sicrhau proses cynllunio trosglwyddo gadarn sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan roi sylw penodol i ddisgyblion sy'n agored i niwed ac amgylchiadau unigol. Byddai cymorth trosglwyddo yn raddol, yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion y disgyblion, gan roi cymorth ychwanegol lle bo angen.

8.	Pryderon am yr amgylchedd a theithio

Mynegodd rhai disgyblion bryderon am golli'r gallu i gerdded i'r ysgol a'r ddibyniaeth gynyddol ar deithio mewn car, pe bai'r ysgol yn cau. Roeddent yn cysylltu hyn ag arferion dyddiol maent yn eu gwerthfawrogi, eu hannibyniaeth ac ystyriaethau amgylcheddol ehangach. Ar gyfer y disgyblion hyn, ystyriwyd bod teithiau hirach a newidiadau i drefniadau teithio yn ganlyniad negyddol ychwanegol i'r cynnig.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn nodi pryderon disgyblion ynghylch mwy o deithio, colli'r gallu i gerdded i'r ysgol a'r effaith amgylcheddol bosibl. Mae'n cydnabod bod arferion dyddiol ac annibyniaeth yn bwysig i ddisgyblion a theuluoedd. Byddai'r trefniadau cludiant yn cael eu rheoli yn unol â Pholisi'r Cyngor ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, gan sicrhau mai'r hyn sy'n ddiogel, yn addas ac yn rhesymol yw'r ystyriaethau craidd. Mae ffactorau amgylcheddol wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad ehangach, ochr yn ochr â chynaliadwyedd addysgol a dyletswyddau statudol.

9.	**Negeseuon disgyblion i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad**

Roedd y disgyblion yn glir ac yn ddiamwys yn eu negeseuon i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad. Gofynnodd llawer am beidio â chau'r ysgol gan fynegi teimladau nad oedd eu barn wedi'i cheisio yn ddigon cynnar. Anogodd y disgyblion y rhai sy'n gwneud y penderfyniad i edrych ar ffyrdd eraill o fynd i'r afael â heriau, gan gynnwys bod yn greadigol wrth ddod o hyd i atebion sy'n caniatáu i ysgolion bach barhau ar agor. Gofynnodd sawl disgybl i oedolion ymweld ag Ysgol Gynradd Meidrim i weld sut mae'n eu cefnogi, gan ei disgrifio fel ysgol ag ymdeimlad cryf o ofal, cynhwysiant a chymuned.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn cydnabod negeseuon clir y disgyblion yn gofyn i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad ystyried atebion eraill a chydnabod gwerth eu hysgol. Mae'n deall teimladau disgyblion bod eu lleisiau yn bwysig ac yn nodi eu dymuniad am greadigrwydd a hyblygrwydd wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n cael eu hwynebu. Er bod yn rhaid i'r Awdurdod wneud penderfyniadau yn seiliedig ar amrywiaeth o ystyriaethau statudol, addysgol ac ariannol, mae llais disgyblion wedi bod yn elfen bwysig o'r broses ymgynghori ac wedi helpu'r Awdurdod i ddeall sut y gall cynigion effeithio ar blant yn uniongyrchol.

Crynodeb o farn disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad â disgyblion yn dangos darlun pwerus a chyson o Ysgol Gynradd Meidrim fel amgylchedd meithringar, cynhwysol ac emosiynol arwyddocaol y mae disgyblion yn teimlo cysylltiad dwfn ag ef. Er bod rhai disgyblion yn gallu nodi'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â mynychu ysgol wahanol, roedd y rhain yn cael eu gorbwyso'n fawr gan bryderon am lesiant, perthnasoedd, diogelwch,

iaith a hunaniaeth. O safbwynt y disgyblion, mae'r cynnig i gau'r ysgol yn golygu mwy na newid ysgol yn unig; mae'n golygu colled emosiynol a phersonol sylweddol y maent yn ofni y gallai gael effaith barhaol ar eu hapusrwydd a'u gallu i ddysgu. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y farn gref hon a dyfnder yr ymlyniad a fynegwyd gan y disgyblion, ac yn cadarnhau eu bod wedi cael eu hystyried yn ofalus ochr yn ochr â chyngor proffesiynol, asesiadau statudol a thystiolaeth ehangach. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod y disgyblion yn cael eu cefnogi drwy drefniadau trosglwyddo cynhwysfawr a sensitif sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gyda ffocws cryf ar lesiant, parhad ac anghenion unigol.

Ysgol Griffith Jones

Rhif y Pwynt	**Y Pwynt a Godwyd**
Ymgynghori â Disgyblion - Ysgol Griffith Jones	
1.	**Agored i ddisgyblion newydd ac agweddau cadarnhaol**
Mynegodd disgyblion Ysgol Griffith Jones agwedd gadarnhaol a chroesawgar yn gyffredinol at y posibilrwydd y bydd disgyblion o ysgol arall yn ymuno â'u hysgol. Tynnodd sawl ymateb sylw at gyffro am gael mwy o blant i chwarae gyda nhw, gwneud ffrindiau newydd o oedran tebyg, a gweithio gyda nhw. Nododd disgyblion fanteision posibl o ran mwy o gyfleoedd cymdeithasol a grŵp cyfoedion ehangach, gan awgrymu diwylliant ysgol agored a chynhwysol yn gyffredinol.	
Ymateb yr Awdurdod Lleol Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r agwedd gadarnhaol a chynhwysol a fynegwyd gan ddisgyblion Ysgol Griffith Jones at y posibilrwydd y bydd disgyblion o ysgol arall yn ymuno â'u cymuned ysgol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod disgyblion yn agored i groesawu cyd-ddisgyblion newydd ac yn gwerthfawrogi eu cydnabyddiaeth y gall mwy o ryngweithio â chyfoedion greu cyfleoedd ar gyfer cyfeillgarwch, cydweithio a dysgu a rennir. Mae'r farn hon yn dangos diwylliant cryf o gynhwysiant ac agwedd gadarnhaol yn yr ysgol, sy'n sylfaen bwysig ar gyfer cefnogi proses drosglwyddo lwyddiannus pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.	

2.	Cyfleoedd ar gyfer dysgu a chyfleusterau

Roedd y disgyblion yn cydnabod y gallai croesawu disgyblion ychwanegol wella mynediad at gyfleusterau a phrofiadau dysgu. Cyfeiriwyd at gael ystafelloedd dosbarth gwahanol a mannau a rennir fel y gampfa, yr ystafell gerdd a'r neuadd fawr, yn ogystal â mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith grŵp a chydweithio. Mae'r ymatebion hyn yn dangos bod disgyblion yn ystyried amgylchedd ffisegol ac adnoddau'r ysgol fel rhywbeth cadarnhaol a allai gefnogi cymuned ysgol fwy.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn nodi barn y disgyblion y gallai cyfleusterau, mannau dysgu ac adnoddau'r ysgol gefnogi cymuned ysgol fwy a chreu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer dysgu a chydweithio. Mae cyfeiriadau'r disgyblion at fannau a rennir fel y neuadd, y gampfa a'r ystafelloedd arbenigol yn adlewyrchu dealltwriaeth ynghylch sut y gall yr amgylchedd ffisegol wella profiadau addysgol. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan Ysgol Griffith Jones y gallu i wneud defnydd effeithiol o'i chyfleusterau i gefnogi carfan ehangach o ddisgyblion wrth gynnal safonau uchel o addysgu a dysgu.

3.	Ymwybyddiaeth o anghenion emosiynol a charedigrwydd

Er bod disgyblion yn gadarnhaol yn gyffredinol, roedd ymwybyddiaeth glir hefyd y gallai ymuno ag ysgol newydd fod yn heriol i'r disgyblion newydd. Mynegodd y disgyblion obaith y byddai pawb yn garedig gan gydnabod y gall newid achosi tristwch neu bryder. Mae hyn yn dangos empathi a dealltwriaeth emosiynol, wrth i'r disgyblion gydnabod y gall disgyblion newydd deimlo'n bryderus neu'n ansicr.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y ffaith bod y disgyblion yn deall y gall ymuno ag ysgol newydd fod yn heriol yn emosiynol i'r disgyblion newydd a'u pwyslais ar garedigrwydd, sicrwydd a dealltwriaeth. Mae'n croesawu ymwybyddiaeth empathetig disgyblion y gall newid achosi pryder neu dristwch ac mae'n meddwl bod hyn yn ddangosydd pwysig o aeddfedrwydd emosiynol ac ethos ysgol gofalgar. Mae'r farn hon yn cyd-fynd yn agos ag ymrwymiad yr Awdurdod i lesiant disgyblion ac i sicrhau bod unrhyw drefniadau trosglwyddo yn blaenoriaethu sicrwydd a chymorth emosiynol.

4.	Helpu disgyblion newydd i ymgartrefu

Rhoddodd y disgyblion awgrymiadau ystyriol ynghylch sut y gallent helpu disgyblion newydd i deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cefnogi. Roedd y rhain yn cynnwys bod yn gyfeillgar, creu grwpiau cyfeillgarwch, helpu disgyblion newydd i ddod i adnabod yr ysgol drwy deithiau o'i hamgylch, cynnig sicrwydd os bydd rhywun yn teimlo'n bryderus neu'n drist, a helpu gyda gwaith ysgol pan fo angen. Tynnodd disgyblion sylw hefyd at bwysigrwydd sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel, gan ddangos dealltwriaeth o agweddau ymarferol ac emosiynol ar ymgartrefu mewn amgylchedd ysgol newydd.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn nodi ac yn gwerthfawrogi'r ffyrdd ymarferol ac ystyriol yr awgrymodd y disgyblion y gallent gefnogi disgyblion newydd, gan gynnwys gwneud ffrindiau, cynnig help gyda dysgu, rhoi teithiau o amgylch yr ysgol a rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n teimlo'n bryderus o bosib. Mae pwyslais disgyblion ar ddiogelwch a chynhwysiant yn adlewyrchu diwylliant bugeiliol cryf yn yr ysgol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cymorth gan gyfoedion yn chwarae rôl bwysig wrth helpu plant i ymgartrefu a byddai'n ceisio adeiladu ar y dull cadarnhaol hwn drwy weithgareddau pontio strwythuredig ac arweiniad staff pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

5.	Cydnabod yr amser trosglwyddo ac addasu

Thema glir yn yr ymatebion oedd y ddealltwriaeth y byddai angen caniatáu amser o bosib i ddisgyblion sy'n symud o ysgol lai addasu i leoliad mwy. Dywedodd y disgyblion yn benodol y dylai oedolion gofio nad yw addasu yn digwydd ar unwaith a bod angen amser i ymgartrefu ar ôl symud ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu aeddfedrwydd a dealltwriaeth ynghylch y broses drosglwyddo ac yn cyd-fynd ag arferion gorau wrth helpu disgyblion drwy newid.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn nodi'n benodol ddealltwriaeth disgyblion y gallai trosglwyddo o ysgol lai i leoliad mwy gymryd amser ac nad yw addasu yn digwydd ar unwaith. Mae negeseuon y disgyblion sy'n annog oedolion i ganiatáu digon o amser i ymgartrefu yn cyd-fynd yn llawn ag arferion gorau wrth gynllunio trosglwyddo. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, mae'r Awdurdod yn cadarnhau y

byddai'r trefniadau trosglwyddo yn raddol ac yn hyblyg, gan gydnabod bod disgyblion yn ymateb i newid ar gyflymder gwahanol ac y gallai fod angen lefelau amrywiol o gymorth.	
6.	**Negeseuon i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad**
Pwysleisiodd y disgyblion ei bod yn bwysig bod oedolion yn cofio'r effaith y gall newid ei chael ar blant, yn enwedig yr angen am amser, amynedd a chymorth. Mae eu hymatebion yn awgrymu bod disgyblion yn gwerthfawrogi penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ag empathi a dealltwriaeth o brofiadau bywyd disgyblion.	
Ymateb yr Awdurdod Lleol Mae'r Awdurdod yn cydnabod negeseuon y disgyblion i oedolion sy'n gwneud penderfyniadau, yn enwedig eu pwyslais ar empathi, amynedd ac ymwybyddiaeth o sut mae newid yn effeithio ar blant. Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth llais disgyblion wrth ddarparu dealltwriaeth ynghylch profiad bywyd ac yn cadarnhau bod y farn hon wedi llywio ei ddealltwriaeth o'r ffordd orau o gefnogi disgyblion drwy unrhyw gyfnod trosglwyddo. Mae sylwadau'r disgyblion yn pwysleisio'r pwysigrwydd bod penderfyniadau yn cael eu hategu gan broses cynllunio bugeiliol gref a chyfathrebu clir.	

Crynodeb o farn disgyblion Ysgol Griffith Jones

Yn gyffredinol, mynegodd disgyblion Ysgol Griffith Jones ymateb cadarnhaol, croesawgar ac empathetig i'r posibilrwydd y bydd disgyblion yn ymuno â'u hysgol. Nododd y disgyblion fanteision cymdeithasol a manteision cysylltiedig â dysgu a chyfleusterau gan ddangos ymwybyddiaeth gref o'r heriau emosiynol sy'n gysylltiedig â symud a nodi'n glir ffyrdd y gallent gefnogi disgyblion newydd drwy garedigrwydd, cyfeillgarwch, diogelwch a sicrwydd. Mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu diwylliant ysgol sy'n gwerthfawrogi cynhwysiant, cydweithio a llesiant, ochr yn ochr â dealltwriaeth bod angen amser a chymorth gofalus i sicrhau proses drosglwyddo lwyddiannus. Mae'r Awdurdod Lleol yn cael ei galonogi gan y farn hon ac mae'n credu ei bod yn rhoi sicrwydd y byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones yn ymuno â chymuned ysgol ofalgar a chefnogol, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Bydd yr Awdurdod yn parhau i roi pwyslais sylweddol ar hyrwyddo arferion cynhwysol a

sicrhau bod trefniadau trosglwyddo yn sensitif, wedi'u cynllunio'n dda ac yn ymatebol i anghenion y disgyblion.

Ysgol Hafodwenog

Rhif y Pwynt	**Y Pwynt a Godwyd**
Ymgynghori â Disgyblion - Ysgol Hafodwenog	
1.	**Agweddau cadarnhaol at groesawu disgyblion newydd**
Mynegodd disgyblion Ysgol Hafodwenog deimladau cadarnhaol a brwdfrydig am y posibilrwydd y bydd disgyblion o ysgol arall yn ymuno â'u cymuned ysgol. Disgrifiodd y Cyngor Ysgol deimladau o gyffro a hapusrwydd, sy'n dangos bod y syniad o groesawu disgyblion newydd yn cael ei ystyried fel rhywbeth cadarnhaol. Mae hyn yn adlewyrchu diwylliant disgyblion agored, cyfeillgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn barod i dderbyn newid a pherthnasoedd newydd.	
Ymateb yr Awdurdod Lleol Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r farn gadarnhaol a brwdfrydig a fynegwyd gan y Cyngor Ysgol yn Ysgol Griffith Jones ynghylch y posibilrwydd y bydd disgyblion o ysgol arall yn ymuno â'u cymuned. Mae'r Awdurdod yn cydnabod cyffro a hapusrwydd y disgyblion am y posibilrwydd o groesawu cyd-ddisgyblion newydd ac yn gwerthfawrogi'r agwedd gynhwysol ac agored a ddangoswyd. Mae'r farn hon yn adlewyrchu ethos ysgol cefnogol a chroesawgar, y mae'r Awdurdod yn ei ystyried yn sylfaen bwysig ar gyfer galluogi disgyblion i integreiddio'n llwyddiannus pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.	
2.	**Cyfleoedd ar gyfer dysgu estynedig a chyfoethogi**
Tynnodd y Cyngor Ysgol sylw at amrywiaeth eang o gyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol sydd ar gael yn Ysgol Hafodwenog a fyddai'n fuddiol i ddisgyblion newydd yn eu barn nhw. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau diwylliannol fel yr Eisteddfod, chwaraeon a gwersi cerdd ac offerynnol, gweithgareddau Cymraeg, nofio ac addysg gorfforol. Cyfeiriodd disgyblion hefyd at glybiau a darpariaeth cyfoethogi, gan nodi gwerth gweithgareddau ar ôl ysgol fel Clwb Hwyl, sy'n cynnig profiadau amrywiol gan gynnwys coginio, beicio a gweithgareddau creadigol. Roedd y	

disgyblion o'r farn bod y cyfleoedd hyn yn nodweddion cadarnhaol o fywyd ysgol sy'n cefnogi dysgu a mwynhad.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y disgyblion wedi nodi'r amrywiaeth eang o gyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol sydd ar gael yn Ysgol Hafodwenog, gan gynnwys gweithgareddau diwylliannol, darpariaeth chwaraeon, gwersi cerdd ac offerynnol, nofio ac addysg gorfforol. Mae cyfeiriad y disgyblion at gyfleoedd cyfoethogi, gan gynnwys darpariaeth ar ôl ysgol fel Clwb Hwyl, yn tynnu sylw at ehangder y profiadau sydd ar gael i gefnogi dysgu a llesiant y disgyblion a'u mwynhad o'r ysgol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth cyfleoedd o'r fath wrth gefnogi datblygiad cyfannol ac mae'n fodlon bod modd parhau i ddarparu'r rhain yn effeithiol yn yr ysgol.

3.	**Ymwybyddiaeth o'r angen am amser i ymgartrefu**

Er bod y disgyblion yn gadarnhaol, dangoswyd dealltwriaeth hefyd y gall ymuno ag ysgol newydd gymryd amser. Nododd y Cyngor Ysgol y gallai gymryd ychydig o amser i bawb ddod i adnabod ei gilydd, gan gydnabod y gallai fod angen cyfnod addasu ar ddisgyblion newydd. Mae hyn yn dangos empathi ac ymwybyddiaeth o effaith emosiynol symud ysgol ar blant ac yn tynnu sylw at ddealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd amynedd a chymorth.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn nodi cydnabyddiaeth y disgyblion y gallai gymryd amser i ddisgyblion newydd ddod i adnabod eraill a theimlo'n gyfforddus mewn amgylchedd ysgol newydd. Mae hyn yn dangos dealltwriaeth ystyriol ac empathetig o'r heriau sy'n gysylltiedig â symud ysgol. Mae'r Awdurdod yn cytuno nad yw addasu yn digwydd ar unwaith ac yn cadarnhau, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, y byddai trefniadau trosglwyddo yn ystyried yr angen am amser, sicrwydd ac ymgartrefu'n raddol i gefnogi llesiant emosiynol y disgyblion.

4.	**Cymorth gan gyfoedion ac arferion cynhwysol**

Nododd y disgyblion amrywiaeth o gamau cefnogol y gallent eu cymryd i helpu disgyblion newydd i deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys. Roedd y rhain yn cynnwys siarad â disgyblion newydd, chwarae gyda nhw, eu helpu i gymysgu ag eraill a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael allan. Cyfeiriodd y Cyngor Ysgol hefyd at ddulliau strwythuredig o ran cymorth gan gyfoedion, fel

defnyddio llysgenhadon disgyblion â bathodynnau a system gyfeillio, yn ogystal â chymorth ymarferol fel dangos disgyblion newydd o amgylch yr ysgol ac osgoi eu llethu. Mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cryf ymhlith disgyblion i garedigrwydd, cynhwysiant a chyfrifoldeb ar y cyd am lesiant.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn croesawu'r camau gweithredu ymarferol a chynhwysol a nodwyd gan ddisgyblion i helpu disgyblion newydd i deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cefnogi. Mae'r rhain yn cynnwys siarad â disgyblion newydd, chwarae gyda nhw, eu helpu i gymysgu ag eraill, defnyddio system gyfeillio a rolau llysgenhadon disgyblion, a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael allan. Mae'r Awdurdod yn nodi'n arbennig bwyslais y disgyblion ar osgoi llethu disgyblion newydd a sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cynnwys. Mae'r dulliau hyn dan arweiniad cyfoedion yn cyd-fynd yn dda ag arferion gorau wrth gefnogi proses drosglwyddo lwyddiannus a byddent yn cael eu hannog a'u cefnogi drwy waith cynllunio trosglwyddo strwythuredig a goruchwyliaeth staff.

5.	**Cynnwys plant iau a pharhad**

Nododd y disgyblion yn benodol bwysigrwydd croesawu'r Cylch Meithrin, gan ddangos ymwybyddiaeth o gynnwys y blynyddoedd cynnar a pharhad o fewn cymuned yr ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth o strwythur ehangach yr ysgol a phwysigrwydd sicrhau bod plant mewn cyfnodau gwahanol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys yn gyfartal.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn cydnabod sylwadau'r disgyblion ynglŷn â phwysigrwydd croesawu'r Cylch Meithrin a sicrhau bod plant iau yn cael eu cynnwys yng nghymuned yr ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth y disgyblion o barhad ar draws cyfnodau oedran a phwysigrwydd arferion cynhwysol o'r blynyddoedd cynnar ymlaen. Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth cysylltiadau cryf rhwng darpariaeth blynyddoedd cynnar a chymuned ehangach yr ysgol wrth gefnogi proses drosglwyddo hwylus a phrofiadau cynnar cadarnhaol o addysg.

6.	**Cysylltiadau cymunedol cryf a'r ysgol fel hwb cymunedol**

Rhoddodd y Cyngor Ysgol bwyslais cryf ar rôl yr ysgol yn y gymuned leol. Tynnodd y disgyblion sylw at amrywiaeth o weithgareddau cymunedol sy'n gysylltiedig â'r ysgol, gan gynnwys ciniawau

cymunedol, bingo, boreau coffi, digwyddiadau casglu sbwriel, diwrnodau diwylliannol, sioeau Nadolig a gwirfoddoli. Cyfeiriodd y disgyblion hefyd at gyfranogiad mewn sefydliadau diwylliannol a chymunedol Cymraeg fel 'Yr Aelwyd', Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig a Diwrnod Shwmae/Su'mae. Mae'r ymatebion hyn yn dangos dealltwriaeth y disgyblion o'r ysgol fel canolbwynt ar gyfer bywyd cymunedol a chysylltiad cymdeithasol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn nodi ac yn gwerthfawrogi pwyslais y Cyngor Ysgol ar y cysylltiadau cymunedol cryf sy'n gysylltiedig ag Ysgol Hafodwenog. Mae cyfeiriadau disgyblion at giniawau cymunedol, digwyddiadau diwylliannol, gwirfoddoli, gweithgareddau casglu sbwriel, boreau coffi a mentrau diwylliannol Cymraeg ehangach yn tynnu sylw at rôl yr ysgol fel canolbwynt ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gweithgareddau o'r fath yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at ymdeimlad o berthyn, ymwybyddiaeth ddinesig a hunaniaeth gymunedol disgyblion ac mae wedi ystyried y ffactorau hyn drwy'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.

7.	**Negeseuon i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad**

Yn eu negeseuon i oedolion, mynegodd disgyblion y farn y gallai cynyddu nifer y disgyblion gefnogi hyfywedd parhaus Ysgol Hafodwenog ac ehangu cyfleoedd i ddisgyblion. Disgrifiwyd yr ysgol fel lle i blant fod yn hapus gan bwysleisio'r pwysigrwydd bod yr ysgol yn aros ar agor. Mae'r sylwadau hyn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth y disgyblion o gynaliadwyedd a'u dymuniad am benderfyniadau sy'n cefnogi deilliannau addysgol a chymunedol cadarnhaol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn cydnabod negeseuon y disgyblion ynglŷn â phwysigrwydd cynaliadwyedd Ysgol Hafodwenog a'u barn y gallai cynyddu nifer y disgyblion gefnogi cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion a hyfywedd hirdymor. Mae'r Awdurdod yn nodi pwyslais y disgyblion ar yr ysgol fel lle hapus a chefnogol. Er bod yn rhaid i benderfyniadau gael eu llywio gan amrywiaeth o ystyriaethau statudol, addysgol ac ariannol, mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth llais disgyblion o ran tynnu sylw at brofiadau bywyd a dyheadau, ac mae'r farn hon wedi'i hystyried fel rhan o'r asesiad ehangach.

Crynodeb o farn disgyblion Ysgol Hafodwenog

Ar y cyfan, mae ymatebion Cyngor Ysgol Hafodwenog yn cyflwyno safbwynt cynhwysol, cymunedol a chadarnhaol iawn. Dangosodd y disgyblion frwdfrydedd dros groesawu disgyblion newydd, empathi i'r rhai sy'n wynebu newid, a pharodrwydd clir i chwarae rhan weithredol wrth gefnogi eraill drwy gymorth gan gyfoedion ac arferion cynhwysol. Mae eu barn yn tynnu sylw at gryfderau'r ysgol mewn gweithgareddau cyfoethogi, diwylliant Cymru, ymgysylltu â'r gymuned a chyfrifoldeb a rennir, gan adlewyrchu diwylliant disgyblion sy'n gwerthfawrogi caredigrwydd, perthyn a llesiant. Mae'r Awdurdod Lleol yn cael ei galonogi gan y farn hon ac mae'n credu y byddai'r cryfderau hyn yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol ac ategu trefniadau trosglwyddo effeithiol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Crynodeb Cyffredinol o Adborth o'r Ymgynghoriad â Disgyblion (Pob un o'r tair ysgol)

Mae'r broses ymgynghori â disgyblion wedi rhoi gwybodaeth gynhwysfawr a gwerthfawr am brofiadau, blaenoriaethau a phryderon bywyd disgyblion ar draws y tair ysgol dan sylw. At ei gilydd, mae'r ymatebion yn cyflwyno darlun cytbwys sy'n ystyried elfennau emosiynol, gan adlewyrchu effaith sylweddol y cynnig ar ddisgyblion Ysgol Gynradd Meidrim a'r agweddau cynhwysol, empathetig a chroesawgar a fynegwyd gan ddisgyblion Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog.

Llesiant Emosiynol, Ymlyniad ac Ymdeimlad o Berthyn

Mynegodd disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim gysylltiad emosiynol dwfn â'u hysgol, gan ei disgrifio'n gyson fel amgylchedd diogel, meithringar a theuluol lle maent yn teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi. I'r disgyblion hyn, mae'r ysgol yn chwarae rhan ganolog wrth gefnogi eu llesiant emosiynol, eu hyder a'u hymdeimlad o hunaniaeth. Roedd y cynnig i gau'r ysgol yn cael ei ystyried gan lawer fel colled bersonol sylweddol yn hytrach na dim ond newid ysgol, gan ennyn teimladau o dristwch, pryder, ofn ac ansicrwydd. Roedd y pryderon yn arbennig o gryf ymhlith disgyblion sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â newid a'r rhai sy'n agosáu at ddiwedd addysg gynradd, y nodwyd bod sefydlogrwydd yn arbennig o bwysig iddynt.

Roedd y disgyblion yn yr ysgolion derbyn a gynigir yn dangos empathi ac ymwybyddiaeth emosiynol gref yn gyson. Er eu bod yn gadarnhaol ynglŷn â chroesawu disgyblion newydd, roeddent hefyd yn cydnabod y gall symud ysgol fod yn

heriol a chreu pryder neu dristwch. Ar draws Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog, dangosodd disgyblion ddealltwriaeth o effaith emosiynol newid gan bwysleisio bod caredigrwydd, amynedd a sicrwydd yn chwarae rhan ganolog wrth helpu eraill i ymgartrefu'n llwyddiannus.

Trefniadau Trosglwyddo, Newid ac Addasu

Daeth trefniadau trosglwyddo i'r amlwg fel thema allweddol ar draws pob ymgynghoriad. Mynegodd disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim bryder sylweddol am symud i amgylchedd ysgol mwy, gan nodi pryderon am fwy o sŵn, arferion anghyfarwydd, dosbarthiadau mwy ac ofn teimlo nad ydych yn cael sylw. Roedd gan y pryderon hyn gysylltiad agos â dibyniaeth disgyblion ar gynefindra, rhagweladwyedd a chymorth cyson gan oedolion.

Mewn cyferbyniad, dangosodd disgyblion Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog ddealltwriaeth gref bod addasu yn cymryd amser. Mynegwyd yn glir na ddylid disgwyl i ddisgyblion newydd ymgartrefu ar unwaith ac y dylai oedolion fod yn hyblyg ac yn amyneddgar. Roedd eu hymatebion yn adlewyrchu aeddfedrwydd ac ymwybyddiaeth, gan gyd-fynd yn agos ag arferion gorau wrth gefnogi disgyblion drwy newid.

Perthnasoedd, Cymorth gan Gyfoedion a Diogelwch

Nodwyd yn gyson fod perthnasoedd cryf yn ganolog i brofiad ysgol disgyblion. Roedd disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim yn rhoi gwerth mawr ar eu perthnasoedd â ffrindiau, gan gynnwys perthnasoedd oedran cymysg, ac ar berthynas ddibynadwy â staff sy'n deall eu hanghenion unigol. Mynegodd llawer bryderon am golli'r perthnasoedd hyn a'r her emosiynol sy'n gysylltiedig ag ailfeithrin ymddiriedaeth a hyder mewn lleoliad newydd. Roedd cysylltiad agos rhwng teimlo'n ddiogel â chynefindra, a dywedodd y disgyblion yn aml eu bod yn teimlo'n ddiogel yn Ysgol Gynradd Meidrim gan fynegi pryder y gallai bwlio ddigwydd mewn amgylchedd mwy, llai personol.

I'r gwrthwyneb, dangosodd disgyblion yn yr ysgolion derbyn ymrwymiad cryf i gynhwysiant a chymorth gan gyfoedion. Awgrymodd y disgyblion ffyrdd ymarferol o gefnogi disgyblion newydd, gan gynnwys systemau cyfeillio, llysgenhadon disgyblion, grwpiau cyfeillgarwch, teithiau o amgylch yr ysgol a chyfleoedd chwarae a rennir. Pwysleisiodd y disgyblion bwysigrwydd sicrhau nad oes neb yn teimlo ei fod ar ei ben ei hun a bod amgylcheddau diogel a chroesawgar yn cael eu creu'n fwriadol.

Cyfleoedd Dysgu, Cyfoethogi a'r Amgylchedd

Tynnodd disgyblion Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog sylw at fanteision eu hamgylchedd dysgu, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau a rennir, mannau arbenigol ac amrywiaeth eang o gyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol. Disgrifiodd disgyblion Ysgol Hafodwenog, yn benodol, brofiadau cyfoethog sy'n gysylltiedig â diwylliant Cymru, cerddoriaeth, chwaraeon, dysgu yn yr awyr agored a darpariaeth ar ôl ysgol, gan gydnabod bod y rhain yn nodweddion cadarnhaol sy'n cefnogi mwynhad, hyder a llesiant.

Mynegwyd pryderon am yr amgylchedd a theithio yn bennaf gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Meidrim, a dynnodd sylw at werth cerdded i'r ysgol, annibyniaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol. Roedd teithiau hirach a newidiadau i arferion dyddiol yn cael eu hystyried yn heriau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

Y Gymraeg, Diwylliant a Chymuned

Roedd y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol yn cael llawer o sylw ym mhob un o'r tri ymgynghoriad. Mynegodd disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim falchder mewn defnyddio'r Gymraeg bob dydd a phryder y gallai cau'r ysgol leihau defnydd y Gymraeg a chydlyniant cymunedol. Dangosodd disgyblion Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog ymgysylltiad cryf â'r Gymraeg, diwylliant a bywyd cymunedol hefyd drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol, gweithgareddau cyfoethogi a mentrau cymunedol.

Cynllunio a Chefnogi Trosglwyddo

Ar draws y tri ymgynghoriad, pwysleisiodd ymatebion y disgyblion yn gryf bwysigrwydd trefniadau trosglwyddo sensitif, wedi'u cynllunio'n dda, sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Tynnodd disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim sylw at yr angen am sicrwydd, sefydlogrwydd a pharhad, a phwysleisiodd disgyblion yn yr ysgolion derbyn bwysigrwydd caredigrwydd, amynedd a chaniatáu amser i ymgartrefu. Mae'r adborth hwn yn pwysleisio'r angen am broses cynllunio trosglwyddo sy'n raddol, yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion unigol.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i roi trefniadau trosglwyddo cadarn ar waith sy'n sicrhau bod llesiant disgyblion yn ganolog. Byddai hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar â disgyblion a theuluoedd, cyfleoedd ar gyfer ymweliadau ymgyfarwyddo, cadw grwpiau cyfeillgarwch lle bo hynny'n bosibl,

dulliau strwythuredig ar gyfer cymorth gan gyfoedion, rhannu gwybodaeth fanwl rhwng ysgolion, a gwell cymorth bugeiliol yn ystod ac ar ôl y broses drosglwyddo. Byddai sylw arbennig yn cael ei roi i ddisgyblion sy'n agored i niwed, y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a disgyblion sy'n agosáu at ddiwedd addysg gynradd, gan sicrhau bod y cymorth wedi'i deilwra, yn gymesur ac yn barhaus.

Casgliadau Cyffredinol

Ar draws pob ymgynghoriad, dangosodd y disgyblion ymgysylltiad ystyriol, aeddfedrwydd emosiynol a dealltwriaeth glir o sut mae newid yn effeithio ar blant. Daeth llesiant, perthnasoedd, diogelwch, sefydlogrwydd a charedigrwydd i'r amlwg fel blaenoriaethau cyson. Tra bod disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim yn canolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei werthfawrogi ac yn ofni ei golli, canolbwyntiodd disgyblion Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog ar sut y gallent helpu i sicrhau bod eraill yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu cefnogi a'u cynnwys.

Yn gyffredinol, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad â disgyblion yn tynnu sylw at arwyddocâd emosiynol y cynnig ar gyfer y disgyblion yr effeithir arnynt a chryfderau'r ysgolion derbyn wrth hyrwyddo cynhwysiant, empathi a chymorth bugeiliol. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd llais disgyblion ac yn cadarnhau bod y farn hon wedi'i hystyried yn ofalus ochr yn ochr ag asesiadau statudol a chyngor proffesiynol. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae'r adborth yn pwysleisio'n gryf yr angen am ddull trosglwyddo gofalus a thosturiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan sicrhau bod pob disgybl yn cael ei gefnogi i deimlo'n ddiogel a'i fod yn cael ei werthfawrogi ac yn gallu ffynnu yn ei amgylchedd ysgol newydd.

9. YMATEB ESTYN

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig hwn “yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf”. Mae themâu allweddol ymateb Estyn yn cael eu crynhoi yn y tabl isod. Mae ymateb llawn Estyn wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Rhif y Pwynt	**Y Pwynt a Godwyd**
Sylwadau Estyn	
1.	**Safonau a hyfywedd addysgol cyffredinol**
Barn gyffredinol Estyn yw bod y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf. Mae'r casgliad hwn yn adlewyrchu safbwynt system gyfan yn hytrach na barn am effeithiolrwydd yr ysgol o ddydd i ddydd yn unig. Er bod Estyn yn cydnabod bod gan Ysgol Gynradd Meidrim gryfderau amlwg, mae o'r farn bod yr heriau strwythurol sy'n wynebu'r ysgol yn cyfyngu ar ei gallu i gynnal gwelliant dros amser. Er bod y ddogfen ymgynghori yn cofnodi bod yr ysgol wedi cael ei thynnu o'r categori mesurau arbennig, mae Estyn yn nodi bod manylion cyfyngedig am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn argymhellion arolygu unigol. At ei gilydd, mae hyn yn arwain Estyn at y casgliad nad yw'r ad-drefnu a gynigir yn peri risg i safonau addysgol cyffredinol ac y gallai gynnig mwy o sefydlogrwydd hirdymor i ddysgwyr.	
Ymateb yr Awdurdod Lleol Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu casgliad Estyn bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y cryfderau a nodwyd yn Ysgol Gynradd Meidrim ac yn cydnabod ymdrechion y staff a chymuned ehangach yr ysgol, yn enwedig ar ôl i'r ysgol gael ei thynnu o'r categori mesurau arbennig. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cytuno ag asesiad Estyn bod yr heriau strwythurol sy'n gysylltiedig â niferoedd isel o ddisgyblion, capasiti arweinyddiaeth a chynaliadwyedd yn cyfyngu ar allu'r ysgol i sicrhau a chynnal gwelliant hirdymor. Wrth gyflwyno'r cynnig hwn, mae'r Awdurdod wedi ceisio sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael mynediad at amgylchedd addysgol sefydlog a chynaliadwy sy'n gallu sicrhau safonau cyson dros amser. Mae'r Awdurdod yn hyderus bod yr ad-drefnu a gynigir yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynnal safonau a chefnogi cynnydd addysgol parhaus dysgwyr wrth fynd i'r afael â'r risgiau tymor hir a nodwyd gan Estyn.	

2.	**Nifer isel y disgyblion a chynaliadwyedd hirdymor**
Thema gyson yn ymateb Estyn yw effaith niferoedd disgyblion ar gynaliadwyedd. Mae Estyn yn cydnabod bod y niferoedd wedi aros yn gyson ar y cyfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n pwysleisio eu bod yn parhau i fod yn sylweddol is na chapasiti'r ysgol, gan arwain at gyfran uchel iawn o leoedd gwag. Mae hyn yn cael ei ystyried yn fater strwythurol parhaus yn hytrach nag amrywiad tymor byr. Mae Estyn yn derbyn y gall ysgolion gwledig bach fod yn effeithiol, ond mae'n nodi bod y cyfuniad o'r niferoedd isel ar y gofrestr, hyblygrwydd staffio cyfyngedig a phwysau ariannol yn cynyddu'r risg na ellir cynnal effeithiolrwydd. Mae'r dadansoddiad hwn yn cefnogi safbwynt y ddogfen ymgynghori bod cadw'r *status quo* yn annhebygol o ddatrys yr heriau sylfaenol i hyfywedd yn y tymor hir.	
Ymateb yr Awdurdod Lleol Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi cydnabyddiaeth glir Estyn bod niferoedd isel y disgyblion yn Ysgol Gynradd Meidrim yn her strwythurol barhaus yn hytrach nag amrywiad dros dro. Er ei fod yn cydnabod y gall ysgolion gwledig bach ddarparu profiadau addysgol cadarnhaol, mae'r Awdurdod yn cytuno bod y cyfuniad o niferoedd isel cyson ar y gofrestr, hyblygrwydd staffio cyfyngedig a phwysau ariannol cysylltiedig yn creu risgiau cynyddol i gynaliadwyedd hirdymor. Felly, mae'r Awdurdod o'r farn y byddai cynnal y *status quo* yn annhebygol o ddatrys y materion sylfaenol hyn neu ddarparu sylfaen gynaliadwy ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Wrth gyflwyno'r cynnig hwn, mae'r Awdurdod yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau hyn yn rhagweithiol drwy sicrhau trefniadau addysgol mwy gwydn sy'n gallu cefnogi darpariaeth gyson a hyfywedd hirdymor i ddysgwyr.	
3.	**Pwysau ariannol a defnyddio adnoddau'n effeithlon**
Mae Estyn yn nodi bod pwysau ariannol parhaus yn ffactor arwyddocaol sy'n ategu'r cynnig. Mae'r ymateb yn tynnu sylw at y sefyllfa barhaus o ddiffyg ariannol yn Ysgol Gynradd Meidrim a'r gost gymharol uchel fesul disgybl o'i chymharu â chyfartaledd y sir. Mae Estyn yn derbyn bod ystyriaethau ariannol yn rhan fawr o'r rhesymeg dros gau'r ysgol, ond mae'n ystyried hyn fel pryder dilys yng nghyswllt atebolrwydd cyhoeddus a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Ar yr un pryd, mae Estyn yn rhoi gair o rybudd ynghylch cynaliadwyedd ariannol yn Ysgol Hafodwenog, gan nodi bod y gwelliannau a ragwelir yn dibynnu ar lefelau trosglwyddo disgyblion ac nad yw'r	

trefniadau wrth gefn wedi'u hegluro'n llawn. Ar y cyfan, mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn ffordd gredadwy o fynd i'r afael â lleoedd gwag a gwella gwerth am arian, ar yr amod bod risgiau ariannol yn yr ysgolion derbyn yn cael eu rheoli'n weithredol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod barn Estyn bod pwysau ariannol yn ffactor arwyddocaol a pherthnasol yn y cynnig. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cysylltiad agos rhwng diffygion parhaus yn y gyllideb a chostau fesul disgybl uwch na'r cyfartaledd yn Ysgol Gynradd Meidrim a niferoedd isel parhaus o ddisgyblion a lefelau uchel o leoedd gwag. Yng nghyswllt cyfrifoldebau ehangach i sicrhau defnydd effeithiol a theg o adnoddau cyhoeddus, mae'r Awdurdod o'r farn ei bod yn angenrheidiol mynd i'r afael â'r aneffeithlonrwydd hwn. Er ei fod yn cydnabod nad ystyriaethau ariannol yw'r unig ffactor sy'n sbarduno newid, mae'r Awdurdod yn cytuno ag Estyn bod y cynnig yn darparu dull posibl o wella cynaliadwyedd ariannol hirdymor, yn amodol ar fonitro a rheoli sefyllfaoedd ariannol yr ysgolion derbyn yn ofalus.

4.	**Ansawdd profiadau dysgu a chyflwyno'r cwricwlwm**

Mae Estyn yn derbyn dadl yr ymgynghoriad y gallai dysgwyr elwa ar well cyfleoedd dysgu yn yr ysgolion eraill. Mae'r ymateb yn pwysleisio y gallai mynediad at gyfleusterau gwell, cwricwlwm ehangach a grŵp cyfoedion ehangach wella profiadau addysgol a chymdeithasol disgyblion. Mae Estyn o'r farn bod y manteision disgwyliedig hyn yn rhesymol yn hytrach nag yn ddamcaniaethol, gan nodi bod lleoliadau ysgol mwy o faint neu fwy sefydlog fel arfer mewn sefyllfa well i gefnogi cydweithio, cydlyniant cwricwlwm a gweithgareddau cyfoethogi. Mae'r asesiad hwn yn cyd-fynd â phwyslais y ddogfen ymgynghori ar ddarpariaeth Cwricwlwm i Gymru a manteision dysgu mewn cymuned addysgol ehangach.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi bod gan y cynnig y potensial i ddarparu manteision addysgol i ddysgwyr drwy fynediad at gyfleusterau gwell ac amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu. Mae'r Awdurdod o'r farn bod mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, cydweithio ac ymgysylltu â grŵp cyfoedion ehangach yn ffactorau pwysig wrth gefnogi datblygiad addysgol a phersonol disgyblion. Yn unol â'r ddogfen ymgynghori, mae'r Awdurdod o'r farn bod yr ysgolion derbyn a gynigir mewn sefyllfa well i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cyd-fynd â

Chwricwlwm i Gymru, ac i gynnig cyfleoedd cyfoethogi gwell. Ystyrir bod y ffactorau hyn yn cryfhau'r profiad addysgol cyffredinol sydd ar gael i ddisgyblion yn y tymor hir.

5.	Capasiti arweinyddiaeth a sefydlogrwydd

Mae cynaliadwyedd arweinyddiaeth yn cael ei nodi gan Estyn fel ystyriaeth allweddol. Y farn yw bod diffyg pennaeth parhaol yn Ysgol Gynradd Meidrim, ynghyd ag ymrwymiadau addysgu sylweddol, yn cyfyngu ar gapasiti'r ysgol ar gyfer arweinyddiaeth strategol, hunanwerthuso a gwella hirdymor. Mewn cyferbyniad, nodir bod gan yr ysgolion derbyn drefniadau arweinyddiaeth mwy diogel, ac mae Estyn o'r farn bod hyn yn gryfder o ran gwydnwch addysgol. Fodd bynnag, mae Estyn hefyd yn dweud nad yw'r trefniadau arweinyddiaeth parhaol yn Ysgol Hafodwenog yn y dyfodol wedi'u nodi'n gwbl fanwl, sy'n dangos rhywfaint o ansicrwydd gweddilliol. Yn gyffredinol, mae Estyn yn ystyried sefydlogrwydd arweinyddiaeth fel cyfiawnhad cryf dros y cynnig, wrth nodi'r angen am eglurder wrth ei weithredu.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod sylwadau Estyn ynglŷn â phwysigrwydd sefydlogrwydd arweinyddiaeth wrth gynnal gwelliant ysgolion. Er ei fod yn cydnabod ymdrechion staff Ysgol Gynradd Meidrim, mae'r Awdurdod yn derbyn bod diffyg pennaeth parhaol yn rhoi pwysau ychwanegol ar gapasiti arweinyddiaeth ac yn cyfyngu ar allu'r ysgol i gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol. Mewn cyferbyniad, mae'r ysgolion derbyn ar hyn o bryd yn elwa ar drefniadau arweinyddiaeth mwy diogel, ac mae'r Awdurdod yn credu bod y rhain yn hanfodol ar gyfer cynnal safonau, cefnogi staff ac ysgogi gwelliant. Felly, mae cynaliadwyedd arweinyddiaeth wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu'r cynnig, gyda'r nod o sicrhau strwythurau arweinyddiaeth mwy gwydn i ddisgyblion yn y dyfodol.

6.	Dosbarthiadau oedran cymysg a chymhlethdod addysgu

Mae Estyn yn arddel safbwynt cytbwys ar addysgu oedran cymysg. Mae'n cydnabod yn benodol y gall dosbarthiadau oedran cymysg fod yn effeithiol gan dynnu sylw at Ysgol Hafodwenog fel enghraifft o hyn. Fodd bynnag, mae Estyn hefyd yn nodi bod cyflawni ehangder llawn y cwricwlwm drwy ddosbarthiadau oedran cymysg yn mynd yn fwyfwy cymhleth mewn ysgolion bach iawn sydd â chapasiti staffio cyfyngedig. Mae hyn yn cefnogi dadansoddiad y ddogfen

ymgynghori bod cynllunio'r cwricwlwm a chynnydd yn arbennig o heriol yn Ysgol Gynradd Meidrim. Felly, nid yw ymateb Estyn yn beirniadu addysgu oedran cymysg mewn egwyddor ond yn pwysleisio bod maint a hyblygrwydd staffio yn hanfodol o ran ei lwyddiant.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi asesiad cytbwys Estyn o addysgu oedran cymysg, gan gydnabod y gall trefniadau o'r fath fod yn effeithiol pan fo digon o gapasiti staffio a hyblygrwydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cytuno bod cyflawni ehangder llawn y cwricwlwm yn mynd yn fwyfwy heriol mewn ysgolion bach iawn lle mae dosbarthiadau'n cynnwys ystodau oedran eang ac mae adnoddau staffio yn gyfyngedig. Mae'r heriau hyn yn gosod gofynion ychwanegol ar gynllunio, asesu a chynnydd. Felly, mae'r Awdurdod o'r farn bod maint presennol y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Meidrim yn cyfyngu ar allu'r ysgol i barhau i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol dros amser, gan atgyfnerthu'r achos dros adolygu'r trefniadau presennol.

7.	**Adeiladau, addasrwydd ac amgylchedd dysgu**

Mae addasrwydd adeiladau'r ysgol yn cael ei drin gan Estyn fel ffactor addysgol perthnasol. Mae'r ymateb yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng sgôr addasrwydd Gradd C Ysgol Gynradd Meidrim a sgôr Gradd B yr ysgolion derbyn. Mae Estyn yn derbyn y gall yr amgylchedd ffisegol ddylanwadu ar y gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm, trefniadaeth ysgol a phrofiad y dysgwr, ac felly mae'n ystyried addasrwydd adeiladau yn rhan ddilys o'r achos addysgol cyffredinol. Mae hyn yn pwysleisio dadl y ddogfen ymgynghori bod cyfyngiadau adeiladau yn rhoi pwysau ychwanegol ar addysgu a dysgu yn yr ysgol bresennol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod barn Estyn bod addasrwydd adeiladau ysgol yn ffactor perthnasol wrth gefnogi addysgu a dysgu effeithiol. Mae'r Awdurdod yn nodi'r gwahaniaeth mewn sgoriau addasrwydd rhwng Ysgol Gynradd Meidrim a'r ysgolion derbyn a gynigir ac mae'n derbyn y gall cyfyngiadau adeiladau gyfyngu ar hyblygrwydd trefniadaethol a'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm. Er ei fod yn cydnabod nad yw cyflwr adeiladau ar ei ben ei hun yn pennu ansawdd addysgol, mae'r Awdurdod o'r farn bod adeiladau gwell yn cynnig mwy o botensial i gefnogi dulliau addysgu modern, llesiant dysgwyr a'r gwaith o weithredu Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol.

Mae hyn felly wedi bod yn rhan o'r ystyriaeth ehangach o'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

8.	Yr effaith ar y gymuned ac ystyriaethau gwledig

Mae Estyn yn cydnabod yn glir bod cau'r ysgol yn debygol o gael effaith negyddol ar y gymuned leol, yn enwedig o ystyried rôl yr ysgol fel lleoliad ar gyfer sefydliadau a gweithgareddau cymunedol. Mae colli'r adeilad fel hwb cymunedol yn cael ei nodi fel her sylweddol. Fodd bynnag, mae Estyn hefyd yn nodi bod y ddogfen ymgynghori yn nodi ffactorau lliniarol, gan gynnwys y ffaith bod neuadd gymunedol arall ar gael. Yn bwysig ddigon, mae Estyn yn cadarnhau bod y gofynion gweithdrefnol ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig wedi cael sylw priodol. Er y cydnabyddir bod yr effaith ar y gymuned yn un wirioneddol ac ystyrlon, nid yw Estyn o'r farn ei fod yn ddigonol i orbwyso'r ystyriaethau addysgol a chynaliadwyedd a amlinellir mewn man arall yn y cynnig.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi cydnabyddiaeth Estyn bod y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim yn debygol o gael effaith negyddol ar y gymuned leol, yn enwedig o ystyried rôl yr ysgol fel hwb cymunedol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd y rôl hon mewn cymunedau gwledig ac wedi ystyried y goblygiadau yn ofalus fel rhan o'r broses ymgynghori. Er bod cyfleusterau cymunedol eraill ar gael yn yr ardal, mae'r Awdurdod yn derbyn bod colli mynediad at adeilad yr ysgol yn creu heriau. Mae'r effeithiau hyn wedi'u pwyso a'u mesur ochr yn ochr ag ystyriaethau ynghylch cynaliadwyedd addysgol, ac mae'r Awdurdod yn fodlon bod y gofynion ychwanegol sy'n ymwneud ag ysgolion gwledig wedi cael sylw priodol.

9.	Llesiant dysgwyr, trefniadau pontio a theithio

Mae Estyn o'r farn bod llesiant dysgwyr a hygyrchedd wedi cael ystyriaeth briodol. Mae'r ymateb yn nodi bod amseroedd teithio a ragwelir i ysgolion eraill yn aros o fewn terfynau statudol a bod trefniadau teithio yn cyd-fynd â pholisïau'r awdurdod lleol. Mae Estyn yn rhoi pwyslais arbennig ar bwysigrwydd prosesau pontio wedi'u cynllunio'n dda, cyfathrebu'n glir â theuluoedd a chymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Er bod tarfu yn cael ei gydnabod fel risg sydd ynghlwm wrth ad-drefnu, mae

Estyn yn fodlon bod y mesurau a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn gallu lliniaru'r effeithiau negyddol posibl ar ddisgyblion.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi barn Estyn bod llesiant, hygyrchedd a threfniadau teithio dysgwyr wedi cael ystyriaeth briodol yn y cynnig. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall ad-drefnu ysgol fod yn gyfnod ansicr i ddisgyblion a theuluoedd ac felly mae wedi ymrwymo i sicrhau bod trefniadau pontio yn cael eu cynllunio'n ofalus a'u cefnogi. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr amseroedd teithio a ragwelir yn aros o fewn terfynau statudol ac y bydd cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi'r Cyngor lle mae disgyblion yn gymwys. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau parhad gofal a chymorth drwy gydol y broses drosglwyddo.

10.	**Gwerthusiad cytbwys ac ymwybyddiaeth o risg**

Yn olaf, mae tôn Estyn drwy gydol yr ymateb yn adlewyrchu dull cytbwys a gwerthusol yn hytrach na chymeradwyaeth ddiamod. Mae cryfderau Ysgol Gynradd Meidrim, yn enwedig ei hethos gofalgar a'i rôl gymunedol, yn cael eu cydnabod ochr yn ochr â manteision addysgol y cynnig. Ar yr un pryd, mae Estyn yn nodi risgiau ac ansicrwydd, gan gynnwys parhad arweinyddiaeth a chynaliadwyedd ariannol yn yr ysgolion derbyn. Mae hyn yn dangos bod cefnogaeth Estyn i'r cynnig yn amodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gyda disgwyliad y bydd y risgiau a nodwyd yn cael eu hystyried drwy gynllunio a gweithredu'n ofalus.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu gwerthusiad cytbwys Estyn o'r cynnig sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r Awdurdod yn nodi cydnabyddiaeth Estyn o gryfderau Ysgol Gynradd Meidrim, gan gynnwys ei hethos gofalgar a'i phwysigrwydd i'r gymuned leol, ochr yn ochr â'r heriau yn ymwneud â chynaliadwyedd, arweinyddiaeth a hyfywedd ariannol. Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ceisio pwyso a mesur y manteision a'r risgiau yn ofalus a chymharu goblygiadau cynnal y *status quo* â'r rhai sy'n gysylltiedig â newid. Mae'r Awdurdod yn hyderus, drwy gynllunio'n briodol a monitro'n barhaus, bod y cynnig yn cynnig ffordd gynaliadwy ymlaen sy'n cefnogi anghenion addysgol dysgwyr wrth fynd i'r afael â'r heriau tymor hir a nodwyd.

Crynodeb

I grynhoi, mae ymateb Estyn yn darparu asesiad ystyriol, seiliedig ar dystiolaeth o'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim. Er iddo gydnabod cryfderau'r ysgol, gan gynnwys ei hethos gofalgar a'i rôl yn y gymuned, mae Estyn yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gynnal safonau addysgol ar draws yr ardal, o leiaf. Mae Estyn yn tynnu sylw at heriau parhaus yn ymwneud â niferoedd isel y disgyblion, capasiti arweinyddiaeth, cynaliadwyedd ariannol a lleoedd gwag, ac mae'n cytuno bod cynnal y *status quo* yn annhebygol o fynd i'r afael â'r materion hyn yn y tymor hir. Ar yr un pryd, mae Estyn yn cydnabod bod yr ysgolion derbyn a gynigir yn darparu manteision addysgol posibl drwy fwy o sefydlogrwydd, gwell cyfleusterau a chyfleoedd dysgu ehangach. Er ei fod yn nodi meysydd risg, yn enwedig mewn perthynas â chynaliadwyedd a phontio, mae barn gyffredinol Estyn yn cefnogi asesiad yr Awdurdod Lleol bod y cynnig yn ffordd hyfyw a chynaliadwy ymlaen, yn amodol ar ei weithredu'n ofalus a'i fonitro'n barhaus.

10. OPSIYNAU ERAILL

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r opsiynau eraill a ddaeth i law i'w hystyried yn ystod y cyfnod ymgynghori, dadansoddiad yr Awdurdod Lleol o'r opsiynau eraill hynny a'i ymateb iddynt. Mae'r opsiynau hyn yn ychwanegol at y 4 opsiwn sydd eisoes wedi'u hystyried yn y ddogfen ymgynghori, y mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod ei ddadansoddiad ohonynt yn dal i fod yn ddilys.

Opsiwn 5 – Creu Hwb Cymunedol	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae'n adeiladu ar gysylltiad lleol cryf ag Ysgol Gynradd Meidrim fel canolbwynt i fywyd y pentref.	Dim gofyniad statudol na chyllid gwarantedig i'r Awdurdod Lleol sefydlu neu gynnal hwb cymunedol.
Posibilrwydd o ddarparu lle ar gyfer gweithgareddau cymunedol, cyfarfodydd, defnydd Cymraeg ac ymgysylltu rhwng cenedlaethau.	Mae'n dibynnu ar ffynonellau ansicr o gyllid cyfalaf. Mae costau refeniw parhaus (cyfleustodau, cynnal a chadw, yswiriant, staffio a chydymffurfiaeth â materion diogelu)

	yn debygol o fod yn fwy na'r incwm a gynhyrchir.
Gallai gadw presenoldeb cymunedol amlwg yn y pentref os bydd darpariaeth addysg statudol yn dod i ben.	Gall sylfaen boblogaeth gyfyngedig yn y pentref gyfyngu ar ddefnydd a hyfywedd hirdymor.
Mae'n cyd-fynd â chanllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru sy'n annog defnydd cymunedol o adeiladau ysgol.	Mae angen trefniadau ychwanegol o ran llywodraethu, capasiti rheoli ac atebolrwydd.
	Efallai y bydd angen buddsoddiad cyfalaf ar gyfer yr adeilad ysgol i fodloni gofynion hygyrchedd, iechyd a diogelwch neu ddefnydd cymunedol.
	Byddai'n golygu bod yn rhaid i'r Cyngor ymrwymo i drefniant trwydded anghonfensiynol lle na fyddai ganddo feddiant neilltuedig o'r safle i ddarparu addysg.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gweithio mewn partneriaeth o bosib gyda grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol neu asiantaethau eraill.	Anghynaladwyedd ariannol ar ôl i gyllid neu grantiau tymor byr ddod i ben.
Defnydd posibl ar gyfer gweithgareddau Cymraeg, mentrau llesiant, gofal plant neu ddysgu oedolion.	Risg na fydd yn cael ei defnyddio digon, gan arwain at gostau parhaus heb ddigon o fudd i'r gymuned.
Cyfle i edrych ar opsiynau trosglwyddo asedau cymunedol, yn amodol ar ddichonoldeb a chapasiti lleol.	Mae'n dargyfeirio adnoddau cyfyngedig y Cyngor oddi wrth ddarpariaeth addysg statudol yn ystod

	cyfnod lle mae pwysau ariannol sylweddol.
Mynediad at gyllid grant allanol am gyfnod penodol ar gyfer prosiectau neu weithgareddau penodol.	Capasiti cymunedol cyfyngedig i reoli, llywodraethu neu ariannu'r ased yn annibynnol.
	Colli derbyniad cyfalaf posibl o waredu'r safle, gan leihau'r arian sydd ar gael ar gyfer blaenoriaethau addysgol eang.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Asesir bod yr opsiwn arfaethedig yn cael effaith niwtral i anuniongyrchol ar ansawdd a safonau addysg yn gyffredinol. Er y gallai gynnig sicrwydd tymor byr i rai rhanddeiliaid, nid yw'n cyflwyno unrhyw fecanweithiau clir a fyddai'n gwella safonau addysgol yn uniongyrchol neu'n gwella canlyniadau hirdymor i ddysgwyr.

Yn benodol, nid yw'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd addysgol ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys niferoedd isel a niferoedd disgyblion sy'n gostwng, gallu arweinyddiaeth cyfyngedig, cyfyngiadau ar led y cwricwlwm, a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chynnal darpariaeth o ansawdd uchel mewn lleoliadau bach iawn. Heb ddatrys y problemau strwythurol hyn, mae risg o hyd y gallai safonau ddod yn fwyfwy anodd eu cynnal dros amser.

At hynny, nid yw'r opsiwn hwn yn dileu nac yn lleihau'r angen am ad-drefnu darpariaeth addysg yn ehangach ar draws y system. Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i sicrhau safonau addysgol cyson i bob dysgwr, sy'n gofyn am fynd i'r afael â chapasiti dros ben, sicrhau strwythurau arweinyddiaeth gwydn a chefnogi darpariaeth cwricwlwm gynaliadwy. Felly, er y gallai'r opsiwn hwn ddarparu dewis arall dros dro, nid yw'n negyddu'r angen am ad-drefnu strategol i sicrhau cysondeb, ansawdd a gwydnwch hirdymor ar draws y system addysg.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Gallai'r opsiwn dan ystyriaeth gael rhai effeithiau cadarnhaol tymor byr i'r gymuned leol, yn enwedig drwy sicrhau bod man cyfarfod lleol cyfarwydd a

hygyrch yn parhau i fod ar gael. Gallai cadw'r safle ar gyfer gweithgarwch cymunedol gefnogi rhyngweithio cymdeithasol, darparu lle i grwpiau a digwyddiadau lleol, a helpu i gynnal ymdeimlad o barhad a hunaniaeth leol yn y tymor agos. I rai trigolion, gallai hyn gynnig sicrwydd a chadw cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymunedol anffurfiol.

Fodd bynnag, mae manteision hirdymor yr opsiwn hwn yn ansicr. Byddai hyfywedd cyfleuster cymunedol yn dibynnu'n fawr ar gyllid cynaliadwy, trefniadau llywodraethu effeithiol a lefelau parhaus o gyfranogiad cymunedol. Yn niffyg cyllid statudol neu fodel gweithredol hirdymor clir, mae risg sylweddol y byddai'r cyfleuster yn cael trafferth talu costau cynnal parhaus, gan gynnwys gofynion cynnal a chadw, cyfleustodau, yswiriant a chydymffurfiaeth. Mae'r ansicrwydd hwn yn cyfyngu ar i ba raddau y gellir sicrhau canlyniadau cymunedol cadarnhaol hirdymor.

Mae risg hefyd, pe na bai trefniadau cyllido neu reoli cynaliadwy yn cael eu rhoi ar waith neu eu cynnal dros amser, y gallai'r cyfleuster gau yn y dyfodol. Byddai hyn yn arwain at darfu o'r newydd i'r gymuned a gallai arwain at fwy o ansicrwydd ynghylch defnydd y safle yn y dyfodol. Felly, er y gallai'r opsiwn hwn gynnig manteision cymunedol byrdymor, mae risgiau hirdymor yn gysylltiedig ag ef a allai danseilio ei allu i sicrhau cyfraniad sefydlog a pharhaol at lesiant cymunedol yn y pen draw.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gyfyngedig ar drefniadau teithio disgyblion, gan nad yw'n cynnig ateb addysg nac yn cynnwys newidiadau i drefniadaeth y ddarpariaeth ysgolion statudol. Felly, nid yw'n mynd i'r afael â'r trefniadau teithio sydd eisoes yn ofynnol neu'n eu newid i sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at addysg mewn man arall, ac nid yw'n dileu'r angen am ystyriaeth ehangach o gludiant o'r cartref i'r ysgol fel rhan o unrhyw waith ad-drefnu addysg.

O safbwynt cymunedol, gall cadw cyfleuster lleol at ddefnydd anaddysgol ddarparu rhywfaint o fudd i ddefnyddwyr cymunedol drwy leihau'r angen i deithio i leoliadau eraill ar gyfer cyfarfodydd neu weithgareddau. I'r rhai sy'n gallu cael

mynediad at y safle yn lleol, gallai hyn gefnogi cyfleustra a hygyrchedd yn y tymor byr. Fodd bynnag, o'i ystyried yn ehangach, mae'r goblygiadau cludiant cyffredinol sy'n deillio o'r opsiwn hwn yn fach. Nid yw'r opsiwn yn lleihau'n sylweddol y galw am deithio gan ddisgyblion na'r costau cludiant cysylltiedig, nac yn helpu i fynd i'r afael ag ystyriaethau cludiant ehangach ar draws y system sy'n gysylltiedig â darpariaeth addysg gynaliadwy. O ganlyniad, mae ei effaith ar drefniadau teithio yn gyfyngedig ac yn anuniongyrchol i raddau helaeth.
Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn • Nid yw'n mynd i'r afael â'r problemau addysgol craidd o ran niferoedd isel y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd arweinyddiaeth a hyfywedd hirdymor. • Risg ariannol barhaus uchel heb unrhyw gymorth ariannol statudol. • Mae'n dibynnu ar gyllid allanol ansicr, capasiti cymunedol a galw hirdymor. • Mae cadw'r adeilad at ddefnydd cymunedol yn atal ei waredu a rhyddhau cyfalaf a allai gefnogi anghenion addysgol ehangach.

Ar y sail hon, er bod yr opsiwn wedi'i ystyried yn ofalus, mae wedi'i ddiystyru gan nad yw'n darparu ateb cynaliadwy na phriodol i'r heriau addysgol ac ariannol a nodwyd ac na fyddai'n bodloni dyletswydd statudol yr Awdurdod Lleol i gynllunio system addysg hyfyw.

Opsiwn 6 – Creu ysgol sy'n canolbwyntio ar lesiant	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae'n cyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, sy'n rhoi llesiant wrth wraidd dysgu a datblygiad.	Mae llesiant eisoes yn ofyniad statudol ar gyfer pob ysgol, sy'n golygu nad yw'r opsiwn hwn yn golygu model darpariaeth gwahanol neu ychwanegol.
Mae'n adeiladu ar y cryfderau presennol sy'n gysylltiedig ag amgylcheddau	Nid yw'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol o ran niferoedd isel y

ysgolion bach, gan gynnwys perthynas gref a chymorth personol.	disgyblion, lleoedd gwag neu hyfywedd ariannol hirdymor.
Gallai greu ethos llesiant clir, sydd o fudd o bosib i iechyd emosiynol, hyder ac ymgysylltiad disgyblion.	Mae capasiti staffio cyfyngedig mewn ysgol fach iawn yn cyfyngu ar y gallu i gynnal darpariaeth llesiant arbenigol heb gyllid ychwanegol.
Gallai fod yn arbennig o gefnogol i ddysgwyr sy'n agored i niwed neu'r rhai sydd angen darpariaeth fugeiliol ychwanegol.	Mae risg y bydd yn cyfyngu'r ffocws, a allai effeithio ar ehangder y cwricwlwm a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ehangach â chyfoedion.
	Mae angen buddsoddiad parhaus mewn hyfforddiant, staffio a gwasanaethau cymorth heb ffrwd ariannu warantedig.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Cyfle i gryfhau partneriaethau â sefydliadau iechyd, llesiant neu drydydd sector lle mae capasiti.	Anghynaladwyedd ariannol os na ellir cynnal staffio neu wasanaethau llesiant arbenigol yn y tymor hir.
Posibilrwydd o dreialu dulliau arloesol sy'n cael eu harwain gan lesiant a allai lywio ymarfer ehangach ar draws yr Awdurdod.	Risg y gallai deilliannau addysgol gael eu hystyried yn llai pwysig os nad yw'r ffocws llesiant yn cael ei gydbwyso â chyflwyno'r cwricwlwm yn gadarn.
Gallai gynyddu hyder rhieni ar gyfer rhai teuluoedd sy'n chwilio am amgylchedd meithringar ar raddfa fach.	Agored i absenoldeb neu drosiant staff, o ystyried timau staff bach a dibyniaeth ar unigolion allweddol.
Gallai ategu strategaethau llesiant ehangach yr Awdurdod os caiff ei	Nid yw'n lliniaru pwysau'r Awdurdod ar draws y system ehangach sy'n

gyflwyno ochr yn ochr â darpariaeth addysg gynaliadwy.	ymwneud â lleoedd gwag a diffygion cyllidebol.
	Annhegwch posibl os na ellir cynnig darpariaeth debyg sy'n canolbwyntio ar lesiant ar draws y rhwydwaith ysgolion.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Asesir bod gan yr opsiwn arfaethedig effaith gyfyngedig neu niwtral i raddau helaeth ar ansawdd a safonau addysg yn gyffredinol. Er y gall ffocws cryf ar lesiant gefnogi ymgysylltiad, diogelwch emosiynol a pharodrwydd i ddysgu yn gadarnhaol, nid yw'r opsiwn hwn yn cyflwyno newidiadau strwythurol a fyddai, ynddynt eu hunain, yn arwain at welliannau cynaliadwy mewn safonau addysgol.

Er bod llesiant yn cael ei gydnabod yn eang fel galluogwr allweddol dysgu, nid yw'r dull hwn yn mynd i'r afael â'r heriau ehangach sy'n dylanwadu ar ansawdd addysgol hirdymor. Nid yw'n datrys problemau sy'n ymwneud ag ehangder y cwricwlwm, capasiti arweinyddiaeth, gwydnwch staffio na chynllunio olyniaeth, sydd i gyd yn ffactorau hanfodol wrth gynnal safonau cyson dros amser. Heb fynd i'r afael â'r elfennau sylfaenol hyn, mae risg o hyd y byddai darpariaeth addysgol yn parhau i wynebu cyfyngiadau sy'n cyfyngu ar ei gallu i ddiwallu gofynion yn y dyfodol.

At hynny, mae darpariaeth llesiant o ansawdd uchel eisoes yn ddisgwyliad craidd gan bob ysgol o dan y Cwricwlwm i Gymru a gellir ei chyflwyno'n effeithiol o fewn lleoliadau ysgolion presennol a rhai sy'n derbyn. Mae'r ysgolion hyn yn gallu darparu amgylcheddau meithringar, cefnogaeth fugeiliol gref ac arfer llesiant cyson ochr yn ochr â strwythurau arweinyddiaeth cynaliadwy a chyflwyno cwricwlwm. Felly, nid yw cadw ysgol fach iawn ar sail model sy'n canolbwyntio ar lesiant yn unig yn angenrheidiol i sicrhau canlyniadau llesiant cadarnhaol i ddysgwyr ac nid yw'n cynrychioli dull cymesur na chynaliadwy o gynnal ansawdd addysgol yn y tymor hir.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Gallai'r opsiwn hwn gynnig rhywfaint o sicrwydd tymor byr i rai teuluoedd ac aelodau o'r gymuned sy'n gwerthfawrogi ymagwedd feithringar, sy'n canolbwyntio ar lesiant, at addysg. Mae'n bosibl y byddai'r pwyslais ar ofal bugeiliol a pherthnasoedd cryf yn cael ei groesawu'n lleol a gallai helpu i gynnal hyder yn ystod cyfnod ansicr, yn enwedig i deuluoedd â phlant iau neu'r rhai y mae cymorth emosiynol mewn lleoliadau ysgol yn bwysig iawn iddynt.

Fodd bynnag, mae'r effaith hirdymor ar y gymuned yn ansicr. Nid yw'r model sy'n canolbwyntio ar lesiant yn mynd i'r afael â'r pwysau demograffig ac ariannol ehangach sy'n wynebu'r system addysg, gan gynnwys niferoedd isel y disgyblion, lleoedd gwag a chyfyngiadau cyllidebol parhaus. Gan nad yw'r heriau sylfaenol hyn yn cael eu datrys, ni ellir sicrhau cynaliadwyedd yr opsiwn hwn, gan gyfyngu ar ei allu i ddarparu sefydlogrwydd neu sicrwydd parhaol i'r gymuned.

Mae risg hefyd y bydd tarfu yn y dyfodol os bydd y ddarpariaeth yn mynd yn anhyfyw dros amser. Os bydd y pwysau staffio, ariannol neu arweinyddiaeth yn cynyddu, efallai y bydd angen ymyrraeth neu ad-drefnu pellach, gan arwain at newid ychwanegol ac ansicrwydd i deuluoedd a'r gymuned ehangach. Felly, er y gall yr opsiwn hwn ddarparu sicrwydd tymor byr, mae risgiau tymor hir yn gysylltiedig ag ef a allai arwain yn y pen draw at darfu newydd yn hytrach na budd parhaus i'r gymuned.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Pe bai'r ddarpariaeth yn parhau ar y safle presennol nid yw'n debygol y byddai'r opsiwn hwn yn cael fawr ddim effaith uniongyrchol ar drefniadau teithio. Yn y tymor byr, gallai cynnal gweithgarwch yn y lleoliad presennol osgoi newidiadau i batrymau teithio sefydledig i deuluoedd a gallai gynnig sicrwydd drwy gyfyngu ar darfu yn ystod y cyfnod gweithredu cychwynnol.

Fodd bynnag, mae'r goblygiadau tymor hir ar gyfer teithio yn llai sicr. Gan nad yw'r model hwn yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor nac yn mynd i'r afael â phwysau demograffig ac ariannol sylfaenol, mae risg y gallai'r ddarpariaeth fynd yn anhyfyw dros amser. Pe bai hyn yn digwydd, byddai angen ad-drefnu pellach, a allai arwain

at darfu ychwanegol i deuluoedd, gan gynnwys newidiadau i drefniadau teithio ac amseroedd teithio hir. Felly, er y gall yr opsiwn gyfyngu dros dro ar yr angen am newidiadau i deithio, nid yw'n dileu'r risg o darfu yn y dyfodol. Felly, rhaid i'r Awdurdod ystyried a yw gohirio newidiadau i drefniadau teithio drwy fodel anghynaliadwy yn ddull cymesur neu effeithiol wrth gynllunio ar gyfer sefydlogrwydd a sicrwydd hirdymor i ddisgyblion a theuluoedd.
Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn • Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar lesiant eisoes wedi'i sefydlu mewn disgwyliadau statudol ar gyfer pob ysgol ac nid oes angen model ysgol penodol arno. • Nid yw'n mynd i'r afael â'r heriau craidd o ran niferoedd isel y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd arweinyddiaeth a hyfywedd ariannol. • Mae'n creu risg ychwanegol drwy ddibynnu ar ddarpariaeth ychwanegol na ellir ei gwarantu yn y tymor hir. • Nid yw'n cyd-fynd â chyfrifoldeb yr Awdurdod i gynllunio darpariaeth addysg gynaliadwy a gwydn ar lefel system gyfan.

Ar y sail hon, er bod yr Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd llesiant a bwriad cadarnhaol yr opsiwn hwn, mae wedi'i ddiystyru gan nad yw'n darparu ateb cynaliadwy nac effeithiol i'r heriau addysgol ac ariannol a nodwyd.

Opsiwn 7 – Creu Hwb Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae'n cyd-fynd â dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac yn cefnogi addysg brif ffrwd gynhwysol.	Mae angen buddsoddiad cyfalaf cychwynnol sylweddol i addasu neu ddatblygu adeilad ADY arbenigol.

Mae'n galluogi ymyrraeth gynnar a chymorth ataliol, gan leihau'r angen i symud i leoliadau arbenigol neu leoliadau y tu allan i'r sir.	Byddai angen cyllid refeniw parhaus i recriwtio a chadw staff ADY dwyieithog â chymwysterau addas.
Mae'n cefnogi strategaeth gynhwysiant yr Awdurdod Lleol drwy gyd-leoli darpariaeth ADY arbenigol mewn ysgol brif ffrwd.	Mae llwyddiant yn dibynnu ar waith partneriaeth amlasiantaeth effeithiol, sy'n gallu cymryd amser i'w sefydlu.
Mae'n cefnogi gweledigaeth ehangach yr ysgol fel hwb cymunedol sy'n integreiddio addysg, llesiant a chymorth i deuluoedd.	Byddai maint y ddarpariaeth yn gyfyngedig, gan ei gwneud yn anaddas ar gyfer disgyblion ag anghenion meddygol neu gymhleth iawn.
Yn cryfhau addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cefnogi amcanion 'Cymraeg 2050'.	Byddai angen trefniadau dros dro i sefydlu llwybrau atgyfeirio, llywodraethu ac eglurder gweithredol.
	Mae gan yr Awdurdod ddarpariaeth ADY arbenigol ddigonol eisoes ac nid oes unrhyw gynlluniau i ddatblygu capasiti ychwanegol.
	Ni fyddai ychwanegu darpariaeth o'r fath yn cael fawr o effaith yn gyffredinol ar nifer y disgyblion gan fod dosbarthiadau ADY fel arfer yn fach.
	Bydd angen cynyddol i gynyddu amser dyrannu Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ac i ystyried recriwtio staff cynorthwyol ychwanegol i sicrhau bod disgyblion yn derbyn

	cefnogaeth sy'n cyd-fynd yn effeithiol â'u hanghenion a nodwyd. Bydd gan yr ehangu hwn oblygiadau ar gyfer cyllid, cynllunio'r gweithlu a dysgu proffesiynol parhaus, gan gynnwys yr angen i ddyrannu adnoddau ar gyfer costau staffio, hyfforddiant wedi'i dargedu, ac adeiladu capasiti cynaliadwy i gynnal darpariaeth o ansawdd uchel.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Mae'n darparu cyfle i ailymgysylltu â disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ar hyn o bryd oherwydd anghenion dysgu ychwanegol heb eu diwallu.	Byddai cau'r ysgol yn cael gwared yn barhaol â'r cyfle i ddatblygu'r ddarpariaeth ADY wledig hon.
Mae'n creu sylfaen ychwanegol ar gyfer datblygu'r gweithlu, hyfforddiant a chydweithio â phartneriaid addysg bellach ac uwch.	Gallai'r cyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael fod yn gyfyngedig neu'n amodol ar flaenoriaethau strategol sy'n cystadlu.
Mae'n cyd-fynd â ffocws ataliol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.	Heriau wrth recriwtio a chadw staff arbenigol dwyieithog mewn lleoliad gwledig.
	Risg bod canoli cynllunio ADY yn lleihau hyblygrwydd neu'n cyfyngu ar gymorth ar gyfer modelau hwb a ddarperir yn lleol.
.	Gallai newidiadau mewn blaenoriaethau polisi cenedlaethol

	neu leol effeithio ar hyfywedd hirdymor.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Mae gan ddatblygiad hwb ADY yn Ysgol Gynradd Meidrim y potensial i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol drwy alluogi adnabod yn gynharach a chefnogaeth ataliol fwy wedi'i thargedu o fewn cyd-destun prif ffrwd cyfrwng Cymraeg. Mae'r ysgol yn dangos ethos gofalgar a chynhwysol, gyda threfniadau priodol ar waith ar hyn o bryd i gefnogi disgyblion ag amrywiaeth o anghenion dysgu, emosiynol, iechyd a chymdeithasol. Mae ymgysylltu ag asiantaethau allanol a defnyddio arferion cynhwysol, fel datblygu sgiliau arwyddo ar draws yr ysgol, yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cefnogi lles a chyfranogiad disgyblion.

Fodd bynnag, disgrifir y ddarpariaeth bresennol fel un briodol yn hytrach nag un arbenigol iawn. Er bod staff yn cefnogi disgyblion ag anghenion a nodwyd yn effeithiol, byddai angen datblygiad sylweddol ar y set sgiliau, y capasiti a'r lefel o arbenigedd arbenigol bresennol i gyflwyno model hwb ADY cwbl integredig. Byddai'r newid o leoliad cynradd prif ffrwd gyda threfniadau cymorth addas i ganolfan o ddarpariaeth arbenigol yn golygu bod angen gwybodaeth broffesiynol well, strategaethau ymyrryd mwy dyfnder, a mwy o brofiad o gyflwyno rhaglenni ADY dwys, pwrpasol.

Heb fuddsoddiad sylweddol mewn datblygu'r gweithlu, gan gynnwys hyfforddiant arbenigol, dysgu proffesiynol parhaus a chynyddu capasiti arweinyddiaeth Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, mae risg na fydd ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth yn diwallu'r anghenion mwy cymhleth ac amrywiol sy'n gysylltiedig â model canolfan. Yn ogystal, mae'r gofyniad i recriwtio a chadw ymarferwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol dwyieithog cymwys yn cyflwyno her bellach, yn enwedig mewn cyd-destun gwledig.

Pe bai'r heriau gweithlu a chapasiti hyn yn cael eu datrys yn llwyddiannus, gallai'r model gefnogi canlyniadau gwell i ddysgwyr trwy gynhwysiant cryfach, presenoldeb gwell, llai o bryder a mwy o barhad dysgu o fewn y gymuned leol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r bwlch rhwng y ddarpariaeth bresennol a lefel

yr arbenigedd arbenigol sydd ei angen yn cyflwyno rhywfaint o risg i ddarpariaeth barhaus o ADY o ansawdd uchel ac, o ganlyniad, i gysondeb safonau addysgol dros amser.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai sefydlu hwb ADY yn Ysgol Gynradd Meidrim yn cael effaith gadarnhaol a pharhaus ar y gymuned leol drwy atgyfnerthu rôl yr ysgol fel ased cymunedol canolog a dibynadwy. Byddai mynediad lleol at gymorth arbenigol yn lleihau'r pwysau ar deuluoedd, yn gwella ymgysylltu ag addysg, ac yn cryfhau cydweithrediad rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymunedol. Mae cefnogi dysgwyr agored i niwed yn lleol yn helpu i gynnal sefydlogrwydd y boblogaeth wledig, yn annog teuluoedd ifanc i aros yn yr ardal, ac yn cryfhau'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â gweledigaeth yr ysgol fel hwb cymunedol ac yn cefnogi llesiant, gwydnwch a chydlyniant ehangach y gymuned.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Yn dibynnu ar ble mae'r disgyblion yn byw, byddai goblygiadau teithio.

Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn

- Mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol a chyllid refeniw parhaus mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol.
- Mae cynaliadwyedd hirdymor yn dibynnu ar y gallu i recriwtio a chadw staff ADY dwyieithog â chymwysterau priodol mewn lleoliad gwledig.
- Byddai maint y ddarpariaeth yn gyfyngedig, gan gyfyngu ar nifer y dysgwyr a allai elwa gan leihau cost-effeithiolrwydd cyffredinol o bosib.
- Mae cyflawni'r opsiwn hwn yn llwyddiannus yn dibynnu ar gydweithrediad amlasiantaeth parhaus, a allai fod yn anodd ei sicrhau a'i gynnal.
- Gallai ffocws strategol ar gyfuno'r ddarpariaeth mewn lleoliadau mwy gyfyngu ar sicrhau ei bod yn cyd-fynd â gwaith cynllunio gwasanaeth ehangach.
- Gallai'r risg sy'n gysylltiedig â sicrwydd cyllido a hyfywedd hirdymor fod yn drech na'r manteision addysgol a chymunedol posibl.

- Nid oes digon o alw am ddarpariaeth ychwanegol.

Ar y sail hon, er bod yr Awdurdod yn cydnabod y manteision addysgol, llesiant a chymunedol posibl sy'n gysylltiedig â datblygu hwb ADY yn Ysgol Gynradd Meidrim, mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru gan nad yw'n darparu ymateb digon cynaliadwy neu gymesur i'r heriau addysgol, trefniadaethol ac ariannol a nodwyd. Mae maint y ddarpariaeth, gofynion cyllido a dibyniaeth ar drefniadau partneriaeth a staffio hirdymor yn peri risgiau i hyfywedd hirdymor a chost-effeithiolrwydd pan ystyrir y rhain ochr yn ochr â blaenoriaethau strategol ehangach a chyfyngiadau ariannol.

Opsiwn 8 – Ffedereiddio ag ysgol wledig arall	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae'n rhoi cyfle i gadw Ysgol Gynradd Meidrim fel ysgol agored wrth rannu capasiti arweinyddiaeth a rheolaeth.	Nid yw ffederasiwn ynddo'i hun yn mynd i'r afael â niferoedd isel y disgyblion na'r heriau demograffig hirdymor.
Mae'n arbed costau drwy rannu pennaeth, trefniadau llywodraethu, polisïau a swyddogaethau cefn swyddfa.	Mae'r arbedion ariannol yn gyfyngedig ac efallai na fyddant yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pwysau parhaus ar gyllideb yr ysgol.
Mae'n cynnal mynediad lleol at addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned.	Mae'r manteision yn dibynnu ar gapasiti, lleoliad a pharodrwydd ysgol bartner addas.
Mae'n gallu darparu cymorth proffesiynol a mwy o wydnwch i staff drwy gydweithio a rhannu arbenigedd.	Risg o wanhau arweinyddiaeth, gyda llai o uwch-arweinwyr yn bresennol ar y safle yn Ysgol Gynradd Meidrim.
Efallai y byddai'n arafu'r gostyngiad yn nifer y disgyblion drwy wella sefydlogrwydd arweinyddiaeth a hyder yn yr ysgol.	Mae cymhlethdod gweithredol yn cynyddu, yn enwedig lle mae ysgolion yn wahanol o ran maint, cyd-destun neu flaenoriaethau.

Mae'n cyd-fynd â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fel opsiwn arall cydnabyddedig yn lle cau'r ysgol.	Nid yw'n newid y ddarpariaeth addysg yn sylfaenol nac yn mynd i'r afael â phwysau sy'n gysylltiedig ag ADY.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Posibilrwydd o greu model arweinyddiaeth ar y cyd cryfach ar draws ysgolion gwledig.	Argaeledd cyfyngedig partner ffedereiddio sy'n ddaearyddol briodol ac yn gynaliadwy.
Cyfle ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, cymedroli a datblygu staff ar y cyd.	Risg bod ffederasiwn yn gohirio ystyried cau'r ysgol yn y dyfodol yn unig yn hytrach nag atal hynny.
Gallai ddarparu sefydlogrwydd tymor byr i dymor canolig tra bod atebion strategol tymor hir yn cael eu hystyried.	Pryderon rhieni a'r gymuned am golli hunaniaeth ysgol neu erydu'r ddarpariaeth yn raddol.
Mae'n galluogi cydweithio heb lawer o fuddsoddiad cyfalaf ar unwaith.	Gallai gwahaniaethau mewn perfformiad ysgol neu farn Estyn greu anghydbwysedd neu risg o ran enw da.
Gallai gefnogi trefniadau pontio mwy hwylus a phrofiadau disgyblion cyffredin.	Gallai pwysau ariannol barhau er gwaethaf trefniadau arweinyddiaeth a rennir.
	Posibilrwydd y bydd ysgol bartner yn tynnu'n ôl os na fydd y manteision yn cael eu gwireddu.
Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg Mae'n debygol y bydd ffedereiddio ag ysgol wledig arall yn cael effaith gadarnhaol gymharol ar ansawdd a safonau yn y tymor byr, yn bennaf drwy gryfhau gallu arweinyddiaeth a chynyddu cyfleoedd ar gyfer cydweithio proffesiynol. Gallai pennaeth a corff llywodraethu ar y cyd gefnogi mwy o gysondeb mewn prosesau	

gwella ysgolion, cynllunio cwricwlwm, asesu a hunanwerthuso. Gall staff elwa o fynediad at rwydwaith proffesiynol ehangach, gan alluogi rhannu arfer effeithiol, cymedroli ar y cyd a chyfleoedd dysgu proffesiynol gwell, a allai, yn ei dro, gyfrannu at welliannau cynyddrannol yn ansawdd addysgu.

Fodd bynnag, byddai maint yr effaith hon yn dibynnu'n fawr ar gryfder, gallu a chydnawsedd yr ysgol bartner. Nid yw ffedereiddio, ynddo'i hun, yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n gysylltiedig â niferoedd isel o ddisgyblion, cymhlethdodau addysgu oedrannau cymysg neu gynaliadwyedd y ddarpariaeth mewn cyd-destun ysgol fach. O ganlyniad, gall unrhyw welliannau mewn safonau fod yn gyfyngedig ac yn anodd eu cynnal dros amser heb gynnydd cyfatebol yn nifer y disgyblion neu newid strwythurol ehangach.

Mae risg hefyd y gallai presenoldeb arweinyddiaeth llai ar y safle effeithio ar uniongyrchedd ac effeithiolrwydd monitro o ddydd i ddydd, goruchwyliaeth fugeiliol ac ymatebolrwydd i anghenion disgyblion unigol. Er y gellir cryfhau arweinyddiaeth strategol, gallai arweinyddiaeth weithredol ar lefel leol wanhau os na chaiff ei rheoli'n ofalus. Ar ben hynny, gan nad yw ffedereiddio yn newid y cynnig addysgol craidd yn sylweddol, mae'n annhebygol y bydd yn mynd i'r afael â phwysau penodol fel cymhlethdod cynyddol anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol.

Ar y cyfan, er y gall ffedereiddio ddarparu sefydlogrwydd tymor byr a gwelliannau cymedrol mewn arfer proffesiynol, mae'n annhebygol y bydd yn cyflawni enillion sylweddol neu gynaliadwy mewn safonau addysgol oni bai ei fod yn cyd-fynd â newidiadau ehangach sy'n mynd i'r afael â heriau demograffig, ariannol a chwricwlwm sylfaenol yr ysgol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai ffederasiwn yn caniatáu i Ysgol Gynradd Meidrim aros ar agor, a fyddai'n cael ei groesawu gan y gymuned leol yn y tymor byr. Mae cynnal ysgol leol yn parhau i gefnogi cydlyniant cymunedol, defnydd y Gymraeg a hunaniaeth leol. Fodd bynnag, gallai pryderon godi am y canfyddiad bod ymreolaeth neu ddylanwad yn cael ei golli, yn enwedig os yw arweinyddiaeth a'r broses o wneud penderfyniadau yn cael eu rhannu ar draws safleoedd. Os yw ffederasiwn yn cael

ei ystyried fel mesur dros dro yn hytrach nag ateb hirdymor, gellid effeithio ar hyder cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Prin fyddai'r effaith uniongyrchol y byddai ffedereiddio yn ei chael ar drefniadau teithio disgyblion, gan y byddai dysgwyr yn parhau i fynychu Ysgol Gynradd Meidrim. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i staff deithio mwy rhwng safleoedd ffederal, yn enwedig yn achos uwch-arweinwyr a staff arbenigol. Efallai y bydd angen hefyd i ddisgyblion fynychu gweithgareddau neu ddigwyddiadau ar y cyd mewn ysgolion partner o bryd i'w gilydd, er bod y rhain yn debygol o fod yn gyfyngedig. Yn gyffredinol, mae ffederasiwn yn osgoi'r goblygiadau sylweddol o ran cludiant sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol.

Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn

- Nid yw'n darparu ateb hirdymor i ostyngiad yn nifer y disgyblion neu gynaliadwyedd ariannol.
- Mae arbedion ariannol yn gyfyngedig ac efallai na fyddant yn gwrthbwyso diffygion cyllidebol parhaus.
- Mae llwyddiant yn dibynnu'n fawr ar sicrhau partner ffedereiddio addas, ac efallai na fydd hyn yn bosibl.
- Nid yw'n gwella'r ddarpariaeth addysgol yn sylweddol nac yn mynd i'r afael ag anghenion arbenigol.
- Risg bod ffederasiwn yn gohirio penderfyniadau anodd yn unig yn hytrach na datrys heriau sylfaenol.

Ar y sail hon, er bod yr Awdurdod yn cydnabod y gall ffederasiwn gynnig sefydlogrwydd arweinyddiaeth tymor byr a lliniaru tarfu uniongyrchol i ddysgwyr a'r gymuned, mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru gan nad yw'n darparu ymateb digon cynaliadwy nac effeithiol i'r heriau addysgol, demograffig ac ariannol hirdymor a nodwyd yn Ysgol Gynradd Meidrim. Mae maint cyfyngedig yr arbedion posibl, y ddibyniaeth ar ysgol bartner addas a diffyg newid trawsnewidiol yn y ddarpariaeth yn golygu bod ffederasiwn yn annhebygol o sicrhau hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol.

Opsiwn 9 – Ffedereiddio ag Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae'n caniatáu i Ysgol Gynradd Meidrim aros ar agor wrth elwa ar arweinyddiaeth a rennir a goruchwyliaeth strategol.	Efallai na fyddai arbenigedd arweinyddiaeth uwchradd yn uniongyrchol drosglwyddadwy i ofynion gweithredol ac addysgegol ysgol gynradd wledig fach.
Mae'n creu parhad a dilyniant posibl rhwng addysg cyfrwng Cymraeg gynradd ac uwchradd.	Risg o lai o ffocws ar y blynyddoedd cynnar a blaenoriaethau ar gyfer ysgolion cynradd yn benodol.
Gallai gryfhau'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm a threfniadau pontio ar gyfer dysgwyr.	Arbedion ariannol cyfyngedig, gan fod strwythurau staffio a chostau yn wahanol iawn rhwng y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd.
Mae'n darparu mynediad at brofiad arweinyddiaeth ehangach a gwybodaeth am bynciau arbenigol.	Trefniadau llywodraethu a rheoli mwy cymhleth ar draws lleoliadau gwahanol iawn.
Mae'r cefnogi'r continwwm Cymraeg ac yn cyd-fynd ag amcanion 'Cymraeg 2050'.	Posibilrwydd y bydd llai o ymreolaeth leol a phenderfyniadau a wneir yn lleol.
Mae'n osgoi cau'r ysgol ar unwaith a'r tarfu yn sgil hynny i ddisgyblion a'r gymuned.	Efallai y bydd llai o bresenoldeb arweinwyr o ddydd i ddydd yn Ysgol Gynradd Meidrim.
Gallai wella hyder disgyblion a rhieni drwy gysylltu â lleoliad uwchradd sefydledig.	Nid yw ffedereiddio'n mynd i'r afael â niferoedd isel y disgyblion na heriau demograffig.

Cyfleoedd	Bygythiadau
Cyfle i gryfhau pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd drwy gynllunio ar y cyd a chydweithio.	Gallai gwahaniaethau diwylliannol a gweithredol rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd gyfyngu ar effeithiolrwydd.
Posibilrwydd o ddatblygu llwybrau cwricwlwm cyfrwng Cymraeg arloesol a gweithgareddau cyfoethogi.	Risg bod anghenion ysgol gynradd wledig fach yn dod yn llai pwysig na blaenoriaethau sefydliad uwchradd mwy.
Cryfhau cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff drwy weithio ar draws cyfnodau.	Pryder rhieni am golli hunaniaeth ysgol neu fwy o ganoli.
Gallai ddarparu sefydlogrwydd tymor byr tra bod atebion strategol tymor hir yn cael eu hystyried.	Nifer cyfyngedig o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg addas sy'n gallu neu sy'n fodlon ffedereiddio.
Mae'n annog golwg ehangach ar gynnydd dysgwyr a dyheadau o fewn addysg cyfrwng Cymraeg	Gallai ffederasiwn ohirio, yn hytrach na datrys materion cynaliadwyedd tymor hir.
	Tynnu'n ôl o'r ffederasiwn os nad yw'r manteision disgwyliedig yn cael eu gwireddu.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Gallai ffedereiddio ag ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gynnig rhai manteision strategol, yn enwedig o ran cryfhau dilyniant rhwng cyfnodau allweddol a gwella trefniadau pontio i ddysgwyr. Gallai mwy o gydlyniad mewn dylunio cwricwlwm, dulliau asesu a pharhad yn y Gymraeg gefnogi taith ddysgu 3–16 mwy cydlynol. Gallai mynediad at brofiad arweinyddiaeth ehangach ac arbenigedd pwnc hefyd

gyfrannu at gyfleoedd dysgu proffesiynol gwell i staff a chodi dyheadau i ddisgyblion trwy gysylltiadau cryfach â darpariaeth uwchradd.

Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr effaith gyffredinol ar ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Meidrim yn cael ei chyfyngu gan y gwahaniaethau sylfaenol rhwng cyfnodau cynradd ac uwchradd. Mae'r dulliau addysgeg, dyluniad cwricwlwm, a blaenoriaethau datblygiadol addysg blynyddoedd cynnar ac addysg gynradd yn gofyn am wybodaeth arbenigol ac arweinyddiaeth gyson ar y safle, ac efallai na fyddant yn cael eu blaenoriaethu'n ddigonol o fewn ffederasiwn a arweinir o gyd-destun uwchradd. Mae risg sylweddol y gallai blaenoriaethau gwella penodol i ysgolion cynradd—yn enwedig mewn meysydd fel llythrennedd cynnar, rhifedd, a datblygiad cyfannol disgyblion—gael llai o sylw.

Mae'r pellter daearyddol rhwng y ddau leoliad yn gwaethygu'r heriau hyn ymhellach. Byddai model 3–16 safle hollt ar draws lleoliadau ar wahân yn cyfyngu ar integreiddio ymarferol y ddarpariaeth, gan leihau cyfleoedd ar gyfer cydweithio ystyrlon o ddydd i ddydd, ymarfer addysgu ar y cyd, a diwylliant ysgol a rennir. O ganlyniad, efallai na fydd manteision damcaniaethol dull cyflawn yn cael eu gwireddu'n llawn yn ymarferol.

Byddai presenoldeb arweinyddiaeth llai ar y safle yn Ysgol Gynradd Meidrim hefyd yn peri risg i gysondeb ac ansawdd addysgu, dysgu a chefnogaeth fugeiliol. Mae goruchwyliaeth ar unwaith, ymatebolrwydd i anghenion sy'n dod i'r amlwg ac ymgysylltiad parhaus â staff, disgyblion a theuluoedd yn hanfodol mewn lleoliad cynradd bach a gall fod yn anoddach eu cynnal o fewn model ffederasiwn traws-gyfnod.

At hynny, fel gyda modelau ffederasiwn eraill, nid yw'r dull hwn yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol o nifer isel o ddisgyblion, trefniadaeth dosbarthiadau oedran cymysg ac ehangder cwricwlwm cyfyngedig. Er y gall ddarparu sefydlogrwydd tymor byr a fframwaith strategol cryfach, mae'n annhebygol y bydd yn cyflawni gwelliannau sylweddol neu gynaliadwy mewn safonau addysgol heb newidiadau strwythurol ychwanegol.

Yn gyffredinol, er bod manteision posibl o ran pontio ac aliniad strategol, mae'r anghydweddiad mewn arbenigedd cyfnod, ynghyd â'r heriau ymarferol o weithio

o bell a gweithio ar safleoedd rhanedig, yn cyflwyno risg sylweddol i welliant cynaliadwy ansawdd a safonau yn y cyfnod cynradd.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai'r gymuned yn croesawu cynnal yr ysgol drwy ffederasiwn yn y tymor byr, gan ei fod yn cadw mynediad lleol at addysg cyfrwng Cymraeg. Gellid ystyried cysylltiadau cryfach ag ysgol uwchradd hefyd yn beth cadarnhaol o ran cynnydd a dyhead. Fodd bynnag, gallai pryderon godi ynghylch colli hunaniaeth leol, llai o ddylanwad cymunedol a thynnu'r broses o wneud penderfyniadau o'r pentref. Os yw ffederasiwn yn cael ei ganfod yn fesur dros dro neu drosiannol yn hytrach nag ateb hirdymor diogel, gellid effeithio ar hyder cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni fyddai ffederasiwn yn newid trefniadau teithio disgyblion yn sylweddol, gan y byddai dysgwyr yn parhau i fynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar gyfer eu haddysg gynradd. Efallai y byddai'n golygu rhywfaint o deithio ychwanegol ar gyfer staff sy'n symud rhwng safleoedd, ac efallai y byddai angen i ddisgyblion deithio'n achlysurol ar gyfer gweithgareddau ar y cyd, digwyddiadau pontio neu gyfleoedd cyfoethogi. Mae'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig o gymharu â'r rhai sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol, ac yn gyffredinol, mae'r opsiwn yn osgoi goblygiadau mawr o ran cludiant.

Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn

- Nid yw'n mynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion na chynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- Arbedion ariannol cyfyngedig ac aneffeithlonrwydd posibl ar draws sectorau.
- Risg na fydd anghenion sy'n benodol i ysgolion cynradd yn cael eu blaenoriaethu'n ddigonol.
- Dibyniaeth ar argaeledd ac ymrwymiad parhaus partner uwchradd addas.
- Mae ffederasiwn yn golygu newid strwythurol yn hytrach na gwelliant trawsnewidiol.

Ar y sail hon, er bod yr Awdurdod yn cydnabod y gallai ffedereiddio ag ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ddarparu cymorth arweinyddiaeth a sefydlogrwydd tymor byr, mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru gan nad yw'n cynnig ymateb cynaliadwy nac effeithiol i'r heriau addysgol, demograffig ac ariannol hirdymor sy'n wynebu Ysgol Gynradd Meidrim. Mae'r gwahaniaethau rhwng darpariaeth gynradd ac uwchradd, manteision ariannol cyfyngedig a diffyg effaith ar nifer y disgyblion yn golygu bod yr opsiwn hwn yn annhebygol o sicrhau hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol.

11. AILASESIAD AR ÔL YR YMGYNGHORIAD MEWN PERTHYNAS Â STATWS YSGOL WLEDIG

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal adolygiad pellach o'r cynnig ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Rhoddwyd sylw arbennig i sefyllfa Ysgol Gynradd Meidrim fel ysgol wledig ac i'r disgwyliad na ddylai ysgolion gwledig gau oni bai bod rhesymau cryf. Bu'r adolygiad hwn yn ystyried yn llawn yr holl sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnwys gwybodaeth newydd, barn leol ac awgrymiadau eraill.

Ailedrychodd yr Awdurdod Lleol ar yr holl opsiynau realistig eraill yn lle cau Ysgol Gynradd Meidrim. Roedd y rhain yn cynnwys cadw'r ysgol ar agor fel y mae, newid yr ystod oedran, gweithio'n agosach gydag ysgolion eraill drwy ffederasiwn, creu hwb cymunedol yn yr ysgol, neu greu ysgol sy'n canolbwyntio ar lesiant. Ailystyriwyd pob opsiwn o ran sut y byddai'n effeithio ar ansawdd yr addysg, y gymuned leol a'r trefniadau teithio, gan ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a chyngor proffesiynol.

Er bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos yn glir mor bwysig yw'r ysgol i gymuned Meidrim, gan gynnwys ei rôl o ran y Gymraeg, ni nododd yr adolygiad unrhyw dystiolaeth newydd a fyddai'n newid barn wreiddiol yr Awdurdod. Mae'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol yn aros yr un fath, gan gynnwys niferoedd isel y disgyblion, lleoedd gwag, diffyg cynyddol o ran y gyllideb ac anawsterau arweinyddiaeth barhaol.

Ar ôl ystyried yr holl adborth yn ofalus a chynnal y broses graffu ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer cynigion ysgolion gwledig, mae'r Awdurdod Lleol wedi dod i'r casgliad na fyddai unrhyw un o'r opsiynau eraill a ystyriwyd yn datrys yr heriau hyn mewn ffordd gynaliadwy. Felly, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn mai cau Ysgol Gynradd Meidrim yw'r opsiwn mwyaf priodol, gan ystyried yr effaith ar y gymuned a threfniadau

teithio, a'r angen ehangach i sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg gynaliadwy o ansawdd uchel i ddysgwyr yn yr ardal.

12. NEWIDIADAU SY'N DEILLIO O'R YMGYNGHORIAD

Mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu'n ofalus yr holl sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnwys pryderon a fynegwyd, syniadau eraill ac awgrymiadau ynghylch sut y gellid lleihau'r effeithiau. Ar ôl ystyried yr adborth hwn, edrychodd yr Awdurdod eto ar a ddylid newid y cynnig.

Er bod yr ymgynghoriad wedi helpu i ddeall yn well sut y gallai'r cynnig effeithio ar ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach, nid oedd yn darparu unrhyw dystiolaeth newydd a fyddai'n cyfiawnhau newid y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim. Mae'r prif resymau dros y cynnig yn aros yr un fath.

Am y rheswm hwn, nid yw'r cynnig yn newid. Fodd bynnag, bydd y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, megis trefniadau trosglwyddo disgyblion, amseriad unrhyw broses drosglwyddo, cymorth i ddysgwyr agored i niwed, cludiant a mynediad at ofal plant neu ddarpariaeth gofleidiol, yn cael eu hystyried gan y Cabinet. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd y materion hyn yn helpu i lunio'r trefniadau cynllunio a chymorth manwl i leihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddisgyblion, teuluoedd a staff.

13. CASGLIAD

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim wedi ennyn lefel uchel o ymgysylltu ac ymateb; daeth cyfanswm o 260 o ymatebion i law, ac o'r rhain roedd 247 (94.9%) yn mynegi pryderon am y cynnig a 13 (5.1%) yn ei gefnogi. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos y teimladau cryf yn y gymuned ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr ysgol i ddisgyblion, teuluoedd a thrigolion.

Roedd y pryderon a fynegwyd yn eang ac yn fanwl; roedd y materion a nodwyd amlaf yn ymwneud â rôl yr ysgol wrth gefnogi cydlyniant cymunedol a chynaliadwyedd y pentref, pwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg, llesiant a diogelwch emosiynol plant, parhad y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ac effaith teithio ychwanegol. Mynegwyd pryderon hefyd am werth addysgol ysgolion gwledig bach, ac i ba raddau yr oedd yr opsiynau eraill wedi'u hystyried yn llawn.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried y pryderon hyn yn ofalus ochr yn ochr â'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Trefniadaeth Ysgolion (2018). Wrth ffurfio

safbwynt, mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried amrywiaeth eang o ffactorau gan gynnwys niferoedd disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd arweinyddiaeth a staffio, hyfywedd ariannol, safonau addysgol a gwydnwch hirdymor y rhwydwaith ysgolion. Rhaid cydbwyso'r ystyriaethau hyn yn erbyn yr effaith ar y gymuned a barn y rhieni, yn enwedig yng nghyswllt ysgol wledig.

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol y gall cau ysgol wledig gael effaith sylweddol yn lleol a bod yr effeithiau hyn yn cael eu teimlo'n ddwfn gan gymunedau. Cydnabyddir hefyd fod Ysgol Gynradd Meidrim yn darparu amgylchedd meithringar a bod llawer o ddisgyblion a theuluoedd yn gwerthfawrogi natur bersonol y ddarpariaeth. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ei chyfanrwydd, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod angen y cynnig i fynd i'r afael â heriau cynaliadwyedd hirdymor ac i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol ar draws yr ardal yn parhau i fod yn hyfyw, yn deg ac yn gallu cyflawni safonau addysgol cyson.

Roedd yr ymatebion cefnogol, er eu bod yn gyfyngedig o ran nifer, yn pwysleisio pwysigrwydd cynaliadwyedd ariannol, defnyddio adnoddau cyhoeddus yn effeithlon, capasiti arweinyddiaeth a'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael mewn lleoliadau ysgol mwy. Mae'r safbwyntiau hyn hefyd wedi'u hystyried ochr yn ochr â'r pryderon.

Mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), bod ymgyngoreion wedi cael cyfle ystyrlon i fynegi eu barn, a bod y farn honno wedi'u hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniad.

Mae pob dyletswydd statudol wedi cael eu hystyried a'u cyflawni, gyda'r opsiwn ffafriol o gau yn cael ei werthuso yn erbyn yr holl opsiynau eraill.

14. ARGYMHELLIAD

Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, y themâu a godwyd drwy bryderon a sylwadau cefnogol, a'r asesiadau statudol a gynhaliwyd, mae'r Awdurdod Lleol yn argymell bod y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim yn mynd rhagddo fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori.

Wrth wneud yr argymhelliad hwn, mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau:

- Bod yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hystyried yn llawn a'u pwysoli'n briodol.

- Bod pryderon allweddol yn ymwneud â'r effaith ar y gymuned, addysg cyfrwng Cymraeg, llesiant dysgwyr a darpariaeth ADY wedi'u hystyried ochr yn ochr â dyletswyddau statudol a gofynion cynaliadwyedd hirdymor.
- Y bydd mesurau lliniaru, gan gynnwys cynllunio trosglwyddo, parhad darpariaeth ADY, addysg cyfrwng Cymraeg a threfniadau teithio, yn cael eu gweithredu os bydd y cynnig yn mynd rhagddo.
- Bod y cynnig yn cyd-fynd â chyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol i sicrhau darpariaeth addysg effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel ledled y sir.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod hwn yn benderfyniad anodd ac yn cydnabod y teimladau cryf a fynegwyd gan lawer o ymatebwyr. Fodd bynnag, ar ôl cydbwyso'r farn hon yn erbyn yr ystyriaethau addysgol, gweithredol ac ariannol ehangach, mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod o'r farn mai bwrw ymlaen â'r cynnig yw'r opsiwn mwyaf priodol er budd hirdymor dysgwyr a'r system ysgolion ehangach.

15. Y CAMAU NESAF

Ar ôl cwblhau'r broses ymgynghori statudol a chyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori hwn, bydd y camau nesaf yn y broses Trefniadaeth Ysgolion yn mynd rhagddynt yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori hwn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i'w ystyried. Bydd y Cabinet yn adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, y themâu allweddol a godwyd ac asesiad yr Awdurdod Lleol o'r materion a nodwyd, er mwyn penderfynu a ddylid gwneud y canlynol:

- Bwrw ymlaen â'r cynnig yn unol â'r ymgynghoriad;
- Diwygio'r cynnig; neu
- Peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig

Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd yn dod i ben yn y cam hwnnw ac ni fydd camau statudol pellach yn cael eu cymryd.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Bydd yr Hysbysiad Statudol yn nodi manylion y cynnig a bydd yn cael ei gyhoeddi am o leiaf 28 diwrnod. Yn ystod y cyfnod hwnnw gall unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol yn ysgrifenedig.

Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol baratoi Adroddiad Gwrthwynebu. Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law ac ymateb yr Awdurdod Lleol iddynt a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud.

Ar ôl ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu (os oes angen), bydd y Cyngor Sir yn penderfynu ar y cynnig, yn unol â'r cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni statudol.

Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo yn y pen draw, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda disgyblion, rhieni, gofalwyr, staff a'r ysgolion derbyn i sicrhau bod trefniadau trosglwyddo priodol yn cael eu rhoi ar waith. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio i gefnogi llesiant disgyblion, parhad dysgu, darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, addysg cyfrwng Cymraeg a threfniadau teithio, fel y bo'n briodol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu clir ac amserol drwy gydol gweddill y broses a bydd yn parhau i roi gwybod i randdeiliaid am benderfyniadau allweddol a'r camau nesaf yn unol â'r gofynion statudol.

ATODIAD A – YMATEB ESTYN

Ymateb Estyn i'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim o 31 Rhagfyr 2026, a darparu addysg ar gyfer dysgwyr naill ai yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Crynodeb / Casgliad

Mae Cyngor Sir Gâr yn cynnig cau Ysgol Gynradd Meidrim ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu addysg ar gyfer dysgwyr naill ai yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog o 1 Ionawr 2027.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig hwn yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

Disgrifiad a manteision

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg briodol ar gyfer ei gynnig. Clustnodwyd yr ysgol i gael adolygiad o'i darpariaeth addysgol ar ôl Asesiad Hyfywedd o'r holl Ysgolion Cynradd yn Sir Gâr. Mae'r cynnig yn amlinellu manteision ariannol yn gysylltiedig â'r cynnig, ynghyd â manteision canfyddedig i ddysgu disgyblion mewn cyfleusterau gwell, gyda chyfle iddynt elwa ar ystod ehangach o brofiadau addysgol, ynghyd â chyfleoedd cymdeithasol a chydweithio gwell â chyfoedion.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn awgrymu bod niferoedd y dysgwyr wedi aros fwy neu lai'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, gyda cyfartaledd o tua 31 o ddysgwyr. Mae hyn yn parhau ymhell islaw capasiti'r ysgol, sef 54 o leoedd. Mae'r cynnig yn awgrymu bod addasrwydd yr adeilad, canran uchel y lleoedd dros ben, meintiau dosbarthiadau bach, gydag ystod oedran eang a nifer gymharol uchel o ddisgyblion yn mynychu o'r tu allan i'r dalgylch, yn dangos yr heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod meintiau dosbarthiadau bach sy'n cynnwys ystod o oedrannau yn gallu cael eu haddysgu'n effeithiol, fel sy'n cael ei awgrymu, yn ôl pob sôn, yn Ysgol Hafodwenog.

Mae'n ymddangos yr aethpwyd i'r afael â'r gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig. Mae'r awdurdod lleol yn darparu disgrifiad addas o fanwl o'r cynnig, yn cynnwys gwybodaeth am natur a chwmpas y newidiadau arfaethedig a'r ysgolion a'r dysgwyr a fydd yn cael eu heffeithio. Mae'r cynnig hefyd yn amlinellu amserlen amcanestynedig priodol ar gyfer yr holl weithdrefnau statudol.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlygu ystod o risgiau yn gysylltiedig â chau Ysgol Gynradd Meidrim ac yn amlinellu camau y mae'n ymddangos sy'n lliniaru'r rhain. Wrth ystyried y sefyllfa bresennol, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod cryfderau'r ysgol, yn cynnwys ei hethos gofalgar a'i rôl o fewn y gymuned leol. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn awgrymu y byddai cynnal y trefniadau presennol yn annhebygol o fynd i'r afael â heriau tymor hwy, yn enwedig o ran cynaliadwyedd, niferoedd disgyblion isel a hyfywedd ariannol.

Mae'n ymddangos bod y cynnig yn darparu cymhariaeth glir rhwng manteision disgwyliedig cynnal y sefyllfa bresennol a'r rhai sy'n gysylltiedig â chau. Er bod ystyriaethau ariannol yn ymddangos yn ffactor arwyddocaol yn y rhesymeg ar gyfer y cynnig, mae'r awdurdod lleol yn nodi manteision addysgol posibl ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Gynradd Meidrim. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, cyfleoedd gwell ar gyfer datblygiad cymdeithasol, cydweithio ac ymgysylltu ag ystod ehangach o brofiadau dysgu trwy allu bod yn rhan o grŵp cyfoedion mwy. Mae'r rhain yn ymddangos yn awgrymiadau rhesymol, ac ar y cyfan, mae'n ymddangos bod manteision disgwyliedig y cynnig yn darparu rhai manteision o gymharu â chynnal y sefyllfa bresennol.

Mae'r cynnig yn cydnabod ei bod yn ymddangos yn debygol y byddai cau Ysgol Gynradd Meidrim yn cael rhywfaint o effaith negyddol ar y gymuned. Caiff adeilad yr ysgol ei ddefnyddio'n helaeth gan sefydliadau a grwpiau cymunedol. Byddai colli'r gofod hwn yn creu her sylweddol i'r gymuned, gan fod y sefydliadau hyn yn dibynnu ar adeilad yr ysgol fel eu prif hwb ar hyn o bryd. Mae'r cynnig yn nodi bod neuadd gymunedol ar wahân ar gael at ddefnydd y cyhoedd yn yr ardal leol.

Mae'r cynnig yn darparu gwybodaeth am newidiadau i drefniadau teithio dysgwyr pe byddai'r ysgol yn cau. Mae'n nodi y byddai disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion amgen o fewn pellter teithio rhesymol ac y byddai amseroedd teithio tybiedig yn aros o fewn terfynau statudol. Mae'r cynnig hefyd yn datgan y byddai cludiant yn cael ei ddarparu lle mae disgyblion yn gymwys, yn unol â pholisi cludiant o'r cartref i'r ysgol yr awdurdod lleol. At ei gilydd, mae'n ymddangos bod y wybodaeth a ddarparwyd yn rhoi ystyriaeth briodol i drefniadau teithio dysgwyr, hygyrchedd y ddarpariaeth a'r goblygiadau ariannol i'r awdurdod lleol.

Mae'r cynnig yn datgan bod lefel y lleoedd dros ben yn Ysgol Gynradd Meidrim wedi bod rhwng 43% a 44%, o 2021 tan 2025. Mae niferoedd isel y disgyblion yn yr ysgol wedi cyfrannu at bwysau cyllidebol gan achosi diffyg yng nghyllideb yr ysgol am yr ychydig flynyddoedd diwethaf (2024/25 diffyg o £27,704). Mae rhagor o fanylion yn dangos mai cyfran cyllideb yr ysgol fesul disgybl yn ystod 2025/26 yw £6,363. Mae hyn £880 yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Gâr ar gyfer yr un

cyfnod. Byddai'n ymddangos bod y cynigion yn ffordd ddichonadwy o fynd i'r afael â lleoedd dros ben ac yn cefnogi defnydd mwy effeithlon o gyllid cyhoeddus.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae lefel uchel o leoedd dros ben i ddisgyblion yn Ysgol Hafodwenog (51%) a rhagwelir diffyg o £33,337 yn y gyllideb ar hyn o bryd. Er bod y cynnig yn nodi, pe bai disgyblion yn symud i Ysgol Hafodwenog, y byddai hyn yn cynorthwyo'r diffyg yn y gyllideb, mae'n ymddangos nad oes unrhyw gynllun wrth gefn pe bai nifer fach yn unig o ddisgyblion o Ysgol Gynradd Meidrim yn dewis mynychu. Er ei bod mewn partneriaeth anffurfiol ag ysgol arall, mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn awgrymu ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd a hyfywedd Ysgol Hafodwenog yn y dyfodol.

Mae'r dogfennau'n dangos bod adeilad Ysgol Gynradd Meidrim yn cael ei raddio'n Radd C ar gyfer addasrwydd. Mewn cyferbyniad, mae Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog ill dwy wedi eu graddio'n Radd B, sy'n dangos bod eu hadeiladau mewn sefyllfa gryfach i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm. Mae'n ymddangos bod hwn yn ffactor perthnasol i'w ystyried mewn cysylltiad â'r cynnig.

Mae Cyngor Sir Gâr wedi darparu asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ac asesiad o'r effaith ar y gymuned yn rhan o'r cynnig hwn.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'n ymddangos bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynnig ar ansawdd a safonau addysg, yn cynnwys safonau a lles disgyblion, addysgu a dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r cynnig hefyd yn cyfeirio at ddeilliannau arolygu diweddaraf Estyn ar gyfer yr ysgolion sydd wedi eu heffeithio. Mae'r cynnig yn awgrymu, ar ôl gosod Ysgol Gynradd Meidrim yng nghategori ffurfiol mesurau arbennig Estyn yn 2024, y gallai'r ysgolion amgen ddarparu amgylchedd addysgol mwy sefydlog ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, er bod y cynnig yn nodi bod Ysgol Gynradd Meidrim bellach wedi cael ei thynnu o'r categori mesurau arbennig, nid yw'n rhoi manylion am y cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud tuag at bob un o'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad arolygu.

